



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion

Adroddiad ac argymhellion
Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

Gorffennaf 2013

Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion

Cynulleidfa

Canolfannau Cymraeg i Oedolion, darparwyr Cymraeg i Oedolion, tiwtoriaid, dysgwyr, darpar-ddysgwyr, siaradwyr Cymraeg, cyrff dyfarnu, Comisiynydd y Gymraeg, Mentrau Iaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, BBC Cymru, S4C, cyflogwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r maes.

Trosolwg

Yn ystod haf 2012, ffurfiwyd Grŵp i adolygu maes Cymraeg i Oedolion yn nhermau cyrhaeddiad dysgwyr, cynnwys cwricwlaidd, strwythurau darparu a gwerth am arian. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau'r Grŵp Adolygu a'u hargymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a strwythurau'r maes yn y dyfodol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg mewn Addysg

Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Tŷ'r Afon

Bedwas

Caerffili

CF83 8WT

Ffôn: 0300 062 2428

e-bost: addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/?skip=1&lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010);

Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (Llywodraeth Cymru, 2012)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Rhagair	3
Rhan 1: Cyflwyniad a chyd-destun	5
Cyflwyniad	5
Cyd-destun polisi	6
Cefndir	7
Y sefyllfa gyfredol	9
Cynnydd hyd yn hyn	10
Rhan 2: Pennu'r blaenoriaethau a dull gweithredu	13
Meini prawf ar gyfer unrhyw newid	13
Dull gweithredu a derbyn tystiolaeth	14
Rhai dewisiadau a chwestiynau i'w hystyried	15
Terminoleg a diffiniadau	17
Rhan 3: Y profiad dysgu	19
Y dysgwyr	19
Marchnata	22
Dysgu ac addysgu	24
Cymraeg yn y Gweithle	28
Cymraeg i'r Teulu	32
Cymwysterau, achredu ac asesu	34
Ansawdd	36
E-ddysgu	37
Dysgu lled-ffurfiol ac anffurfiol a rôl siaradwyr Cymraeg	39
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	43
Y cyfryngau	44
Dysgwyr y tu allan i Gymru	45
Rhan 4: Strwythur ac adnoddau	46
Y chwe Chanolfan a'r is-ddarparwyr	46
Arweiniad, rheolaeth a llywodraethiant	48
Staff a hyfforddiant	49
Cyllid	51
Y sector preifat, addysg bellach ac addysg uwch	55
Rhan 5: Y dyfodol	57
Yr angen am newid	57
Newid strwythurol	59
Gweithredu'r newid	63
Newid pwyslais a chyrraedd dysgwyr newydd	65
Rhan 6: Codi golygon: casgliadau ac argymhellion	67

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

Atodiad 2: Aelodau Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

Atodiad 3: Sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth

Atodiad 4: Ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd

Atodiad 5: Adroddiadau ymchwil, dogfennau cyfeirio eraill ac erthyglau perthnasol a gyhoeddwyd yn y wasg

Atodiad 6: Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd: Dysgu, addysgu ac asesu

Atodiad 7: Adnoddau a welwyd gan y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

Atodiad 8: Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

Atodiad 9: Holiadur i gyflogwyr

Atodiad 10: Rhaglenni posibl ar gyfer Cymraeg i Oedolion

Atodiad 11: Cydnabyddiaethau

Rhagair

Mae sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru heddiw ac mae gan faes Cymraeg i Oedolion rôl allweddol yn hyn o beth. Braint felly oedd derbyn yr her o arwain adolygiad o'r maes pwysig hwn.

Mae maes cwricwlaidd Cymraeg i Oedolion wedi datblygu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae'n faes sydd a rôl hanfodol bwysig o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hefyd sicrhau bod unigolion yn datblygu eu sgiliau iaith mewn perthynas â'u gwaith, eu teuluoedd ac mewn nifer o gylchoedd eraill yn y Gymru gyfoes. Bob blwyddyn, mae oddeutu 18,000 o fyfyrwyr yn cofrestru yn nosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £13 miliwn y flwyddyn ar gefnogi'r ddarpariaeth. Dylid nodi hefyd nad oes gan y maes cwricwlaidd yma fonopoli ar greu dysgwyr ac mae nifer helaeth o unigolion sydd bellach yn siaradwyr rhugl yng Nghymru a thu hwnt wedi dysgu'r iaith trwy lwybrau eraill.

Ceir nifer o resymau pam fod unigolion yn dysgu iaith: at ddibenion swydd, er diddordeb academiaidd, er mwyn gwella ymwybyddiaeth neu i deimlo'n rhan o deulu neu gymdeithas ehangach. Gall y daith i ddysgu'r Gymraeg fod yn droellog a serth i rai a bydd arnynt angen penderfyniad, ymroddiad a chefnogaeth. Gwnaed ymdrechion i deilwra cyrsiau ar wahanol lefelau a defnyddio gwahanol fodelau cyflwyno er mwyn ateb gofynion y dysgwyr, a cheir trefn asesu, achredu ac arholi i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Yn hanesyddol bu'r maes yma yn rhan o ddarpariaeth gymunedol llywodraeth leol, a darpariaeth colegau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch ynghyd ag asiantaethau yn y trydydd sector a'r sector breifat. Yn ganolog i'r ddarpariaeth heddiw y mae rôl a gwaith y chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion a sefydlwyd yn 2006. Mae'r Canolfannau wedi gwneud gwaith pwysig i ddatblygu'r maes yng Nghymru.

Yn dilyn cyfnod ymsefydlu, roedd yn adeg briodol i ystyried y sefyllfa a chodi cwestiynau perthnasol er mwyn sicrhau bod y maes yma yn parhau i ddatblygu a'r gwasanaeth yn cael ei ymestyn. Ers 2006 bu newidiadau mawr yn y byd addysg ac mae mwy ar y gorwel. Felly, wrth sefydlu'r Grŵp Adolygu, roedd cwestiynau penodol i ni eu hystyried. Yn gryno, mae'r prif gwestiynau yn ymwneud â dysgwyr, y cwricwlwm a strwythur y gwasanaeth.

Wrth ddechrau ar y gwaith roedd y Grŵp Adolygu yn ymwybodol fod yn rhaid ymatal rhag argymell newidiadau dim ond er mwyn newid. Derbyniwyd tystiolaeth glir o nodweddion gwerthfawr a buddiol ac rydym yn argyhoeddedig y dylai'r rhain gael eu diogelu a'u datblygu ymhellach. Ar yr un pryd, cawsom dystiolaeth o feysydd yr oedd angen eu gwella a'u cryfhau. Mae wedi bod yn dasg ddiddorol i bwyso a mesur y dystiolaeth, gwirio ffeithiau a dod i gasgliadau.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi casglu tystiolaeth gan ystod eang o gynrychiolwyr a rhanddeiliaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Fe'n cyfeiriwyd yn aml at arfer da rhyngwladol. Ein cyfweiliadau gyda phersonél

arbenigol a grwpiau ffocws oedd prif sail ein penderfyniadau ynghylch beth oedd angen ei wella.

Felly, mae'r Grŵp Adolygu wedi gwrandio, darllen a thrafod yn helaeth wrth fynd drwy'r gwaith. Roeddem hefyd yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed gan arloeswyr yn y maes yn y ganrif ddiwethaf a'r ymroddiad a'r dyfalbarhad gan lu o unigolion, yn aml yn wirfoddol, i sicrhau bod y maes addysgol hwn yn gwneud cyfraniad mor allweddol heddiw. Cawsom hefyd ein calonogi gan ein cyfarfodydd gyda dysgwyr a mawr yw ein hedmygedd ohonynt.

Sylweddolwn fod dyfodol y Gymraeg yn ddibynnol ar nifer o ffactorau ac mae llwyddiant y maes hwn yn un ohonynt. Rydym, fel Grŵp, yn uchelgeisiol ynghylch Cymraeg i Oedolion ac rydym wedi amlinellu ein gweledigaeth yn y ddogfen. Rydym yn hyderus y bydd gweithredu'r argymhellion o fewn hinsawdd a fframwaith sy'n gefnogol i'r iaith Gymraeg yn gam pwysig ymlaen tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae gan y maes botensial mawr, ac mae'r amser wedi dod i ni fel cenedl *godi golygon*.

Dr Haydn E Edwards
Cadeirydd Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion
Mehefin 2013

Rhan 1: Cyflwyniad a chyd-destun

Cyflwyniad

1. Addysg gymunedol yw Cymraeg i Oedolion. Diben y maes yw darparu cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau neu eu gweithleoedd. I bwrpas y maes hwn, rydym yn delio â dysgwyr ôl-19 oed. Mae'r maes yn unigryw o ran y ddarpariaeth addysg i oedolion am ei fod yn cael ei gefnogi gan bolisïau iaith ac addysg y Llywodraeth ac yn cyfrannu at y nod o weld yr iaith yn ffynnu. Mae'r maes hefyd yn integreiddio â nifer o bolisïau eraill y Llywodraeth o ran rhoi hyder newydd i unigolion, cynyddu cyflogadwyedd, cymhathu o fewn cymdeithas leol, rhoi cynhaliaeth i rieni er mwyn iddynt allu cefnogi eu plant a'u teuluoedd a mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd. Mae'n faes cynhwysfawr sydd ar gael i bawb.
2. Yn ystod haf 2012 cyhoeddodd y cyn-Wweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC ei fod am sefydlu grŵp i adolygu maes Cymraeg i Oedolion a chyhoeddwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y gwaith (Atodiad 1). Ar ddiwedd yr haf cyhoeddwyd aelodaeth y Grŵp Adolygu (Atodiad 2) a dechreuwyd ar y gwaith yn yr hydref. Mewn cyfnod o newidiadau niferus ym maes addysg a hyfforddiant, megis uno colegau addysg bellach a phrifysgolion; sefydlu consortia addysg; ac adolygu Cymraeg ail iaith fel pwnc, yn ogystal â datblygiadau o ran yr iaith yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Iaith y Llywodraeth ym mis Mawrth 2012, penderfynwyd ei bod yn amserol i adolygu maes Cymraeg i Oedolion o ran cyrhaeddiad dysgwyr, cynnwys y cwricwlwm, strwythurau darparu a gwerth am arian.
3. Ers hynny mae'r Grŵp Adolygu wedi casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion gan gynnwys y Canolfannau Cymraeg i Oedolion, darparwyr eraill, tiwtoriaid, cyflogwyr ac wrth gwrs gan ddysgwyr. Mae'r Grŵp Adolygu hefyd wedi gwahodd tystiolaeth gan gyrff sydd â diddordeb yn y maes. Ceir gwybodaeth bellach am ddulliau gweithredu'r Grŵp Adolygu yn Rhan 2 yr adroddiad hwn.
4. Mae gwaith y Grŵp Adolygu wedi dwysáu yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011. Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd nifer a chyfran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Roedd y gostyngiad hwn yn ganlyniad i newidiadau demograffig yn y boblogaeth a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad. Er gwaethaf cynnydd ym maint y boblogaeth, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Roedd y gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio yn ôl grŵp oedran - gyda chynnydd sylweddol o ran plant iau (3-4 oed), rhywfaint o gynnydd o ran oedolion 20-44 oed, a gostyngiadau yn y grwpiau oedran eraill. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod her i faes Cymraeg i Oedolion a bydd yr adroddiad yn manylu ymhellach ar hyn.

Cyd-destun polisi

5. Mae gweledigaeth y Llywodraeth o ran y Gymraeg, sef gweld y Gymraeg yn ffynnu, yn cael ei nodi yn ei strategaeth *laith Fyw: laith Byw*, a gyhoeddwyd yn 2012. Mae'r strategaeth yn datgan bod y Llywodraeth am weld y canlynol dros bum mlynedd:
- cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio
 - rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
 - mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern
 - sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
 - lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, maent am weld y cyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei wreiddio a'i rannu ymysg nifer cynyddol o sefydliadau ar draws Cymru. Yn ogystal, mae'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011-2016 yn datgan bod y Llywodraeth am 'sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd'.

6. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a oedd eisoes wedi'i chyhoeddi yn 2010, yn cyfrannu at wireddu *laith Fyw: laith Byw* ac mae nifer o amcanion y ddwy Strategaeth yn plethu i'w gilydd. Gweledigaeth y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw *cael system addysg a hyfforddiant sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle*. Mae amcanion penodol ynddi i barhau i ddatblygu maes Cymraeg i Oedolion er mwyn codi safonau a chynyddu'r nifer sy'n gallu cyfrannu at eu cymunedau a'u gweithleoedd yn y Gymraeg. Yn ogystal, mae rôl bwysig gan Gymraeg i Oedolion i'w chwarae mewn perthynas â nifer o feysydd strategol *laith Fyw: laith Byw*, ac yn bennaf:
- y teulu: annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd;
 - y gymuned: cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned;
 - y gweithle: cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
7. Chwaraeodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg rôl o ran ariannu dysgu anffurfiol ym maes Cymraeg i Oedolion am gyfnod hir ac roedd yn gyfrifol am gytuno a monitro cynlluniau iaith sefydliadau cyhoeddus Cymru. Ond gwelwyd newidiadau yn sgil cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a throsglwyddwyd ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru ac i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a sefydlwyd yn 2012. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau er mwyn sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am hyrwyddo defnydd o'r

Gymraeg mewn cymunedau. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisïau.

8. Yr un gweithdrefnau ansawdd, cyllido a chasglu data sy'n cael eu defnyddio ym maes Cymraeg i Oedolion a'r maes addysg gymunedol . Cyhoeddwyd Datganiad Polisi ar ddysgu cymunedol¹ ym mis Tachwedd 2010 sy'n nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y maes yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r canlynol:

- bod mwy yn cymryd rhan o blith y rhai sydd wedi elwa lleiaf ar addysg yn y gorffennol neu sydd fwyaf tebygol o beidio ag elwa yn y dyfodol;
- bod ansawdd y profiad dysgu yn well a bod mwy o gyfleoedd i barhau i ddysgu neu i gael swydd; a
- bod mwy o gydlyniant yn natur a phatrymau'r ddarpariaeth ar draws yr ystod eang o ddarparwyr.

Er nad yw Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynnwys yn y datganiad polisi, mae agweddau ar y datganiad yn berthnasol i'r maes.

9. Mae polisïau, gweithdrefnau a datblygiadau cenedlaethol eraill hefyd yn dylanwadu ar Gymraeg i Oedolion. Er enghraifft, mae'r adolygiad cyfredol o faes Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, yr adolygiad o'r Eisteddfod Genedlaethol, y grŵp sy'n trafod perthynas yr iaith â'r Economi, a'r grŵp sy'n edrych ar y Gymraeg yn y gymuned i gyd yn berthnasol, a bydd angen sicrhau bod argymhellion y grwpiau hyn yn adeiladu ar ei gilydd er lles yr iaith. Yn ogystal, mae angen cydnabod ac ystyried canfyddiadau'r adolygiad diweddar o gymwysterau i bobl ifanc 14-19 oed; datblygiadau ym maes Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill; a newidiadau strwythurol ym maes addysg a hyfforddiant.
10. Cydnabu'r Grŵp Adolygu fod hefyd angen ystyried Cymraeg i Oedolion yng nghyd-destun y byd sydd ohoni. Mae pwysau economaidd yn cynyddu ac mae amser pobl yn brin. Er bod dealltwriaeth gyffredinol o bwysigrwydd dysgu gydol oes, mae llawer o'r dysgu'n digwydd yn y gweithle ac ar-lein erbyn hyn. Nid yw gweithgareddau cymunedol lleol yn rhan mor amlwg o fywyd ag yr oeddent yn y gorffennol.

Cefndir

11. Darparwyd cyrsiau Cymraeg i Oedolion ers degawdau, ac yn aml iawn maent wedi dibynnu ar unigolion brwdfrydig. Yn ystod y 1960au a'r 1970au gwelwyd bod angen ymdrech fwy strwythuredig i ddatblygu a darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion fel rhan o'r angen i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. O ganlyniad, daeth cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn rhan o ddarpariaeth addysg i oedolion a gynigiwyd gan ystod o ddarparwyr, gan

¹ Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru, Tachwedd 2010:
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/deliveringlearning/?sessionid=73F40FCDDC68938A50260B5D628AB401?skip=1&lang=cy>

gynnwys awdurdodau addysg lleol, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ynghyd â sefydliadau cymunedol a gwirfoddol.

12. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd *Cymraeg Byw* fel ffurf safonol o Gymraeg llafar ar gyfer dysgwyr a mabwysiadwyd y ffurf hon yn llyfrau'r cwrs. *Cymraeg i Oedolion* oedd yr ymgais gyntaf i lunio cwrs cenedlaethol ar gyfer dysgwyr. Yn y 1970au gwelwyd bod angen cynyddu oriau cyswllt dysgwyr â'r Gymraeg os oeddent am groesi'r bont i ddefnyddio'r iaith. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd y cyrsiau dwys Wlpan yn seiliedig ar ddulliau dysgu a ddefnyddiwyd yn Israel i ddysgu'r Hebraeg. Roedd y datblygiad hwn, ynghyd â darpariaeth gyntaf y cyrsiau dwys wyth wythnos gan Brifysgol Caerdydd ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, yn un o'r cerrig milltir pwysicaf yn hanes Cymraeg i Oedolion, ac mae'r dull Wlpan yn dal i gael ei ddefnyddio heddiw.
13. Carreg filltir nodedig arall oedd sefydlu Nant Gwrtheyrn, Canolfan Iaith a Threftadaeth, yn y 1970au. Gwelwyd bod angen canolfan iaith genedlaethol a fyddai'n darparu cyrsiau preswyl drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl denu cefnogaeth tiwtoriaid, pobl fusnes a chyfeillion, sefydlwyd Ymddiriedolaeth er mwyn prynu pentref Nant Gwrtheyrn. Cynhaliwyd y cwrs Cymraeg cyntaf yn y Nant yn 1982, ac ers hynny mae'r Ganolfan wedi arbenigo mewn cyrsiau preswyl dwys.
14. Yn y 1980au a'r 1990au rhoddwyd blas mwy tafodieithol i'r iaith a ddefnyddiwyd yn y cyrsiau er mwyn galluogi dysgwyr i ddysgu'r iaith y byddent yn ei chlywed yn lleol. Yn ogystal, daeth y cysyniad o deilwra cyrsiau ar gyfer y gweithle i'r amlwg yn sgil cyflwyno Deddf Iaith 1993.
15. Erbyn 1992, roedd trefn glir wedi'i datblygu ar gyfer darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion, ac yn 1994 sefydlwyd wyth consortiwm rhanbarthol (yn seiliedig ar yr hen siroedd/awdurdodau lleol) i fod yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth, y gwaith marchnata a'r hyfforddiant i diwtoriaid ymhlith pethau eraill ar draws nifer o ddarparwyr.
16. Yn 2000 daeth ELWa (y corff cyllido ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 oed, ac eithrio addysg uwch) yn gyfrifol am y trefniadau ariannu ar gyfer maes Cymraeg i Oedolion. Yn fuan wedyn, yn 2003, cyhoeddwyd *Iaith Pawb*, cynllun gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer yr iaith Gymraeg. Argymhellwyd yn *Iaith Pawb* bod ELWa yn:
 - datblygu dull cydlynol o ddarparu Cymraeg i Oedolion gan adolygu'r gwaith cynllunio a chyflenwi er mwyn dwyn y gwaith i'r brif ffrwd gynllunio a chodi proffil y Gymraeg; ac
 - ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion pwrpasol er mwyn rhoi cyfleoedd i oedolion di-Gymraeg i gael mynediad i gyrsiau iaith Gymraeg effeithiol a chyson.
17. Yn yr un cyfnod, cynhyrchwyd dwy astudiaeth sef gwerthusiad cenedlaethol ac arolwg penodol o ansawdd y ddarpariaeth. Comisiynwyd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol (SCYA) i ymgymryd â'r gwerthusiad, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2003. Cyhoeddodd Estyn

adroddiad ar ansawdd darpariaeth Cymraeg i Oedolion ym mis Mawrth 2004.

18. Cynigiodd y ddau adroddiad nifer o argymhellion mewn perthynas â:
 - chynllunio a rheolaeth strategol;
 - strwythur;
 - cyllido;
 - marchnata a chodi statws y maes;
 - ansawdd yr addysgu a hyfforddiant i diwtoriaid;
 - cefnogaeth a chyfleoedd i ddysgwyr; ac
 - adnoddau dysgu ac addysgu.
19. Mewn ymateb i'r adroddiadau, aeth ELWa ati i ailstrwythuro a datblygu'r maes Cymraeg i Oedolion. Un o'r cynigion mwyaf oedd ailstrwythuro'r maes a sefydlu Canolfannau rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gynllunio a chyllido'r ddarpariaeth. Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2005. Ymhlith datblygiadau eraill, comisiynwyd cymhwyster cenedlaethol i hyfforddi tiwtoriaid; cynyddwyd pwysoliad cyllido maes Cymraeg i Oedolion i 1.5; datblygwyd brand cenedlaethol ar gyfer y maes i wella'r marchnata cenedlaethol a sicrhau cysondeb; a datblygwyd cwrslyfrau newydd.

Y sefyllfa gyfredol

20. Cafodd chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion eu sefydlu yn 2006 (yn seiliedig ar gyn-ranbarthau ELWa), yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a phroses o ymgeisio am grant, er mwyn dwyn ynghyd yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth iaith Gymraeg a oedd yn bodoli ar y pryd gyda'r bwriad o godi safonau. Mae'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion isod yn gyfrifol am y cynllunio a'r ddarpariaeth o fewn eu rhanbarthau:
 - Caerdydd a Bro Morgannwg (ym Mhrifysgol Caerdydd);
 - Canolbarth Cymru (ym Mhrifysgol Aberystwyth);
 - De-orllewin Cymru (ym Mhrifysgol Abertawe);
 - Gogledd Cymru (ym Mhrifysgol Bangor);
 - Gwent (yng Ngholeg Gwent);
 - Morgannwg (ym Mhrifysgol Morgannwg).
21. Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am gydlynu'r maes Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol a'i ddatblygu'n strategol. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn pennu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y chwe Chanolfan ac yn monitro eu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau canlynol:
 - cynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau dwys;
 - cynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau lefel uwch;
 - datblygu'r defnydd o e-ddysgu er mwyn gwneud Cymraeg i Oedolion yn fwy hylaw;
 - datblygu darpariaeth Cymraeg i'r Teulu er mwyn galluogi rhieni i ddysgu Cymraeg gyda'u plant;

- datblygu Cymraeg yn y Gweithle er mwyn cefnogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg;
 - cynyddu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg dysgwyr a thrwy brosiectau amrywiol er mwyn dod â dysgwyr a siaradwyr rhugl at ei gilydd; a
 - sicrhau gweithlu tiwtoriaid o safon uchel.
22. Ar hyn o bryd, mae Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy ddwy ffrwd ar wahân:
- cyllid rheolaidd ar gyfer y ddarpariaeth drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol; a
 - chyllid grant datblygu drwy'r Uned Cymraeg mewn Addysg, yn unol â mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt.

Nodir y dyraniadau ariannol a gafwyd ers sefydlu'r Canolfannau yn y tabl isod:

Tabl 1 – Cyllid rheolaidd a chyllid grant y Canolfannau Cymraeg i Oedolion 2007/08 – 2012/13

	2007/08 £m	2008/09 £m	2009/10 £m	2010/11 £m	2011/12 £m	2012/13 £m
Cyllid Rheolaidd Cymraeg i Oedolion	6.86	8.81	10.27	10.40	10.29	10.57
Cyllid Grant Cymraeg i Oedolion	2.00	2.26	2.26	2.26	2.20	2.04

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

23. Mae AdAS hefyd yn ariannu ystod o fentrau cenedlaethol i gefnogi Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys y strategaeth farchnata genedlaethol, comisiynu adnoddau dysgu ac addysgu, asesu ac achredu, a rhaglen hyfforddi genedlaethol i diwtoriaid. Mae'r mentrau cenedlaethol hyn yn sicrhau cysondeb ledled Cymru, gan helpu i wella safonau a chael gwared ar ddyblygu lleol. Yn ystod 2011/12 roedd y gwariant ychwanegol yn gyfanswm o oddeutu £0.507 miliwn.

Cynnydd hyd yn hyn

24. Ymddengys fod nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion wedi bod yn weddol gyson ers i'r cyfrifoldeb am gynllunio a chyllido'r ddarpariaeth drosglwyddo i'r Canolfannau yn 2007/08, a hynny er gwaethaf newidiadau cymdeithasol ac economaidd. Hefyd, fel y dengys Tabl 2, mae maint y ddarpariaeth (nifer y gweithgareddau dysgu) wedi cynyddu sy'n awgrymu bod y dysgwyr yn gwneud mwy o ddysgu h.y. yn cofrestru ar fwy o gyrsiau neu'n cofrestru ar nifer o gyrsiau atodol. Mae'n bwysig nodi bod y dulliau casglu data wedi newid dros y blynyddoedd ac er bod rhai problemau yn dal i fodoli, mae ansawdd y data wedi gwella ers sefydlu'r Canolfannau.

Tabl 2: Nifer y dysgwyr a nifer y gweithgareddau dysgu

Blwyddyn	Nifer y dysgwyr*	Nifer y gweithgareddau dysgu*
2007/08	17,570	24,955
2008/09	18,220	27,180
2009/10	17,865	27,440
2010/11	18,205	27,465
2011/12	18,050	31,190

Ffynhonnell: LLWR² a HESA³

**Nifer wedi cyfri i'r 5 agosaf*

25. Dengys y data hefyd nad yw'r pyramid lefelau wedi newid llawer ers sefydlu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae'r niferoedd sy'n dysgu ar y gwahanol lefelau wedi aros yn weddol gyson fel y dengys Tabl 3, a thrafodir hyn ymhellach yn Rhan 3 y'r adroddiad.

Tabl 3: Nifer* y dysgwyr ar bob lefel

Lefel	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12
Lefel Mynediad / Cyn Mynediad	7,745	7,975	8,675	8,420	8,010
Lefel Sylfaen (Lefel 1 neu gyfwerth)	4,390	5,385	3,510	3,795	2,830
Canolradd (Lefel 2 neu gyfwerth)	2,155	1,885	2,005	2,200	1,990
Uwch (Lefel 3 neu gyfwerth)	1,305	1,150	1,550	1,570	1,565
Hyfedredd (Lefel 4 neu gyfwerth)	200	360	430	620	1,050
Arbenigol (e.e. cyrsiau adolygu neu gyrsiau byr neu Gymraeg yn y gweithle)	1,775	1,470	1,700	1,600	2,600
Cyfanswm	17,570	18,220	17,865	18,205	18,050

Ffynhonnell: LLWR a HESA

**Nifer wedi cyfri i'r 5 agosaf*

26. Cwblhawyd gwerthusiad allanol o'r maes Cymraeg i Oedolion ym mis Ebrill 2010⁴. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod cynnydd wedi ei wneud wrth ddatblygu Cymraeg i Oedolion, ac ar y cyfan roedd yn gefnogol o'r camau i symud y maes yn ei flaen. Nodwyd bod y Canolfannau wedi cyflawni'r canlynol:
- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth o fewn y rhanbarthau, gan helpu i greu darlun amlycach o farchnadoedd rhanbarthol, a helpu i ddileu dyblygu;
 - atal y dirywiad yn nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion a welwyd yn y cyfnod yn union cyn sefydlu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, a gwella cynnydd dysgwyr rhwng lefelau'r fframwaith cenedlaethol;

² LLWR – Lifelong Learning Wales Record.

³ HESA – Higher Education Statistics Agency.

⁴ Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion, Old Bell 3, <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/evaluationofwfa/?skip=1&lang=cy>

- gwella'r ddarpariaeth sydd wedi'i theilwra'n arbennig megis y ddarpariaeth Cymraeg i'r Teulu neu Gymraeg yn y Gweithle, a rhoi mwy o bwyslais ar gyrsiau dwys;
 - darparu cyfleoedd hyfforddi wedi eu cynllunio ac o ansawdd uchel ar gyfer tiwtoriaid, sy'n gyson â'r pwyslais a roddir ar hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn *Cymru'n Un*, a helpu i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu;
 - cynyddu nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion, hybu'r cynnydd rhwng lefelau a helpu dysgwyr i gyrraedd lefel uwch.
27. Cydnabu'r gwerthusiad hefyd fod angen parhau i ddatblygu'r maes, a nodwyd nifer o argymhellion gan gynnwys:
- yr angen i'r Canolfannau gydweithio a rhannu arfer da mewn perthynas â chynllunio strategol a dadansoddi'r farchnad;
 - yr angen i sicrhau bod prosesau casglu data cyson ar draws y chwe chanolfan;
 - yr angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y bydd angen elfen o gyllid grant i gynnal rhai swyddogaethau; a'r
 - yr angen i'r Canolfannau edrych ar eu polisiâu ariannu gyda golwg ar ddefnyddio mwy o gyllid craidd i gyfrannu at gostau rheoli a sicrhau lefel uwch o effeithiolrwydd gan eu rhwydweithiau darparwyr.
28. Rhaid nodi bod nifer o gyflogwyr yn darparu cyrsiau'n fewnol i'w staff a cheir ddarpariaeth hefyd gan y sector breifat, y sector wirfoddol a'r sector addysg uwch. Byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach yn Rhan 3 a Rhan 4 yr adroddiad.
29. Rydym felly yn delio â maes sydd wedi newid a datblygu yn y blynyddoedd diwethaf a gwasanaeth addysg sydd i bob pwrpas yn unigryw i Gymru. Mae'r adolygiad presennol yn edrych ar bob agwedd o'r maes. Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn delio â materion proses a chyd-destun. Yna, mae Rhan 3, 4 a 5 yr adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd a gwybodaeth bellach i roi dadansoddiad mwy manwl, a chyflwynir nifer o argymhellion ar gyfer y dyfodol yn Rhan 6.

Rhan 2: Pennu blaenoriaethau a dull gweithredu

Meini prawf ar gyfer unrhyw newid

30. Cynhyrchwyd nifer o werthusiadau ac adroddiadau sy'n pwysu a mesur llwyddiant ac yn edrych ar wahanol agweddau o'r maes, ond dyma'r tro cyntaf i grŵp annibynnol allanol gael ei sefydlu i ystyried dyfodol y maes.
31. Wrth ddechrau adolygu mae'n bwysig bod y cylch gorchwyl yn glir a hefyd bod y broses o gasglu tystiolaeth wedi'i chytuno ac yn ychwanegu gwybodaeth, barn a phersbectif. Cynhaliwyd cyfarfod â Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, yn gynnar yn y broses i drafod y Cylch Gorchwyl, derbyn sylwadau a thrafod cwestiynau perthnasol. Cyn dod i gasgliadau am unrhyw newidiadau ar ôl edrych ar y dystiolaeth, mae angen bod yn glir hefyd ynghylch beth yw'r meini prawf ar gyfer newid a sut mae mesur llwyddiant y maes. Ar ddechrau'r gwaith felly cafwyd trafodaeth am weledigaeth y Grŵp Adolygu ar gyfer maes Cymraeg i Oedolion.
32. Ffrwyth y drafodaeth am weledigaeth y Grŵp oedd datblygu'r meini prawf cytûn canlynol ar gyfer y maes. Bydd y rhain yn ganllaw wrth ystyried y dystiolaeth a dod i gasgliadau a fydd yn arwain at argymhellion yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Mae angen i Gymraeg i Oedolion yng Nghymru:

- fod yn wasanaeth o ragoriaeth genedlaethol sy'n cyfrannu at greu Cymru ddwyieithog ac sy'n ennyn cefnogaeth drwy'r wlad;
- cyrraedd ac ymateb i ddysgwyr o bob oed, gallu, lleoliad, rhyw a chefnidir, ac yn enwedig felly rai grwpiau targed yn y gweithle a theuluoedd yn ogystal â'r ddarpariaeth draddodiadol yn y gymuned;
- meddu ar broffil clir yn genedlaethol a lleol gyda marchnata o safon;
- gynnig darpariaeth sy'n cael ei chefnogi'n greadigol gan ddysgu anffurfiol, e-ddysgu, y cyfryngau, a'r dulliau diweddaraf o gyfathrebu a phartneriaid allweddol;
- gynnig darpariaeth o ansawdd sy'n gwella'n barhaus gan rannu arfer da yng Nghymru ac yn rhyngwladol, ac sy'n defnyddio adnoddau o'r radd flaenaf;
- bod yn gyfrwng i bontio'n effeithiol rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf;
- defnyddio ymchwil berthnasol i hyrwyddo datblygiad ac arloesedd yn y maes;
- cael ei gynnal gan diwtoriaid ymroddedig, proffesiynol o'r radd flaenaf;
- bod yn wasanaeth sy'n cael ei gynllunio'n strategol, ei gyllido'n ddigonol, ei arwain a'i reoli i safon uchel, yn gost effeithiol ac yn osgoi dyblygu dianghenraid.


Dull gweithredu a derbyn tystiolaeth

33. Cychwynnodd yr adolygiad ym Medi 2012. Yn y cyfarfod cyntaf hwnnw cafwyd trafodaeth ar weledigaeth aelodau'r Grŵp Adolygu ar gyfer y maes a hefyd ar ddulliau gweithredu. Cafodd yr aelodau gyfle i ddatgan buddiannau a fyddai'n gallu amharu ar waith y Grŵp Adolygu, ac mae'r gofrestr honno wedi cael ei diweddaru'n barhaus wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Cytunwyd hefyd y byddai angen i'r Grŵp Adolygu gadw at egwyddorion Nolan; a thrafodwyd cyfrinachedd a thryloywder yn benodol. Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp Adolygu yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cwrdd mewn lleoliadau ar draws Cymru yn ôl yr angen. Cyfarfu'r Grŵp 21 o weithiau yn ystod y cyfnod adolygu.
34. Yn y cyfarfod cychwynnol cytunwyd y byddai angen derbyn tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig gan y canlynol:
- dysgwyr;
 - cyflogwyr;
 - y Canolfannau Cymraeg i Oedolion;
 - darparwyr Cymraeg i Oedolion;
 - tiwtoriaid; ac
 - unigolion neu sefydliadau â diddordeb yn y maes.
35. Cytunwyd hefyd i fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau gweithredu, a gwnaed y canlynol yn ystod cyfnod yr adolygiad:
- cynhaliwyd 7 o grwpiau ffocws gyda dysgwyr a 4 o grwpiau ffocws gyda thiwtoriaid;
 - derbyniwyd 105 o ymatebion i holiadur ar-lein i gyflogwyr;
 - cafwyd trafodaethau gyda'r 6 Chanolfan a 21 darparwr arall;
 - daeth 67 o unigolion a oedd yn cynrychioli 39 o sefydliadau i gyflwyno tystiolaeth i'r Grŵp Adolygu (gweler Atodiad 3);
 - derbyniwyd 29 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau (gweler Atodiad 4);
 - gwahoddwyd unigolion a sefydliadau i anfon sylwadau ac i gyfrannu trwy wefan y Llywodraeth a chylchlythyr Dysg; a
 - mynychwyd cynadleddau perthnasol ac ymwelwyd â rhai canolfannau Cymraeg er enghraifft Tŷ Tawe, Abertawe a Chanolfan Soar, Merthyr Tudful.
- Yn rhinwedd gwaith y Grŵp, mae'r aelodau wedi cyfarfod â bron i 200 o bobl.
36. Ystyriodd y Grŵp Adolygu hefyd y drafodaeth a fu yn y wasg am ddyfodol Cymraeg i Oedolion. Mae'r ffaith y bu trafodaeth gyhoeddus am y maes yn tanlinellu'i bwysigrwydd a'r awydd ar lawr gwlad i weld y maes yn llwyddo ac yn cyfrannu at ddyfodol yr iaith.
37. Derbyniodd a thrafododd y Grŵp Adolygu nifer o adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diweddar, ac yn benodol gwaith

ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd⁵ (ceir rhestr lawn yn Atodiad 5). Cydnabyddir pwysigrwydd y gwaith ymchwil hwn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig ffordd ymlaen i faes Cymraeg i Oedolion ac a fydd hefyd o ddefnydd rhyngwladol.

Rhai dewisiadau a chwestiynau i'w hystyried

38. Un o'r pethau a ddaeth i'r amlwg i'r Grŵp Adolygu yn gynnar iawn yn y broses o adolygu maes Cymraeg i Oedolion oedd cymhlethdod y maes, nid yn unig o ran y dull cyllido, yr amrywiaeth o ddysgwyr a'i strwythur, ond hefyd o ran yr holl randdeiliaid sydd â chyfraniad pwysig i wneud i'r maes. Dyma ymgais y Grŵp Adolygu felly i fapio'r maes:



Llun 1: Siart llif yn dangos strwythurau a dylanwadau ym maes Cymraeg i Oedolion

Gyda'r dysgwr yn y canol, mae'r siart llif uchod yn dangos y strwythurau a'r dylanwadau sydd o'i gwmpas er mwyn cyflawni'r nod, sef creu siaradwr Cymraeg. Yn y blychau oren, ceir y ffactorau sy'n cymhell dysgwr i ddechrau dysgu Cymraeg. Yn y blychau glas, gan ddechrau gyda'r Llywodraeth, ceir y strwythur sy'n bodoli ar hyn o bryd i ddarparu cyrsiau er mwyn diwallu anghenion y dysgwr. Mae'r blychau gwyrdd yn cynnwys y cyfleoedd pwysig sydd eu hangen ar ddysgwyr i ymarfer er mwyn gallu dod yn siaradwr, ac yn dylanwadu ar hyn oll y

5

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/researchandevaluation/research/wf-a-teaching-and-learning-a-critical-review/?skip=1&lang=cy> Adnoddau, dulliau ac ymagwedddau dysgu ac addysgu ym maes Cymraeg i Oedolion: astudiaeth ymchwil gynhwysfawr ac adolygiad beirniadol o'r ffordd ymlaen.

mae ymchwil, ansawdd, cyllid a hyfforddiant a strategaethau'r Llywodraeth.

39. Mater arall sydd wedi codi'i ben yn nifer helaeth o gyfarfodydd y Grŵp Adolygu yw i ba raddau y dylid blaenoriaethu gwahanol fathau o ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol. Ystyriwyd y blaenoriaethau canlynol:
- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gallu defnyddio'u Cymraeg yn y gymuned;
 - cefnogi rhieni sydd yn dewis addysg Gymraeg i'w plant;
 - cefnogi gweithleoedd i ddatblygu sgiliau iaith eu staff er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg i'w cwsmeriaid;
 - darparu cyrsiau dwys iawn a phreswyl;
 - darparu ystod o gyrsiau darnynol ym mhob ardal;
 - moderneiddio'r gwasanaeth drwy e-ddysgu.

Wrth ystyried y blaenoriaethau hyn mae gofyn creu model ar gyfer Cymraeg i Oedolion sy'n gallu bod yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion amrywiol mewn gwahanol rannau o Gymru.

40. Roedd dulliau asesu'r dysgwyr hefyd yn fater amlwg iawn i'w ystyried. A yw'r pwyslais presennol ar achredu a rhoi credydau i'r dysgwyr yn werthfawr? A yw lefel y gwariant ar arholiadau Cymraeg i Oedolion yn werth am arian? A oes angen asesu a rhoi adborth i'r dysgwyr mewn ffordd fwy defnyddiol?
41. Clywodd y Grŵp Adolygu sawl barn ynghylch beth yw rhuglder a'r hyn y disgwylir i ddysgwr rhugl allu ei wneud. Un farn oedd y gall dysgwr fod yn rhugl ar lefel Mynediad neu Sylfaen os yw'n gallu defnyddio'r iaith sydd ganddo yn bwrpasol a hyderus. Dywedodd eraill y gellid mabwysiadu lefel Canolradd neu lefel Uwch fel trothwy ar gyfer rhuglder. Wrth gwrs, er mwyn iddo gael ei ystyried yn rhugl disgwylir bod y dysgwr wedi cwblhau'r dysgu ar y lefel benodol ac y gall ddefnyddio'r iaith yn hyderus.
42. Ar ôl pwyso a mesur yr hyn a gyflwynwyd iddynt, penderfynodd aelodau'r Grŵp fod Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd (gweler Atodiad 6), ac yn benodol y disgrifiadau Lefel B1 sy'n cyfateb i'r lefel Canolradd (ar gyfer y 4 sgil iaith), yn cynnig disgrifiadau ar gyfer trothwy posibl o ran rhuglder.

Disgrifir y gallu i siarad ar Lefel B1/Canolradd fel a ganlyn:

Dw i'n gallu delio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle mae'r iaith yn cael ei siarad. Dwi'n gallu ymuno mewn sgwrs yn fyrfyr ar bynciau sy'n gyfarwydd, o ddiddordeb personol neu'n berthnasol i fywyd bob dydd (e.e. teulu, gwaith, diddordebau, digwyddiadau cyfoes).

Ar gyfer Lefel B2, sy'n cyfateb i lefel Uwch 1, disgrifir y gallu i siarad fel a ganlyn:

Dw i'n gallu ymwneud â siaradwyr brodorol yn rhugl ac yn fyrfyr. Dw i'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan roi cyfiri am fy safbwyntiau a'u cynnal.

43. Mae'n debyg mai'r disgrifiad ar gyfer Lefel B2/Uwch 1 sy'n cyfleu orau, at ddibenion yr adroddiad hwn, rhuglder a hyder i ddefnyddio'r iaith mewn ystod o sefyllfaoedd a chyd-destunau. Ond gan na welwyd bod unfrydedd barn ynghylch rhuglder, awgrymodd y Grŵp Adolygu y dylid cael trafodaeth eang yn y maes er mwyn gallu pennu diffiniad clir a chytûn o ruglder a fydd o gymorth i bawb sy'n ymwneud â'r maes.

Terminoleg a diffiniadau

44. Yn Rhan 3, 4 a 5 yr adroddiad defnyddir nifer o dermau yn rheolaidd. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r termau hyn at ddibenion yr adroddiad hwn, dyma restr ohonynt a diffiniadau aelodau'r Grŵp Adolygu:

Asesu ar gyfer dysgu: *"Asesu ar gyfer dysgu yw'r broses o ganfod a dehongli tystiolaeth at ddefnydd dysgwyr a'u hathrawon i benderfynu ar gyrhaeddiad presennol y dysgwyr, beth yw eu nodau a sut i'w cyrraedd"* (Corfforaeth Cwricwlwm Awstralia 2002.)

Canolfan Cymraeg i Oedolion: Ariennir chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion gan Lywodraeth Cymru ac mae'r rhain yn darparu'n uniongyrchol a thrwy is-ddarparwyr. Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio gwaith y Canolfannau a'r is-ddarparwyr.

Canolfan Gymraeg: Canolfan lle ceir nifer o gymdeithasau Cymraeg a Chymreig o dan yr un to er enghraifft Tŷ Tawe neu Ganolfan Soar, Merthyr Tudful.

Cyllid grant: Cyllid a roddir drwy gytundeb grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni amcanion penodol.

Cyllid rheolaidd: Cyllid addysg a bennir drwy fformiwla gan Lywodraeth Cymru ac a delir i ddarparwyr addysg cydnabyddedig am eu darpariaeth.

Cymraeg i Oedolion: Cyrsiau iaith Gymraeg i oedolion ôl-19 oed.

Cymraeg i'r Teulu: Cyrsiau iaith Gymraeg wedi'u marchnata a'u cynllunio yn arbennig ar gyfer teuluoedd ac yn bennaf teuluoedd â phlant o dan 7 oed er mwyn annog aelodau o'r teulu i siarad Cymraeg â'r plant.

Cymraeg yn y Gweithle: Cyrsiau iaith Gymraeg a ddarperir yn y gweithle ar gyfer staff, fel arfer â'r bwriad o alluogi'r aelod o staff i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg neu ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle mewn rhyw ffordd.

Darparwyr: Unrhyw sefydliadau sy'n darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys y chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion a'r 20+ o is-ddarparwyr.

Dysgu anffurfiol: Gweithgareddau heb eu strwythuro y mae dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt y tu allan i'r dosbarth, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda grŵp. Gall hyn gynnwys gweithgareddau megis mynychu digwyddiadau Cymraeg yn y gymuned; mynychu sesiynau paned a sgwrs a chlybiau dysgwyr; gwrandio ar Radio Cymru, gwyllo S4C, a defnyddio gwefannau Cymraeg; neu ddefnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau, teulu, a'r gymuned ehangach.

Dysgu cyfunol: Math o addysg sy'n cyfuno dulliau dosbarth wyneb-yn-wyneb gyda dulliau e-ddysgu sydd yn galluogi dysgwyr i gwblhau'r dysgu mewn lleoliadau ac ar adegau sydd yn gyfleus iddynt.

Dysgu lled-ffurfiol: Gweithgaredd strwythuredig o dan arweiniad tiwtor neu arweinydd arall. Gall hyn gynnwys gweithgareddau megis cynllun pontio yn y dosbarth, lle bydd siaradwyr Cymraeg yn dod i mewn i sgwrsio gyda dysgwyr, neu dasgau cyfathrebu y tu allan i'r dosbarth, fel rhan o strwythur y cwrs, megis defnyddio holiadur i sgwrsio â siaradwyr Cymraeg, neu archebu bwyd a diod mewn caffi.

E-ddysgu: Y defnydd o gyfryngau electronig a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn addysg. Defnyddir gwahanol fathau o gyfryngau gan gynnwys sain, fideo/DVD neu weithgareddau ar gyfrifiadur/tabledi digidol. Gall e-ddysgu ddigwydd y tu mewn neu tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall fod dan arweiniad tiwtor neu yn ddysgu annibynnol.

Is-ddarparwyr: Sefydliadau a ariennir drwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Siaradwyr Cymraeg: Pawb yng Nghymru a thu hwnt sy'n siarad Cymraeg boed yn siaradwyr iaith gyntaf neu wedi dysgu'r iaith fel plant neu oedolion.

Rhan 3: Y profiad dysgu

Y dysgwyr

45. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion wedi aros ar yr un lefel, sef oddeutu 18,000, gydag amrywiaeth o tua $\pm 2\%$. Bu'r maes yn weddol sefydlog felly, er y bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr mewn sectorau eraill fel Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Gellid honni, fodd bynnag, nad yw'r maes wedi tyfu a chyrhaedd ei lawn botensial.
46. Mae dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn amrywio o ran oedran a rhyw ac o ran eu cymhelliad i ddysgu. Mae'r niferoedd yng ngrwpiau oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd diweddar, fel y nodir yn Nhabl 4. Dengys y tabl fod dosbarthiad oedran y dysgwyr yn eithaf cyfartal o'i gymharu â'r farn gyffredinol mai pobl hŷn yn eu hamser hamdden sy'n dysgu Cymraeg. Dengys hefyd fod y niferoedd yn llai ymhlith pobl yn eu hugeiniau ac yn eu pumdegau, ac y gallai'r grwpiau hyn gael eu targedu'n fwy effeithiol.

Tabl 4: Nifer* y dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn ôl grŵp oedran

Blwyddyn	Dan 19	20-29	30-39	40-49	50-59	60 a throsodd	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
2007/08	185	2,335	3,850	3,795	3,095	3,985	320	17,570
2008/09	300	2,720	3,915	3,855	3,095	3,950	385	18,220
2009/10	365	2,850	3,940	3,770	2,970	3,745	220	17,865
2010/11	585	2,735	3,900	3,775	3,060	3,970	185	18,205
2011/12	595	2,610	3,800	3,795	3,015	3,985	250	18,050

Ffynhonnell: LLWR a HESA

**Nifer wedi cyfri i'r 5 agosaf*

47. Wrth edrych ar ddyraniad dysgwyr yn ôl rhyw (Tabl 5) mae'r ffigurau yn weddol gyson â ffigurau addysg gymunedol i oedolion. Mae mwy o ferched (68.8%) na dynion (31.2%) yn dysgu'r iaith, sy'n adlewyrchu canran y boblogaeth sy'n dysgu ail iaith a ieithoedd tramor yn gyffredinol. Clywyd am gamau a gymerwyd gan rai Canolfannau i ymateb i'r her hon ond mae'n amlwg bod gwaith pellach i'w wneud.

Tabl 5: Nifer* y dysgwyr yn ôl rhyw

Blwyddyn	Merched	Dynion	Cyfanswm
2007/08	12,025	5,545	17,570
2008/09	12,490	5,730	18,220
2009/10	12,260	5,605	17,865
2010/11	12,635	5,570	18,205
2011/12	12,720	5,325	18,050

Ffynhonnell: LLWR a HESA

**Nifer wedi cyfri i'r 5 agosa*

48. Mae maes Cymraeg i Oedolion yn ystyried anghenion grwpiau eraill o ddysgwyr a darpar ddysgwyr hefyd, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau. Er enghraifft, darperir hyfforddiant i diwtoriaid ar ystyriaethau'n ymwneud ag anableddau a darperir llyfrau cwrs mewn *braille* i ddysgwyr dall.
49. Targedir hefyd ddysgwyr a darpar ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr, a gwelwyd enghreifftiau o arfer da wrth dargedu'r grwpiau hyn ac enghreifftiau nodedig o lwyddiant gan rai o'r dysgwyr. Fodd bynnag, ni thargedir y grwpiau hyn yn yr un ffordd ag y gwneir yn y maes Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (SSIE).
50. Mae'n bwysig ystyried nifer y dysgwyr yng nghyd-destun canlyniadau Cyfrifiad 2011, yn enwedig wrth edrych ar y gynulleidfa darged posibl ar gyfer maes Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol. Dengys Tabl 6 y boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol Cymru o'u cymharu â nifer yr oedolion oedd yn dysgu Cymraeg yn yr ardaloedd hynny yn ystod 2010/11. Tra mai bras awgrym yw hyn, gan y byddai nifer o ddysgwyr wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, credir bod hyd at 0.8% o'r boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg ôl-16 yn dysgu Cymraeg ar ryw lefel yn ystod 2010/11. Mae hyn yn cyfateb i un dysgwr ym mhob 120 o'r boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg, sy'n cynnig her anferth ond ar yr un pryd yn dangos potensial mawr i ddenu dysgwyr newydd. Nodir mai yng Ngwynedd, Conwy a Chaerdydd y ceir y nifer uchaf o ddysgwyr. Ond wrth edrych ar ganran y boblogaeth sy'n ddysgwyr, mae Gwynedd ar y blaen gyda 3.9% o'r boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ddysgwyr – sef un dysgwr ar gyfer pob 26 person nad yw'n siarad Cymraeg. Ymddengys fod cyfle'n cael ei golli wrth beidio â denu mwy i ddysgu Cymraeg, ac felly mae angen astudiaeth i ddeall y patrymau hyn yn well ac i sicrhau bod mynediad cyson i'r ddarpariaeth ar draws Cymru. Ni dderbyniodd y Grŵp Adolygu dystiolaeth fod dosbarthiadau dan eu sang ac felly mae cyfle amlwg i gynyddu'r niferoedd gan ddefnyddio'r adnoddau presennol.
51. O ran cymhelliant, dengys ymchwil amrywiol ar hyd y blynyddoedd fod tri phrif gymhelliant i ddysgu Cymraeg – er mwyn ei defnyddio gyda'r teulu, er mwyn ei defnyddio yn y gweithle neu oherwydd teimlad o hunaniaeth Gymreig. Cadarnhawyd hyn yn y dystiolaeth a roddodd dysgwyr i'r Grŵp Adolygu mewn grwpiau ffocws. Clywyd sôn hefyd am unigolion yn dysgu'r iaith er mwyn integreiddio i'r gymdeithas leol. Mae'r cymhellion hyn yn wybodaeth werthfawr ar gyfer marchnata'r maes i ddarpar ddysgwyr.
52. Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cryn bwyslais o ran polisi ar wella dwyster a chyfraddau dilyniant yn hytrach na chynyddu nifer y dysgwyr, a chynyddodd cyfradd y gweithgareddau dysgu fel y dengys Tabl 2. Golyga hyn fod dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn derbyn mwy o oriau dysgu dan arweiniad yn ystod y flwyddyn.

Tabl 6: Canran y boblogaeth dros 16 oed sy'n ddysgwyr Cymraeg i Oedolion yn ôl Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Nifer y boblogaeth 3+ oed	Nifer y boblogaeth 16+ oed (%)	Nifer y boblogaeth 16+ oed sy'n siarad Cymraeg (%)	Nifer y boblogaeth 16+ oed di- Gymraeg (%)	Nifer y dysgwyr 16+ oed yng Nghymru	Amcangyfrif bras o % y boblogaeth 16+ oed nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n dysgu
CYMRU	2,955,841	2,507,160	393,266 (15.7%)	2,113,894 (84.3%)	17,585	0.8%
Ynys Môn	67,403	57,890	31,347 (54.1%)	26,543 (45.9%)	560	2.1%
Gwynedd	117,789	100,923	61,965 (61.4%)	38,958 (38.6%)	1,500	3.9%
Conwy	111,724	96,102	23,321 (24.3%)	72,781 (75.7%)	1,595	2.2%
Sir Ddinbych	90,527	76,781	16,314 (21.2%)	60,467 (78.8%)	710	1.2%
Sir y Fflint	146,940	123,862	11,844 (9.6%)	112,018 (90.4%)	645	0.6%
Wrecsam	129,425	109,026	10,862 (10.0%)	98,164 (90.0%)	1,075	1.1%
Powys	129,083	110,083 (	16,408 (14.9%)	93,675 (85.1%)	975	1.0%
Ceredigion	73,847	64,692	27,789 (43.0%)	36,903 (57.0%)	1,045	2.8%
Sir Benfro	118,392	100,362	15,518 (15.5%)	84,844 (84.5%)	845	1.0%
Sir Gaerfyrddin	177,642	150,763	62,534 (41.5%)	88,229 (58.5%)	1,040	1.2%
Abertawe	231,155	197,627	18,208 (9.2%)	179,419 (90.8%)	1,035	0.6%
Castell-nedd Port Talbot	135,278	115,175	14,538 (12.6%)	100,637 (87.4%)	560	0.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	134,545	113,890	7,876 (6.9%)	106,014 (93.1%)	465	0.4%
Bro Morgannwg	122,018	102,504	7,405 (7.2%)	95,099 (92.8%)	465	0.5%
Caerdydd	332,273	283,115	23,610 (8.3%)	259,505 (91.7%)	1,635	0.6%
Rhondda Cynon Taf	225,555	190,116	16,880 (8.9%)	173,236 (91.1%)	890	0.5%
Merthyr Tudful	56,623	47,842	3,035 (6.3%)	44,807 (93.7%)	240	0.5%
Caerffili	171,972	143,825	9,728 (6.8%)	134,097 (93.2%)	725	0.5%
Blaenau Gwent	67,348	57,321	2,193 (3.8%)	55,128 (96.2%)	335	0.6%
Torfaen	87,844	73,833	3,495 (4.7%)	70,338 (95.3%)	445	0.6%
Sir Fynwy	88,609	75,080	3,558 (4.7%)	71,522 (95.3%)	420	0.6%
Casnewydd	139,849	116,348	4,838 (4.2%)	111,510 (95.8%)	355	0.3%
Cymru (dim gwybodaeth sir)					25	
Tu allan i Gymru					615	

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011: Proffil iaith Gymraeg, awdurdodau unedol yng Nghymru Tabl KS208W, LLWR a HESA.

53. Yn anffodus, nid oes modd defnyddio'r data ar hyn o bryd i dracio dysgwyr er mwyn mesur dilyniant o un lefel i'r llall, ac mae hwn yn wendid sylfaenol y mae angen mynd i'r afael ag ef. Gan fod pob lefel yn cymryd dwy flynedd i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ei chwblhau, mae angen tracio o un flwyddyn i'r llall yn ogystal â fesul lefel. O dracio dysgwyr yn effeithiol, byddai modd deall y patrymau o ran y llwybrau y mae dysgwyr yn eu cymryd ynghyd â'r patrymau ymuno a gadael cyrsiau er mwyn gallu marchnata yn y dyfodol. Mae'r Grŵp Adolygu o'r farn bod angen dadansoddi'r patrymau a deall y tueddiadau hyn. Gellir gweld yn Nhabl 3 bod nifer y dysgwyr yn lleihau wrth i'r lefel fynd yn uwch. Er bod hyn i'w ddisgwyl i raddau, golyga y gwneir buddsoddiad helaeth mewn hyfforddi dysgwyr nad ydynt yn cyrraedd rhuglder ac mae dod o hyd i ffyrdd i gadw dysgwyr yn hollbwysig. Fodd bynnag, gellid dadlau bod yr hyfforddiant a gaiff dysgwyr sy'n gadael cyn dod yn rhugl yn bwysig o ran bod sgiliau iaith digonol ganddynt i ddeall rhywfaint o Gymraeg ac i ddefnyddio brawddegau byrion a syml a bod eu hymagwedd tuag at yr iaith yn newid.
54. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais o ran polisi ar ddatblygu Cymraeg i'r Teulu, Cymraeg yn y Gweithle, e-ddysgu a dysgu anffurfiol, ac mae'r maes wedi datblygu cyrsiau, adnoddau a gweithgareddau penodol. Trafodir yr agweddau hyn maes o law.
55. Mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymchwil i'r farchnad dros y pum mlynedd diwethaf er mwyn ceisio adnabod cynulleidfaoedd newydd a deall beth yw anghenion darpar ddysgwyr. Mae'r ymchwil wedi arwain at ddatblygu modelau eraill o ddarpariaeth megis cyrsiau cyfunol, cyrsiau modylol a chysiau bloc. Serch hynny, mae gwaith pellach i'w wneud i ddadansoddi'r farchnad ac yn benodol i ddeall pam nad yw pobl yn mynd ati i ddysgu Cymraeg.
56. I grynhoi, cafodd y Grŵp Adolygu wybod yn y dystiolaeth bod nifer o ddiffygion i'r dulliau casglu a dadansoddi data sydd ar waith i ddeall patrymau a denu dysgwyr newydd. Teimla'r Grŵp fod angen mynd i'r afael â hyn, ac yn benodol bod angen:
- cryfhau ymchwil i'r farchnad;
 - gwella dulliau tracio dysgwyr;
 - cynyddu nifer y dysgwyr ar bob lefel;
 - gwella'r cydbwysedd rhwng merched a dynion ac oedran y rhai sy'n dysgu.

Marchnata

57. Pan sefydlwyd y Canolfannau, datblygodd Llywodraeth Cymru frand cenedlaethol a buddsoddi mewn ymgyrch farchnata genedlaethol a oedd yn cynnwys hysbyseb deledu a thaflenni marchnata. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth tra bod y Canolfannau'n sefydlu eu cynlluniau eu hunain. Mae gwefan genedlaethol gan y Llywodraeth,

sef www.cymraegioedolion.org, sy'n cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am y maes ac yn arwain dysgwyr at wefannau'r Canolfannau unigol.

58. Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw weithgaredd marchnata cenedlaethol yn torri ar draws gwaith marchnata lleol, penderfynwyd mai nod marchnata cenedlaethol oedd codi ymwybyddiaeth ac mai rôl y Canolfannau fyddai targedu darpar ddysgwyr yn lleol trwy siopau, prospectysau, hysbysebion yn y wasg lleol ac ati. Er bod hyn yn ymddangos yn drefniant rhesymol, yn aml iawn gellir rhoi negeseuon cymysglyd i ddarpar ddysgwyr os nad oes cydweithio effeithiol yn digwydd.
59. Caiff tua £250,000 ei wario ar farchnata bob blwyddyn (tua £14 ar gyfer pob dysgwr) gan y chwe Chanolfan ac mae gwariant pellach gan yr is-ddarparwyr. Cafwyd tystiolaeth o'r dulliau a ddefnyddir – hysbysebu, posteri, baneri, prospectws a thaflen ardal, rhwydweithio cymdeithasol, gwefannau a nifer o dechnegau eraill. Cafwyd tystiolaeth hefyd o gyhoeddusrwydd yn y wasg a'r cyfryngau i ddathlu llwyddiant dysgwyr. Defnyddir rhwydweithiau cymdeithasol hefyd i ddod i gysylltiad â darpar ddysgwyr ond nid yw'n glir a oedd hyn yn arwain at ddenu dysgwyr newydd. Fodd bynnag, nid yw pob Canolfan yn mesur llwyddiant yr ymgyrchoedd hyn.
60. Ymddengys nad y gweithgarwch marchnata cenedlaethol na lleol wnaeth ddenu mwyafrif y dysgwyr i ddysgu Cymraeg. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn y grwpiau ffocws wedi gwneud y penderfyniad i ddysgu Cymraeg cyn mynd ati i chwilio am wybodaeth am y ddarpariaeth leol. Yn wir, marchnata oedd un o'r ychydig weithgareddau yn ymwneud â'r maes yr oedd y dysgwyr yn feirniadol ohono yn y grwpiau ffocws, gydag un dysgwr yn nodi ei bod wedi creu ei gwefan ei hun er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth a'r adnoddau. Gellir dod i'r casgliad felly nad yw'r neges yn glir nac yn cyrraedd y darpar ddysgwr. Geiriau un a gyflwynodd dystiolaeth oedd "dyw delwedd y maes ddim yn ysbrydoli, mae'r marchnata yn aneffeithiol". Neges arall gan ddarparwr preifat oedd bod "angen gwerthu manteision dysgu Cymraeg".
61. Nid yw'r marchnata a fu wedi denu ton fawr o ddysgwyr newydd. Mae angen newid ar unwaith felly. Rhaid datblygu brand a delwedd genedlaethol unedig ac, os am gynyddu niferoedd, mae'n bwysig ei fod yn gryf yn Saesneg gan mai pobl ddi-Gymraeg yw'r brif gynulleidfa darged. Mae'n rhaid dileu'r dryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd o ganlyniad i'r wefan genedlaethol gan y Llywodraeth a'r gwefannau eraill gan y Canolfannau, rhai darparwyr a'r Bont (gweler paragraff 120). Dylai bod un wefan genedlaethol ar gyfer yr holl wybodaeth.
62. Bydd angen cynnal ymchwil i'r farchnad er mwyn datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu sy'n seiliedig ar amcanion clir a fyddai'n adlewyrchu dyheadau dysgwyr a darpar ddysgwyr. Byddai angen i strategaeth o'r fath fod yn arloesol ac yn gyfoes gan ddefnyddio dulliau marchnata amrywiol. Byddai angen hefyd sicrhau bod rôl glir i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr presennol o ran bod yn llysgenhadon i

ddenu dysgwyr newydd. Er enghraifft, mae angen ystyried datblygu diwrnod 'Cymraeg i Bawb' lle gall partneriaid gydweithio i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr a siaradwyr dihyder. Mae angen denu dysgwyr newydd drwy gydol y flwyddyn heb fod yn gaeth i flwyddyn academiaidd. Byddai marchnata mwy effeithiol fel rhan o ymgyrch i ddenu dysgwyr yn hwb mawr i'r maes ac yn creu delwedd berthnasol a fyddai'n apelio at ddarpar ddysgwyr.

63. Teimlir yn gryf fod angen gwella'r holl agweddau ar y trefniadau marchnata'n sylweddol (ymchwil, ymgyrchoedd, brand ac ati). Byddai angen i farchnata a chyfathrebu:
- gyrraedd darpar ddysgwyr ledled y byd;
 - sicrhau bod y gwasanaeth yn hawdd i'w gyrchu;
 - defnyddio dulliau technolegol a chyfathrebu arloesol;
 - rhoi delwedd newydd a chyfoes i'r maes;
 - defnyddio data i dargedu grwpiau allweddol fel cyn-ddisgyblion Cymraeg ail iaith, gweithwyr, rhieni, y rheiny sydd wedi colli hyder ayyb;
 - cyd-gynhyrchu drwy ddefnyddio partneriaid a dysgwyr fel llysgenhadon.

Dysgu ac addysgu

64. Yn y rhan hon ystyrir nifer o agweddau sy'n galluogi'r dysgwyr i ddysgu Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm a'r adnoddau, y fethodoleg a dwyster y dysgu. Ystyriwyd y pynciau hyn yn fanwl mewn gwaith ymchwil eang diweddar gan Brifysgol Caerdydd ac mae'r Grŵp Adolygu o'r farn bod angen mynd i'r afael ag argymhellion yr ymchwil hon.

Y Cwricwlwm

65. Ar hyn o bryd, datblygir cwricwlwm Cymraeg i Oedolion gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys comisiynau Llywodraeth Cymru, CBAC, y chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion a rhai o'r is-ddarparwyr. Mae'r holl gyrsiau hyn yn dilyn y fframwaith cenedlaethol o lefelau, sydd wedi eu seilio ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd: Dysgu, addysgu ac asesu (gweler Atodiad 6) a Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru, sef:
- Mynediad (E)
 - Sylfaen (L1)
 - Canolradd (L2)
 - Uwch (L3)
 - Hyfedredd (L4)
66. Rhennir darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn gyffredinol i'r mathau canlynol o gyrsiau:
- cyrsiau dwys (mwy na 3 awr yr wythnos);
 - cyrsiau darnynol (hyd at 2 awr yr wythnos);

- cyrsiau byr (gan gynnwys cyrsiau blasu, cyrsiau adolygu, cyrsiau penwythnos, Sadyrnau Siarad ayyb); a
- chyrsiau preswyl (rhwng 2 ddiwrnod ac 8 wythnos o hyd)

Ceir hefyd gyrsiau wedi'u teilwra'n benodol at ddefnydd o'r iaith yn y gweithle a chyda'r teulu, a thrafodir y rhain yn rhannau nesaf yr adroddiad.

67. Mae llyfrau cwrs penodol ar gael ar gyfer y cyrsiau darnynol (lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd) a gyhoeddwyd gan CBAC, a cheir fersiynau ar gyfer y de a gogledd er mwyn sicrhau bod y dafodiaith berthnasol yn cael ei dysgu i'r dysgwyr. Datblygodd y Canolfannau eu cyrsiau dwys eu hunain, yn seiliedig ar y dull Wlpan. Caiff y cyrsiau eu teilwra'n benodol ar gyfer dysgu patrymau iaith frodorol i'r dysgwyr, a cheir pedwar fersiwn o'r cwrs dwys (de-ddwyrain, de-orllewin, gogledd a'r canolbarth). Mae cyrsiau eraill yn bodoli hefyd yn seiliedig ar fethodolegau dysgu amgen e.e. dadawgrymeg, ac mae Nant Gwrtheyrn wedi datblygu eu cyrsiau eu hunain er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr sydd yn dysgu trwy'r Canolfannau yn ail-wneud yr un cyrsiau pan fyddant yn mynychu cyrsiau preswyl yn y Nant.
68. Codwyd cwestiynau ynghylch pwrpas y lefel Hyfedredd. Ceir amrywiaeth o gyrsiau Hyfedredd ac mae sefydliadau addysg uwch a chyrrff yn y sector breifat hefyd wedi datblygu cyrsiau amrywiol ar y lefel hon. Mae datblygiad diweddar y dystysgrif sgiliau iaith gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn ychwanegu at yr amrywiaeth o gyrsiau a chymwysterau. Bwriad gwreiddiol y lefel Hyfedredd oedd darparu cyrsiau i loywi sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg, ond roedd tystiolaeth bod dysgwyr yn parhau i ddysgu ar y lefel hon gan nad oes ganddynt ddigon o hyder i gamu i'r gymdeithas Gymraeg neu eu bod yn mwynhau diogelwch y dosbarth. Mae lle i gyrsiau gloywi iaith, sy'n canolbwyntio ar sgiliau ysgrifenedig, ond awgrymir bod yr holl gyrsiau sy'n bodoli ar y lefel hon yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol.
69. Trafodwyd hefyd y berthynas rhwng y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion â'r ddarpariaeth Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn yr ysgolion, ac mae'n debyg bod nifer o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion ar lefel Mynediad, er eu bod wedi dysgu Cymraeg yn ystod eu haddysg. Er mwyn osgoi dryswch a chymhlethdod, byddai'n fuddiol adeiladu ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd a'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol er mwyn creu un fframwaith cwricwlwm ar gyfer diffinio a mesur sgiliau iaith Gymraeg. Byddai angen sicrhau bod trafodaeth genedlaethol ar ddiffinio rhuglder fel rhan o'r fframwaith a bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio mewn gwaith polisi a chynllunio ieithyddol.
70. Mae'n bwysig annog pobl sydd wedi dysgu Cymraeg i ddefnyddio a pharhau i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg y tu allan i ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Byddai dilyn cyrsiau sy'n rhan o'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned cyfrwng Cymraeg yn fodd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg arbenigol, cynyddu defnydd o'r iaith a dod â

siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd. Byddai angen datblygu darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned cyfrwng Cymraeg a'i marchnata er mwyn cyflawni hyn.

Adnoddau

71. Comisiynir adnoddau cenedlaethol Cymraeg i Oedolion gan Lywodraeth Cymru yn unol â threfn gomisiynu flynyddol. Mae adnoddau diweddar yn cynnwys y cwrs Cymraeg i'r Teulu; datblygiad y Bont, sef llwyfan e-ddysgu ar gyfer y maes; ac adnoddau digidol i ddysgwyr eu defnyddio i adolygu. Yn ystod yr adolygiad, cafodd aelodau'r grŵp gyfle i weld nifer o'r adnoddau a gomisiynwyd yn genedlaethol, a cheir rhestr o'r rhain yn Atodiad 7.
72. Yn ogystal â'r adnoddau cenedlaethol, mae darparwyr a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn datblygu ac yn teilwra eu hadnoddau eu hunain. Er bod aelodau'r Grŵp yn cydnabod bod angen rhyddid ar bob darparwr a thiwtor i deilwra adnoddau, roeddent yn cytuno bod gormod o ddyblygu adnoddau yn y maes, ac nad oedd digon o ddarparwyr a thiwtoriaid yn rhannu adnoddau. Clywyd bod rhai tiwtoriaid yn teimlo'n rhwystredig iawn am nad oedd adnoddau'n cael eu rhannu'n fwy effeithiol. Ar y llaw arall, clywyd nad oedd rhai tiwtoriaid yn barod i rannu eu hadnoddau oherwydd pryderon ynghylch hawlfraint a hefyd am eu bod yn buddsoddi eu hamser eu hunain i ddatblygu'r adnoddau ac nad oeddent am i diwtoriaid eraill fanteisio ar eu llafur nhw. Mae angen arweiniad clir i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
73. Ar y cyfan, teimlai'r dysgwyr fod yr adnoddau yn cwrdd â'u gofynion. Nododd nifer o ddysgwyr fod diwyg rhai o'r adnoddau yn hen ffasiwn a bod y cynnwys wedi dyddio ac felly ddim yn berthnasol; nodwyd hefyd bod angen mwy o adnoddau ar-lein er mwyn iddynt allu eu defnyddio y tu allan i'r gwersi.

Methodoleg a chysiau dwys

74. Ac eithrio'r cysiau sy'n seiliedig ar y dull dadawgrymeg a'r cysiau cyfunol, prin iawn yw'r arbrofi gyda methodolegau dysgu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai tiwtoriaid ac awduron wedi cyflwyno elfennau newydd, ond ar y cyfan, mae'r dull o ddysgu Cymraeg i Oedolion wedi aros yn weddol draddodiadol. Cyn comisiynu unrhyw lyfrau cwrs cenedlaethol newydd, penderfynodd y Llywodraeth gomisiynu gwaith ymchwil, trwy Brifysgol Caerdydd, i ystyried sut gellid gwella addysg Cymraeg i Oedolion. Mae hwn yn waith ymchwil pwysig a sylweddol sy'n edrych ar y cwricwlwm, y methodolegau addysgu, strwythur y cysiau ac elfennau perthnasol eraill megis asesu ar gyfer y dyfodol. Mae canfyddiadau'r ymchwil hon yn ystyriaeth hollbwysig i'r adolygiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i'w hystyried ymhellach fel sail gadarn ar gyfer datblygu'r maes yn y dyfodol.
75. Mae'r Grŵp Adolygu'n credu'n gryf bod angen bwrw ati i wireddu argymhellion Prifysgol Caerdydd ar gyfer maes Cymraeg i Oedolion.

Mae'r argymhellion hynny yn cynnwys rhai newidiadau pell-gyrhaeddol, er enghraifft, comisiynu un cwrs cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i Oedolion; creu corpws geirfa Cymraeg yn seiliedig ar Gymraeg llafar cyfoes; a chreu cyswllt mwy pendant rhwng gweithgareddau dysgu lled-ffurfiol a'r cwricwlwm Cymraeg i Oedolion.

76. Argymhelliad arall y gwaith ymchwil yw y dylid ail-edrych ar nifer yr oriau angenrheidiol ar gyfer cyflawni pob lefel a chynyddu dwyster y cyrsiau. Clywodd y Grŵp Adolygu y neges hon gan nifer o randdeiliaid eraill, ac mae'r Grŵp yn cytuno bod angen ystyried modelau newydd ar gyfer darparu cyrsiau dwys, ac y dylai darparwyr Cymraeg i Oedolion wneud hyn fel blaenoriaeth.
77. Mae'r Canolfannau'n darparu amrywiaeth o gyrsiau dwys mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn gyffredinol, cyrsiau sy'n cynnig cyfanswm o 120 -180 o oriau y flwyddyn yw'r rhain. Mewn rhai mannau cefnogir y dysgu gan amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol. Diau fod y ddarpariaeth hon wedi cynorthwyo amryw o ddysgwyr i ddatblygu sgiliau iaith sy'n ddigonol i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith ar unrhyw lefel.
78. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ddwys bresennol yn ddigonol i sicrhau bod cynnydd yn y niferoedd sy'n dod yn siaradwyr hyderus. Mae angen cynnydd sylweddol yn yr oriau dysgu a chyswllt y dysgwr â'r iaith. Nodir yr angen am oriau digonol ar gyfer dysgu iaith yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop. Yng Ngwlad y Basg , er enghraifft, derbynnir bod angen hyd at 1500 o oriau er mwyn meistrolï'r iaith. Mae cynllun ESOL Prifysgol Caergrawnt yn dweud bod angen tua 1000-1200 o oriau i gyrraedd rhuglder. Mae'n siŵr bod gwersi i'w dysgu o ystyried cynlluniau fel hyn.
79. Byddai'n briodol felly i ystyried sut y gellir datblygu cyrsiau dwys, hwy a gwahanol a fydd yn rhoi i'r dysgwr set gyflawn o sgiliau iaith a chyfleoedd i ddatblygu a defnyddio'r sgiliau hynny. Mae'n bwysig bod y cyrsiau, yn ogystal â'r dysgu ffurfiol, yn cynnwys cyfleoedd lled-ffurfiol ac anffurfiol, cyswllt ar-lein a chefnogaeth wedyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Gallai'r cyrsiau dwys fod yn gyfuniad o'r canlynol: cwrs yn cynnwys tua 6 awr o ddysgu yr wythnos am gyfnod penodol, bloc o 2-3 diwrnod, penwythnos, cwrs preswyl (1-2 wythnos, ee ysgol haf), *bootcamps*, rhaglen o weithgareddau lled-ffurfiol ac anffurfiol, cyswllt ar-lein a chyfleoedd personol i fynd allan at siaradwyr Cymraeg yn y gymuned. Byddai angen peilotu modelau gwahanol i weld beth sy'n gweithio a sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion dysgwyr (o ran amser, gwaith, cyfleustra ayyb).
80. Clywyd canmolïaeth gan ddysgwyr am y cyrsiau cyfunol ac am rai o'r adnoddau sydd ar gael, ond ar y cyfan mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu:
 - fframwaith cwricwlwm sgiliau iaith Gymraeg i fod yn sail i ddatblygu adnoddau a chyrïau;
 - adnoddau newydd sy'n gyfoes ac yn ddeniadol; a

- modelau darparu sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, yn cynnig hyblygrwydd, yn cynyddu dwyster ac sy'n galluogi dysgwyr a darpar ddysgwyr i gyfuno'u dysgu â realiti bywyd bob dydd.

Cymraeg yn y Gweithle

81. Mae creu peuoedd newydd ar gyfer y Gymraeg yn fodd o gynnal a datblygu sgiliau llawer o siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio. Mae hefyd yn fodd o normaleiddio defnydd iaith ac yn ddull effeithiol o hyrwyddo'r Gymraeg i ddarparu ddysgwyr. Mae defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddull allweddol o wneud hyn. Bydd y gofynion am wasanaethau Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cryfhau wrth i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gael ei weithredu. Dylai'r Mesur hefyd arwain at godi statws y Gymraeg.
82. Mae nifer y sefydliadau cyhoeddus a nifer y cyflogwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg yn y Gweithle wedi cynyddu dros y degawdau diweddar. Digwyddodd hyn i raddau helaeth oherwydd gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r angen i sefydliadau cyhoeddus lunio a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.
83. Mae chwilio am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith fewnol yn y gweithle ac fel iaith ar gyfer darparu gwasanaethau, a bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi mwy o werth i addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion. Mae codi lefel sgiliau Cymraeg gweithwyr presennol hefyd yn rhan annatod o'r broses. Mae gweithleoedd wedi arfer â datblygu sgiliau eu staff ac mae angen i sefydliadau a busnesau weld y Gymraeg fel sgîl pwysig ochr yn ochr â sgiliau galwedigaethol eraill yn y Gymru fodern. Mae angen normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r gefnogaeth y mae'r gweithle yn ei rhoi i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
84. Daeth yr amser felly i roi mwy o sylw i Gymraeg yn y Gweithle. Mae pob Canolfan Cymraeg i Oedolion yn darparu rhywfaint o hyfforddiant mewn gweithleoedd lleol, a cheir enghreifftiau o rai is-ddarparwyr yn cydweithio'n effeithiol â gweithleoedd. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na welodd y Grŵp Adolygu bartneriaethau strategol gwirioneddol rhwng y Canolfannau Cymraeg i Oedolion a chyflogwyr. Gwneir ymdrech i farchnata i weithleoedd, a hynny yn y sector cyhoeddus yn bennaf, a theilwra cyrsiau sydd wedi'u cynllunio'n arbennig i ddiwallu eu hanghenion. Dengys Tabl 7 nifer y gweithleoedd sy'n derbyn hyfforddiant iaith drwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion neu eu his-ddarparwyr, a nifer y dysgwyr ar y cyrsiau hyn. Weithiau, mae'r Canolfannau hefyd yn cynnal cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle generig o fewn gweithleoedd sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd. Oherwydd bod y Canolfannau Cymraeg i Oedolion neu'r is-ddarparwyr yn cael eu talu gan weithleoedd i ddatblygu cyrsiau wedi'u teilwra, mae tipyn o

ddyblygu'n digwydd yn y maes hwn. Mae'n bwysig nodi hefyd bod canran uchel o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn gweithio, ond nid yw'r dysgwyr yma wedi'u cyfri yn y ffigurau yn Nhabl 7.

Tabl 7: Nifer y dysgwyr ar gyrsiau Cymraeg yn y Gweithle – 2011-2012

Canolfan	Nifer y gweithleoedd	Nifer y dysgwyr
Caerdydd a Bro Morgannwg	38	527
Canolbarth	46	280
De-orllewin	24	357
Gogledd	54	522
Gwent	41	692
Morgannwg	19	319
CYMRU	222	2,697

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

85. Er mwyn deall barn gweithleoedd ar ddarpariaeth Cymraeg yn y Gweithle, creodd y Grŵp Adolygu holiadur ar-lein a arweiniodd at 105 o ymatebion gan gyflogwyr (ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 9). Dengys yr ymatebion nad yw sefydliadau bob amser yn deall y gwasanaethau sydd ar gael trwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn llawn ac nad ydynt yn deall strwythur presennol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Dengys hefyd mai gweithwyr sy'n dangos diddordeb mewn dysgu Cymraeg yw nifer fawr o'r dysgwyr Cymraeg yn y Gweithle yn hytrach na rhai sydd wedi cael eu dewis yn strategol oherwydd natur eu swyddi neu ystyriaethau tebyg. Gwersi darnynol o un neu ddwy awr yr wythnos ar gyfartaledd sy'n cael eu cynnal yn y mwyafrif o sefydliadau
86. Yn ôl yr ymatebion i'r holiadur, y her fwyaf sy'n wynebu'r sefydliadau nad ydynt yn cynnal hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle yw'r ffaith nad oes ganddynt ddigon o weithwyr ar yr un lefel yn yr un lleoliad i greu dosbarth, ac mae'n amlwg na fu cydweithio strategol rhwng sefydliadau a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i ddatrys hyn. Mae anghenion dysgwyr yn y gymuned ac ar gyrsiau Cymraeg i'r Teulu wedi'u hadnabod a'r ddarpariaeth wedi'i mapio, ond ymddengys nad yw hyn wedi digwydd i'r un graddau gyda'r gweithle. Y duedd yw cynnal cyrsiau yng ngweithle sefydliadau unigol. Gellid arbed arian ac osgoi dyblygu drwy sefydlu cyrsiau generig ar gyfer sefydliadau mewn ardal benodol.
87. Mae rhai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn gosod safonau uchel iawn mewn perthynas â Chymraeg yn y gweithle. Ceir arweiniad clir a pholisïau cadarn gan y sefydliadau a chyfeirir adnoddau penodol i'r perwyl hwn. Maent hefyd yn arloesi o ran y gefnogaeth a roddir i staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd. Mae gwaith rhai o'r cyflogwyr hyn wedi'i gydnabod ar ôl iddynt ennill gwobrau cenedlaethol, ond mae angen rhannu'r arfer da hwn â chyflogwyr ar draws Cymru. Mae'r gwerthoedd a'r nodweddion a welir pan fo hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle yn llwyddiannus yn cynnwys:

- arweinyddiaeth glir a chadarn;
- strategaeth glir ar gyfer datblygu sgiliau iaith eu cyflogwyr;
- buddsoddi mewn staff i reoli a chydlynw'r hyfforddiant;
- adnoddau a chyllid digonol ar gyfer y gwaith;
- dealltwriaeth o rôl a gwerth y Gymraeg mewn perthynas â rôl y busnes neu'r gwasanaeth;
- nodau ac amcanion clir ar gyfer y dysgu;
- caiff dysgwyr eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo am eu cynnydd;
- caiff dysgwyr eu cefnogi drwy gynlluniau mentora a chyfleoedd i ceir ymarfer â siaradwyr Cymraeg;
- cydweithio â ddarparwyr hyfforddiant i deilwra'r cyrsiau at ddibenion y gweithle; a hefyd
- caiff y ddarpariaeth ei harfarnu a'i monitro gan fesur cynnydd.

Byddai'n briodol i gyflogwyr fesur eu hunain yn erbyn y 10 nodwedd uchod.

88. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu model o arfer da'r ddarpariaeth Cymraeg yn y Gweithle drwy'r Cynllun Sabothol ar gyfer ymarferwyr addysg. Sefydlwyd y Cynllun yn 2005 i gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg a methodoleg dysgu iaith i ymarferwyr yn y sector ysgolion a cholegau addysg bellach ar lefel Uwch, er mwyn eu galluogi i gynnig mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu sefydliadau. Erbyn hyn cynigir cyrsiau ar lefelau Mynediad, Sylfaen ac Uwch wedi'u targedu at wahanol rannau o'r gweithlu addysg. Mae'r cyrsiau'n cynnig hyfforddiant dwys o gyfnodau hyd at dri mis. Mae'r Llywodraeth yn talu costau cyflenwi er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i ryddhau'r ymarferwyr, ac yn talu costau teithio i'r ymarferwyr. Mae'r Cynllun hwn wedi bod yn llwyddiant ac yn fodel y dylid ei efelychu.
89. Mae angen i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion ddeall anghenion cyflogwyr a chynnal perthynas ragweithiol a strategol gyda nhw. Mae'r Canolfannau, ar y cyfan, wedi disgwyl i'r cyflogwyr ddod atyn nhw. Ni chafwyd gwasanaeth cwsmer hyblyg, ee er mwyn darparu ar gyfer staff sy'n gweithio shifftiau amrywiol, yn hytrach na'r dull traddodiadol o gynnal cyrsiau am ddwy awr yr wythnos am 30 wythnos y flwyddyn. Mae nifer o weithleoedd wedi arbrofi'n llwyddiannus gyda chynnal cyrsiau diwrnod neu sawl diwrnod mewn bloc sy'n hwyluso argaeledd staff a'r cyfle i ganolbwyntio ar y dysgu am gyfnod di-dor a dwys. Nid yw'r Canolfannau chwaith wedi sefydlu trefn lle gall cyflogwyr sy'n cyflogi staff ledled Cymru drafod eu hanghenion hyfforddiant iaith ar gyfer eu gweithle gydag un Ganolfan, a fyddai wedyn yn gallu sefydlu trefniadau gyda'r Canolfannau eraill i ddarparu hyfforddiant ar lefel genedlaethol.
90. Mae angen i gyflogwyr ddeall beth yw deilliannau ieithyddol unrhyw gyrsiau a ddarperir er mwyn gwybod pa lefel o iaith fydd gan y gweithwyr ar ôl cwblhau cyrsiau. Byddai datblygu un fframwaith cwricwlwm ar gyfer diffinio a mesur sgiliau iaith Gymraeg, fel y disgrifir ym mharagraff 69, yn golygu bod modd dangos yn glir i gyflogwyr beth

yw deilliannau disgwylidig gwahanol fathau o hyfforddiant iaith. Ar ôl datblygu'r fframwaith, byddai hefyd angen adeiladu ar y Dangosydd Rheoli Cymraeg yn y Gweithle⁶, sydd wedi'i gynllunio i adnabod sgiliau iaith gweithwyr a galluogi cyflogwyr i gynllunio'u rhaglenni hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle yn effeithiol.

91. Bydd angen i faes Cymraeg i Oedolion sicrhau mewnbwn i ddatblygiad y safonau iaith arfaethedig, a fydd yn cael eu sefydlu o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, er mwyn sicrhau bod darparu cyrsiau Cymraeg yn y gweithle yn rhan greiddiol o gynlluniau cyflogwyr i gefnogi'r Gymraeg. Ystyriwyd sefyllfa Gwlad y Basg lle ceir fformiwla yn nodi isafswm canran y gweithlu ym mhob sefydliad cyhoeddus sydd i fod â sgiliau Basgeg, a dylanwad hynny ar nifer dysgwyr y Fasgeg a dwyster y dysgu. Petai model o'r fath yn bodoli yng Nghymru, byddai'n hwb mawr i'r Gymraeg, ac yn rhoi rôl newydd i'r maes Cymraeg i Oedolion.
92. Mae diffyg strategol o fewn Llywodraeth Cymru o ran datblygu Cymraeg yn y Gweithle, nid yn unig o ran ei gweithwyr ei hunan, ond o ran sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle yn chwarae rhan flaengar wrth gefnogi strategaethau pwysig y Llywodraeth fel Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol⁷. Trafodir yn y strategaeth honno yr angen am sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r sector hwnnw heb gyfeirio at y maes Cymraeg i Oedolion.
93. Mae angen i'r maes gefnogi a thargedu rhai sectorau blaenoriaeth eraill, er enghraifft:
 - Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU;
 - llywodraeth leol;
 - addysg a'r blynyddoedd cynnar;
 - iechyd a gofal;
 - y gwasanaethau brys;
 - busnesau'r stryd fawr a busnesau lleol;
 - y cyfryngau a'r cyfryngau creadigol; a
 - thwristiaeth a lletygarwch.
94. Mae angen strategaeth hyfforddiant iaith ar gyfer y gweithle sy'n hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ymhlith cyflogwyr er mwyn iddynt ddeall bod angen datblygu sgiliau iaith fel rhan o'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu. Mae cyfrifoldeb ar gyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil. Gallai brandio Cymraeg yn y Gweithle fel a wneir â chysiau proffesiynol eraill megis *Prince 2* fod o gymorth, yn ogystal â darparu arweiniad, cymorth ymarferol a chanllawiau fel y Canllawiau Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle⁸. Mae'r canllawiau'n egluro'r pwysigrwydd i weithleoedd ddatblygu strategaeth ac amcanion

⁶ www.cymraegyngweithle.org.uk

⁷ <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

⁸

<http://www.cymraegyngweithle.org.uk/cy/~media/Files/Canllawiau%20ar%20gyfer%20trefnu%20hyfforddiant%20iaith%20Gymraeg%20yn%20y%20gweithle.pdf>

clir ar gyfer darparu cyrsiau Cymraeg yn y gweithle. Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth o ddefnydd helaeth o'r rhain yn y blynyddoedd diwethaf.

95. Mae'r Grŵp Adolygu yn credu'n gryf bod angen sefydlu strategaeth Cymraeg i'r Gweithle ar gyfer y dyfodol i sicrhau'r canlynol:

- darpariaeth addas;
- osgoi dyblygu, hybu cydweithio a rhannu arfer da;
- cwricwlwm a llyfrau cwrs o safon sy'n gallu cael eu teilwra i anghenion penodol y cyflogwyr;
- modelau hyblyg a dwys o gyflwyno'r hyfforddiant;
- adnoddau atodol, cyfleoedd e-ddysgu a chynlluniau mentora er mwyn datblygu gallu a hyder staff i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- dulliau perthnasol o gydnabod cyrhaeddiad a chyflawniad y staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gweithle;
- gwerth am arian i'r sefydliad ac yn strategol o ystyried na all yr aelod o staff weithio wrth fynychu cwrs.

Sylweddolir bod datblygu a darparu Cymraeg yn y Gweithle yn waith heriol ond rhaid pwysleisio bod cyfle pwysig yma a bod angen ymateb yn llawn i'r her.

Cymraeg i'r Teulu

96. Gyda thwf mewn addysg Gymraeg a'r ffaith bod y gallu i ddefnyddio'r iaith gyda theulu yn gymhellant cryf i ddysgu Cymraeg, gwelodd y maes Cymraeg i Oedolion fod angen targedu rhieni ac aelodau eraill o'r teulu a'u denu i ddysgu Cymraeg. Nid yw'n syndod felly bod datblygu darpariaeth Cymraeg i'r Teulu yn un o lwyddiannau'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Cymraeg i'r Teulu yn frand sydd ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth amrywiol sydd wedi'i thargedu'n bennaf at deuluoedd plant hyd at 7 oed. Mae'r cyrsiau wedi'u teilwra'n benodol er mwyn sicrhau bod rhieni a'r teulu yn dysgu'r un eirfa a phatrymau iaith â'u plant.

97. Mae swyddogion Cymraeg i'r Teulu y Canolfannau a swyddogion o sefydliadau megis Twf, Mudiad Meithrin a'r Urdd yn cwrdd fel rhan o'r Gweithgor Cymraeg i'r Teulu cenedlaethol o dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg. Mae'r Gweithgor wedi cael cryn dipyn o lwyddiant wrth gydweithio dros y blynyddoedd, a chytunwyd ar Gynllun Cymraeg i'r Teulu cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2011-14. Mae'r Cynllun yn ceisio datblygu cwricwlwm, darpariaeth, adnoddau, e-ddysgu a dysgu anffurfiol ac yn ystyried materion fel yr angen i drefnu cyrsiau mewn lleoliadau ac ar amseroedd hwylus, ee ar yr un pryd ac yn yr un adeilad â Chylchoedd Meithrin. Ystyrir hefyd yr angen i greu darpariaeth ar gyfer rhieni plant Blwyddyn 6 er mwyn eu galluogi i helpu eu plant gyda'u gwaith cartref.

98. Datblygwyd a lansiwyd sesiynau *Cymraeg o'r Crud* ar y cyd â Twf yn 2010. Sesiynau yn arbennig ar gyfer rhieni newydd a'u babanod yw'r rhain. Yn ogystal, datblygwyd a lansiwyd cwrs lefel Mynediad Cymraeg i'r Teulu yn 2012 sydd wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd hwyliog gyda'u plant o'r dechrau. Er ei fod yn wahanol iawn i'r cwrs Mynediad arferol, mae hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod y dysgwyr wedi dysgu yr holl ramadeg sydd ei angen er mwyn gallu symud ymlaen yn gyfforddus i'r lefel Sylfaen fel rhan o'r brif ddarpariaeth gymunedol.
99. Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth Cymraeg i'r Teulu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhai ysgolion cyfrwng Saesneg i ddarparu cyrsiau ar wahanol lefelau yn yr ysgol. Ceir enghreifftiau o arfer da lle mae'r ysgol yn trefnu gofal plant am ddim yn ystod amseroedd y gwersi a lle ceir llyfrgell o adnoddau Cymraeg i deuluoedd yr ysgol. Roedd y Grŵp Adolygu o'r farn bod cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ar lefel awdurdod lleol drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion hefyd yn cydweithio ag arweinyddion Cylchoedd Meithrin, grwpiau Ti a Fi a Twf i ddenu rhieni newydd. Yn ogystal â'r cyrsiau, mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi trefnu penwythnosau Cymraeg i'r Teulu llwyddiannus mewn cydweithrediad â'r Urdd er mwyn creu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'u Cymraeg gyda'i gilydd gyda chefnogaeth tiwtoriaid. Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd cystadleuaeth Cymraeg i'r Teulu yn Eisteddfod yr Urdd sy'n gam tuag at godi proffil a dathlu llwyddiannau teuluoedd sy'n newid iaith yr aelwyd i'r Gymraeg..
100. Dengys Tabl 8 nifer y cyrsiau Cymraeg i'r Teulu a ddarperir gan y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ynghyd â nifer y dysgwyr ar y cyrsiau hynny. Cymharol fach yw'r niferoedd ar gyrsiau Cymraeg i'r Teulu ar hyn o bryd ond nid yw wedi cyrraedd ei lawn botensial eto. Mae'r cwrs Mynediad Cymraeg i'r Teulu yn un newydd, ond denodd ddysgwyr drwy Gymru yn syth. Gobeithir y bydd y maes yn dysgu o lwyddiant cwrs penodol cenedlaethol a chydweithio'n agos â phartneriaid allweddol wrth ystyried y ffordd ymlaen o ran Cymraeg yn y Gweithle.
101. Roedd nifer o'r dysgwyr y cyfarfu'r Grŵp Adolygu â hwy yn dilyn cyrsiau Cymraeg i'r Teulu am fod eu plant neu eu hwyrion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd y dysgwyr yn croesawu datblygiad y cyrsiau a'r adnoddau newydd ac yn benodol y ffaith bod y cyrsiau yn rhoi digon o iaith iddynt bob wythnos i'w defnyddio ac ymarfer gyda'u teuluoedd. Gwelai'r dysgwyr gyfle i adeiladu ar y math yma o ddarpariaeth.

Tabl 8: Nifer cyrsiau a dysgwyr Cymraeg i'r Teulu 2012-13

Canolfan	Nifer ycyrsiau blasu i'r teulu	Nifer y cyrsiau Cymraeg i'r Teulu – Mynediad	Nifer dysgwyr Cymraeg i'r Teulu
Caerdydd a Bro Morgannwg	7	16	170
Canolbarth	67	15	314
De-orllewin	12	14	226
Gogledd	47	42	307
Gwent	20	12	400
Morgannwg	4	13	151
CYMRU	157	112	1568

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

102. Mae Cymraeg i'r Teulu yn strategol bwysig er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant a sicrhau nad iaith ysgol yn unig yw'r Gymraeg i nifer o blant, ac ysbrydolwyd y Grŵp Adolygu gan y datblygiadau hyn. Mae angen datblygu'r ddarpariaeth ymhellach a chydweithio gyda mwy o bartneriaid ac ysgolion, rhannu arferion da, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn hwylus i rieni. Yn ogystal, mae angen i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymraeg i'r Teulu yn rhan o gynlluniau a pholisïau ehangach yn ymwneud â phlant a theuluoedd a dysgu teuluol.

Cymwysterau, achredu ac asesu

103. Mae dau gorff dyfarnu yn gweithredu ym maes Cymraeg i Oedolion; CBAC ac Agored Cymru. Mae'r ddau gorff yn cynnig credydau i gyd-fynd â'r cwricwlwm, ond dim ond CBAC sydd yn cynnig arholiadau/cymwysterau penodol, sef cyfres o gymwysterau ar bum lefel o'r enw '*Defnyddio'r Gymraeg*'. Mae'r gyfres yn gyfle i ddysgwyr ddangos eu gallu yn y Gymraeg wrth siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu ar wahanol lefelau.
104. Yn ystod y broses o dderbyn gwybodaeth a thystiolaeth daeth yn amlwg fod tiwtoriaid, dysgwyr ac eraill yn amheus ynghylch gwerth ychwanegol achredu drwy gynlluniau asesu parhaus. Dyma rai o'r rhesymau a nodwyd:
- bod nifer helaeth o ddysgwyr nad ydynt yn dymuno cael credydau na'u hasesu'n ffurfiol o ran hynny; mae gallu siarad Cymraeg yn bwysicach na chael tystysgrif neu gredydau;
 - gall fod yn rhwystr diangen i ddysgwyr;
 - mae'n anodd sicrhau cysondeb yn yr asesu ar draws sefydliadau / canolfannau, gan mai tiwtoriaid sy'n bennaf gyfrifol am asesu. (Soniwyd hefyd y gallai fod gwahaniaethau yn y safonau a osodir gan CBAC ac Agored Cymru);

- mae'r asesu'n dameidiog (yn seiliedig ar dasgau unigol);
 - mae achredu ffurfiol yn creu "llawer o waith ychwanegol" i'r tiwtor (yn arbennig y tiwtoriaid sesiynol sydd, mae'n debyg, ond yn cael eu talu am yr amser a dreuliant yn y dosbarth). Gall fynd ag amser a sylw tiwtor oddi wrth faterion pwysig eraill fel paratoi gwersi, datblygu adnoddau a chefnogi dysgwyr.
105. Cafwyd tystiolaeth nad yw dysgwyr, am amryfal resymau, yn dymuno cael eu hasesu, ond mae lle i gredu bod gwerth i arholiadau CBAC:
- mae'r arholiadau hyn yn ddewisol;
 - maent yn rhoi nod i'r dysgwyr anelu ato;
 - mae dysgwyr sy'n llwyddo yn yr arholiadau yn fwy tebygol o ddal ati i weithio drwy'r lefelau;
 - mae'r arholiad yn rhoi carreg filltir ystyrlon i'r dysgwr;
 - mae llwyddo yn yr arholiad yn arwydd o gyflawniad a'r cymhwyster yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'r cyflawniad/llwyddiant; ac
 - mae'r arholiadau o help i gael gwaith mewn rhai meysydd penodol – gwasanaeth i gwsmeriaid, gofal, addysg blynyddoedd cynnar, addysg a hyfforddiant.
106. Mae tua 1,800 o ddysgwyr yn sefyll arholiadau CBAC yn flynyddol ac mae'r gyfundrefn yn costio tua £300k i'w rhedeg bob blwyddyn. Cydnabu'r Grŵp Adolygu werth yr arholiadau, ond roeddent yn cwestiynu gwerth am arian y gyfundrefn. Trafodwyd a oedd y cymhwyster ar lefel Hyfedredd yn addas, a hefyd a oedd angen arholiad ar bob lefel neu a fyddai un neu ddau o arholiadau yn ddigon er mwyn gallu cydnabod bod dysgwr wedi cyrraedd lefel o ruglder. Cymharwyd y sefyllfa ag un Gwlad y Basg lle ceir un arholiad, rhoddir gwerth uchel iawn i'r arholiad, ad-delir gwariant y dysgwr ar ddysgu Basgeg ar ôl iddo basio'r arholiad a cheir galw am y cymhwyster ar gyfer nifer fawr o swyddi, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Cytunwyd bod angen gwneud gwaith pellach i ystyried gwerth am arian yr arholiadau dros gyfnod o amser ac i ystyried sefydlu un arholiad cenedlaethol a fyddai'n gosod marc safon ar gyfer dysgwyr.
107. Cyfres o unedau gwaith i achredu dysgu mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yw'r credydau. Fe'u datblygwyd er mwyn rhoi strwythur i'r asesu anffurfiol sy'n digwydd mewn dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae nifer o gredydau wedi'u cysylltu â phob uned. Ar gyfer pob 1 credyd gwneir 10 awr o ddysgu, sy'n cynnwys o leiaf 5 awr o ddysgu ffurfiol yn y dosbarth, yn ogystal â gwaith annibynnol, adolygu ac yn y blaen. Mae pwyslais ar siarad a sgwrsio yn y rhan fwyaf o'r unedau.
108. Ystyrir bod y llwybrau credyd yn:
- gyfrwng i gydnabod dysgu llwyddiannus fesul cam bach;
 - cydnabod beth y cyflawnodd y dysgwyr fesul cam wrth ddysgu'r Gymraeg, ac
 - yn rhoi cerrig milltir i anelu atynt.

109. Ar ddiwedd pob uned mae tasg neu dasgau tebyg i'r hyn a welir yn y llyfrau cwrs. Bydd y tiwtor yn gwirio bod y dysgwr yn gallu cyflawni gofynion yr uned ac yn dyfarnu credyd(au) i gydnabod y gwaith dysgu. Disgwylir i'r tiwtor gadw cofnodion manwl o'r hyn mae'r dysgwr wedi'i gyflawni. Mae CBAC ac Agored Cymru wedi sefydlu gweithdrefnau ansawdd i'w dilyn gan y canolfannau.
110. Roedd y rhan helaeth o'r darparwyr a'r tiwtoriaid yn gytûn y byddai trefn gyson o 'asesu ar gyfer dysgu' yn fwy defnyddiol ac ystyrlon i'r dysgwr. Gallai'r asesu ar gyfer dysgu fod yn sail i gynllun dysgu unigol ar gyfer y dysgwr a byddai'r dysgwr a'r tiwtor yn elwa ar hynny. Roedd y Grŵp Adolygu yn cytuno â'r farn hon, ac yn cydnabod y byddai trefn mwy ystyrlon o fesur cynnydd yn fwy defnyddiol i'r dysgwyr. Roedd y Grŵp Adolygu hefyd yn gweld gwerth yr arholiadau, ond yn cydnabod bod angen adolygu'r arholiadau i sicrhau gwerth am arian.
111. I gloi, mae'r Grŵp Adolygu yn gweld gwerth yr arholiadau, ond yn cydnabod bod angen adolygu'r arholiadau i sicrhau gwerth am arian a datblygu trefn genedlaethol o asesu ar gyfer dysgu.

Ansawdd

112. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r holl ddarparwyr wedi cymryd camau breision i wella ansawdd y maes drwy roi pwyslais ar gymwysterau a hyfforddiant i staff a hefyd drwy osod trefniadau a systemau yn eu lle i fesur perfformiad a hunanasesu. Nodwyd y datblygiadau hyn fel arfer da:
- y broses o arsylwi tiwtoriaid gan y darparwyr ac yna gweithredu ar eu hanghenion hyfforddi a datblygu;
 - y drefn o roi cefnogaeth fentora i diwtoriaid newydd;
 - gwrando ar farn a phrofiad dysgwyr drwy holiaduron a grwpiau trafod o dan faner ansawdd Llais y Dysgwr;
 - cynhyrchu adroddiad hunanasesu a chynlluniau datblygu ansawdd blynyddol gan ddefnyddio'r rhain yn lleol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru'n flynyddol; a
 - dadansoddi data cwblhau, cyrhaeddiad a dilyniant a gweithredu ar y canfyddiadau.

I gefnogi'r gwaith hwn mae gan y Canolfannau bwyllgorau ansawdd lleol, a cheir gweithgor ansawdd cenedlaethol sy'n rhannu arfer da ac yn trafod datblygiadau. Yn eu tystiolaeth, roedd y tiwtoriaid yn gweld gwerth mawr i'r ymdrechion hyn i wella ansawdd.

113. Estyn yw'r corff annibynnol sy'n arolygu'r ddarpariaeth gan edrych ar waith Canolfan benodol a'r is-ddarparwyr perthnasol. Ers i'r cylch arolygu newydd ddechrau ym Mai 2010 mae dwy Ganolfan wedi'u harolygu. Mae Estyn yn graddio tri chwestiwn allweddol mewn perthynas â'r ddarpariaeth. Y farn a roddir yw rhagorol, da, digonol neu anfodddhaol. Maent hefyd yn crynhoi eu sylwadau ac yn graddio dwy agwedd - perfformiad presennol y darparwr a rhagolygon gwell.

114. Ym Mawrth 2011 cafodd Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru farn 'digonol' (mae'r cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella) ar gyfer y ddwy agwedd a nodir uchod. Yna, yn Nhachwedd 2011, cafodd Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru farn 'rhagorol' (llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol ac arfer sy'n arwain y sector) yn y ddwy wedd. Yn ystod Hydref 2012, aeth Estyn yn ôl i Ganolfan Rhanbarthol Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru a dod i'r casgliad eu bod "wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mawrth 2011". Yn ystod yr adolygiad hwn, arolygwyd darpariaeth Cymraeg i Oedolion Morgannwg gan Estyn a bydd y casgliadau'n cael eu cyhoeddi ddechrau Gorffennaf 2013.
115. Gyda thraean y ddarpariaeth wedi ei harolygu gan Estyn yn y ddwy flynedd ddiwethaf fel rhan o'r cylch newydd, yr unig gasgliad y gellir dod iddo yw bod y ddarpariaeth yn anwastad o ran ei hansawdd a bod amrywiaeth mewn dwy ran o Gymru. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw arfer da yn cael ei ledaenu a'i weithredu?
116. Roedd dysgwyr yn uchel eu canmolïaeth o ansawdd y dysgu a brwdfrydedd a chefnogaeth y tiwtoriaid. Er eu bod yn canmol yr adnoddau ar y cyfan, roedd rhai dysgwyr yn fwy beirniadol ohonynt. Cafwyd hefyd ganmolïaeth, gydag un eithriad, i lefel y cynllunio, y gefnogaeth a'r cyfathrebu rhwng y Canolfannau â'r is-ddarparwyr. O ran y dysgu, yr adnoddau, y gefnogaeth a'r cyfathrebu, mae'r Grŵp Adolygu wedi gweld a chlywed am ddatblygiadau positif iawn ar y cyfan a dichon y bydd y datblygiadau ansawdd yn cael eu hymestyn ymhellach dros amser.
117. Fodd bynnag, yn arolwg Llais y Dysgwr 2013 canfuwyd bod 88% o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion wedi disgrifio eu darparwr yn gyffredinol fel 'da iawn' neu 'da'. Fodd bynnag, gwelwyd bod gwahaniaeth barn rhwng dysgwyr gwahanol Ganolfannau, gyda 94% o ddysgwyr mewn un Ganolfan yn disgrifio eu darparwr fel 'da iawn' neu 'da' tra bod 79% o ddysgwyr mewn Canolfan arall yn nodi'r un disgrifiad ar gyfer eu darparwr hwy. Mae'r gwahaniaeth mewn ansawdd rhwng Canolfannau yn fwy amlwg wrth ystyried yn benodol y ganran a ddisgrifiodd eu darparwr fel 'da iawn'. Gwnaeth 67% o ddysgwyr un Canolfan nodi'r disgrifiad hwnnw, ond dim ond 37% o ddysgwyr mewn Canolfan arall.

E-ddysgu

118. Rydym bellach mewn oes ddigidol ac mae cyfle i'r maes Cymraeg i Oedolion gyrraedd mwy o bobl lle bynnag y bônt. Mae e-ddysgu yn disgrifio amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys:
- defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol yn y dosbarth
 - cyrsiau cyfunol yn y dosbarth ac ar-lein
 - adnoddau a gweithgareddau dysgu ar-lein
 - dysgu anffurfiol wrth ddarlennu neu siarad Cymraeg ar-lein
 - defnyddio cyfrifiaduron o bob math a ffonau poced i ddysgu

- defnyddio technoleg chwarae gêmiau newydd

Mae'n faes sy'n datblygu drwy'r amser ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar bosibiliadau technoleg, mae angen deall y datblygiadau diweddaraf bob amser a meddwl sut y gallai fod o ddefnydd i'r maes. Nid yn unig y mae technoleg yn bywiogi ac yn cyfoethogi'r dysgu ond mae pobl ifanc yn arbennig yn disgwyl gallu defnyddio technoleg ar gyfer gweithgareddau o bob math.

119. Mae e-ddysgu ym maes Cymraeg i Oedolion yn mynd yn fwyfwy poblogaidd ymhlith y rhai sy'n defnyddio technoleg yn gyffredinol. Mae'r cyfleoedd e-ddysgu ym maes Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd yn cynnwys:
 - cyrsiau cyfunol ffurfiol megis Cwrs Cyfunol Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg neu Gwrs Combi Canolfan Cymraeg i Oedolion y De-orllewin;
 - defnydd o e-ddysgu yn y dosbarth, ee defnyddio clipiau sain a fideo; a'r
 - defnydd o e-ddysgu y tu allan i'r gwersi ffurfiol trwy adnoddau ar-lein BBC Cymru ac S4C ac adnoddau ar-lein eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.
120. Yn 2011 comisiynodd Llywodraeth Cymru blatfform dysgu rhithiol ar gyfer y maes Cymraeg i Oedolion, wedi'i seilio ar feddalwedd *Moodle*. Mae www.ybont.org yn blatfform ar gyfer e-ddysgu a datblygir hwn fel man i diwtoriaid a dysgwyr gael mynediad i adnoddau atodol neu adnoddau sy'n rhan ffurfiol o'u cyrsiau. Mae llawer o waith datblygu i'w wneud ar y safle, ond mae'r Grŵp Adolygu yn croesawu'r datblygiad ac yn cydnabod potensial y safle.
121. Trafodwyd e-ddysgu gyda'r chwe chanolfan a hefyd yn y grwpiau ffocws gyda dysgwyr a thiwtoriaid. Daeth nifer o faterion i'r amlwg:
 - prin iawn yw'r offer sydd ar gael yn yr ystafelloedd dosbarth ledled Cymru. Cynhelir llawer o wersi mewn adeiladau megis neuaddau pentref a festri capeli lle nad oes offer ar gael;
 - os gwneir ymdrech i ddefnyddio technoleg, dim ond y dechnoleg fwyaf sylfaenol a ddefnyddir gan amlaf, megis tapiau sain a chwaraewyr CD;
 - mae llawer o'r dysgwyr wedi ymddeol ac yn anghyfarwydd â'r dechnoleg. Roedd llawer erioed wedi defnyddio cyfrifiadur;
 - roedd canmoliaeth i'r cyrsiau cyfunol gan y rhai oedd yn gyfarwydd â hwy;
 - roedd rhai tiwtoriaid o'r farn na ddylai e-ddysgu ddisodli'r tiwtor yn llwyr;
 - roedd rhai tiwtoriaid yn cyfeirio dysgwyr at wefannau a fyddai'n eu helpu i ymarfer, ee BBC Cymru, Golwg 360, S4C; ac
 - roedd galw am fwy o adnoddau ar y we yn enwedig gemau a deunyddiau ar gyfer dysgwyr ar lefelau uwch.

Yn gyffredinol, roedd y sgysiau gyda'r tiwtoriaid a'r dysgwyr yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael ac at ba bwrpas, ynghyd ag agwedd draddodiadol at rôl technoleg mewn dysgu ac addysgu.

122. Er bod cryn dipyn o e-ddysgu yn digwydd yn y byd addysg yn gyffredinol erbyn hyn, ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n llawn ym maes Cymraeg i Oedolion. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn dameidiog iawn gyda phob math o ddeunydd ar gael mewn gwahanol fannau gan gynnwys y Canolfannau Cymraeg i Oedolion, darparwyr preifat a sefydliadau cyhoeddus. Nid yw'r ddarpariaeth yn gyson nac ychwaith ar gael i bawb. Mae angen strategaeth glir i'w gweithredu gan nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid yn y maes. Mae angen mynd i'r afael o ddifrif â'r cyfleoedd y gallai'r dechnoleg ddiweddaraf eu cynnig i'r maes a phenderfynu ar ffordd o sicrhau bod y maes yn ymwybodol o'r posibilïadau diweddaraf bob amser. Mae angen darparu hyfforddiant trwyadl fel bod tiwtoriaid yn hapus i ddefnyddio technoleg wrth ddysgu. Mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y buddsoddiad a wneir yn y byd addysg ar y dechnoleg ddiweddaraf ar gael i'r maes Cymraeg i Oedolion hefyd, ac nad yw'r maes yn eilradd yn hyn o beth. Er enghraifft, dylai dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion gyda'r nos allu defnyddio'r dechnoleg a geir yn yr ysgolion a'r colegau lleol. Mae angen cydweithio ag ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd er mwyn marchnata darpariaeth Cymraeg i Oedolion drwy eu gwefannau a rhannu adnoddau, er enghraifft drwy gyfrwng gwefan newydd Llywodraeth Cymru, Hwb.
123. Rhagwelir rôl gynyddol i e-ddysgu yn y blynyddoedd i ddod a fydd yn trawsnewid y maes. Disgwylir i e-ddysgu fod yn ganolog i'r holl faes gydag un safle rhithiol sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn hygyrch ar wahanol blatfformau, ac yn gallu gwneud y canlynol:
- creu a rhannu adnoddau dysgu o bob math ar gyfer dysgwyr gan gynnwys cyrsiau rhithiol a chyfunol ac e-lyfrau cwrs;
 - bod yn fforwm i ddysgwyr gyfathrebu a chefnogi ei gilydd;
 - creu a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ymhlith tiwtoriaid;
 - rhoi cyfle i ddysgwyr a thiwtoriaid i bersonoli eu tudalen/profiad
 - bod yn gyfrwng i gefnogi'r berthynas rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg;
 - bod yn gyfrwng o weithredu asesu ar gyfer dysgu;
 - bod yn gyfrwng i ddarparu cefnogaeth rhithiol i ddysgwyr; a
 - chefnogi'r strategaeth farchnata.

Dysgu lled-ffurfiol ac anffurfiol a rôl siaradwyr Cymraeg

124. Mae cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg trwy weithgareddau dysgu lled-ffurfiol ac anffurfiol, neu siarad â siaradwyr Cymraeg, yn greiddiol i gynydd dysgwyr. Drwy gynnig cyfleoedd i arfer y Gymraeg yn eu bywyd bob dydd a chael profiadau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cyfoethogi'r dysgu drwy roi iddo gyd-destun real a pherthnasol, gall dysgwyr wneud mwy o gynydd. Maent yn fwy tebygol hefyd o ddyfalbarhau am eu bod yn gweld ffrwyth eu hymdrechion i gyrraedd rhuglder.
125. Mae dysgu lled-ffurfiol yn ddysgu sy'n gysylltiedig â gwersi sy'n cael ei reoli gan y tiwtor, ond sy'n cynnwys tasgau a gweithgareddau i

ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth. Felly mae strwythur i'r dysgu ac mae'n cael ei arwain gan diwtor neu arweinydd arall. Gall gynnwys gweithgareddau megis:

- cynllun pontio yn y dosbarth, lle bydd siaradwyr Cymraeg yn dod i mewn i sgwrsio gyda dysgwyr;
- tasgau cyfathrebu y tu allan i'r dosbarth, fel rhan o strwythur y cwrs, megis defnyddio holiadur i sgwrsio â siaradwyr Cymraeg, neu archebu bwyd a diod mewn caffi;
- Sadyrnau Siarad lle y daw dysgwyr o ardal gyfan at ei gilydd i ymarfer sgwrsio yn Gymraeg;
- teithiau a gynlluniwyd yn ofalus ar gyfer y dysgwyr, ee gan ddefnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd ar y cyd ag Amgueddfa Cymru; a
- chynlluniau cyfeillio lle gall pobl ryngweithio â'i gilydd yn Gymraeg drwy ddefnyddio ebost, Gweplyfr neu Drydar; mae hyn yn golygu y gall system fentora fod ar waith i helpu dysgwyr hefyd.

126. Fel rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r dull cyllido rheolaidd, bydd yn bwysig sicrhau bod dysgu lled-ffurfiol yn cael ei ariannu'n briodol ac yn benodol er mwyn sicrhau bod canran uchel o ddysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd.

127. Mae dysgu anffurfiol yn cynnwys gweithgareddau sydd heb eu strwythuro, gweithgareddau y mae'r dysgwyr yn ymgymryd â nhw y tu allan i'r dosbarth sydd efallai'n annibynnol ar y dosbarth, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda grŵp. Gall gynnwys gweithgareddau megis:

- defnyddio'r Gymraeg wrth iddynt fynychu digwyddiadau Cymraeg yn y gymuned;
- defnyddio'r Gymraeg fel aelod o glwb neu gymdeithas cyfrwng Cymraeg;
- mynychu sesiynau 'paned a sgwrs' a chlybiau dysgwyr yn eu hamser eu hunain;
- gwrandio ar Radio Cymru, gwyllo S4C neu ffilmiau Cymraeg, defnyddio gwefannau Cymraeg, cyhoeddiadau fel Lingo, Golwg, Y Cymro a phapurau bro; a
- defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach.

128. Mae gan bob Canolfan swyddog sy'n rhannol neu'n gyfangwbl gyfrifol am fynd ati i greu cyfleoedd dysgu anffurfiol o wahanol fathau, rhai'n fwy llwyddiannus na'i gilydd. Lle y bu'n fwyaf effeithiol, sefydlwyd nifer o fentrau newydd mewn partneriaethau â mudiadau Cymraeg lleol a bu cynnydd sylweddol yn y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Ehangwyd yn sylweddol ar y cyfle i ddysgwyr gymryd rhan yng ngweithgareddau mudiadau Cymraeg. Mae'r dysgwyr, ar y cyfan, yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd ychwanegol hyn ac yn cytuno eu bod nhw'n ychwanegu gwerth at y profiad dysgu. Maent yn cynnwys:

- clybiau darllen;
- cynlluniau mentora;
- sesiynau paned a sgwrs;
- clybiau cerdded;

- corau;
 - twmpathau neu Eisteddfodau i ddysgwyr;
 - ffeiriau cymdeithasau;
 - cylchgronau a dyddiaduron rhanbarthol;
 - cynlluniau Cymraeg efo'n Gilydd;
 - hyfforddiant i diwtoriaid; a
 - gweithgareddau Gwyliau'r Haf.
129. Mae'n hollbwysig darparu cyfleoedd penodol i ddysgwyr sydd ar lefelau Mynediad a Sylfaen gan nad yw'r patrymau a'r eirfa bob amser yn gyfarwydd iddynt, ac mae eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn isel. Cafodd y Canolfannau grantiau penodol i arbrofi gyda gwahanol ddulliau ddysgu anffurfiol (neu led-ffurfiol) a hynny ar lefel genedlaethol, megis trefnu penwythnosau teuluol mewn partneriaeth â'r Urdd, hwyluso cynlluniau mentora yn y gymuned a'r gweithle, a thrwy ddiwygio cynlluniau dysgu unigol, *Taith Iaith*, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr osod amcanion personol i ddefnyddio'r Gymraeg a chofnodi'u defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
130. Ar gyfer dysgwyr ar lefelau Canolradd, Uwch a Hyfedredd, y nod yw eu hannog i fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a drefnir gan y Mentrau Iaith neu gymdeithasau lleol a chenedlaethol er mwyn siarad a chymdeithasu â siaradwyr Cymraeg, neu fynychu cyrsiau addysg oedolion y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Un maen tramgwydd yn aml iawn yw nad yw siaradwyr Cymraeg yn gwybod sut i gefnogi dysgwyr. Rhoddir sylw manylach i hyn isod, am fod angen mawr am strategaeth bellgyrhaeddol yn hyn o beth. Ymhlith rhai o'r pethau a wnaed eisoes oedd cyhoeddi llyfryn *Rhannwch eich Cymraeg* er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r llyfryn yn annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr ac yn rhoi arweiniad iddynt ynghylch sut y gellir gwneud hyn. Er enghraifft, mae'n ceisio delio â'r swildod a diffyg dealltwriaeth o'r angen i addasu cyflymder siarad er mwyn helpu dysgwyr. Dosbarthwyd y llyfryn i gymdeithasau ac unigolion ar draws Cymru, a'r her ar gyfer y dyfodol fydd sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn barod i gefnogi dysgwyr ar eu taith.
131. Mewn ardaloedd lle y mae canran y siaradwyr Cymraeg yn isel a lle y mae prinder peuoedd i ymarfer y Gymraeg, dylid rhoi ystyriaeth ddwys i'r cysail a osodwyd mewn rhai ardaloedd eisoes sef sefydlu canolfannau Cymraeg, megis Tŷ Tawe yn Abertawe, Canolfan Soar ym Merthyr Tudful a Saith Seren yn Wrecsam. Yn ôl gwaith ymchwil, mae'r rhain yn hybu'r defnydd o'r iaith gan ddysgwyr yn gymdeithasol, ac yn darparu adnoddau dysgu ffurfiol. Gwelwyd llawer o arfer da yn y canolfannau hyn a gobeithir gweld mwy ohonynt yn cael eu sefydlu mewn cymunedau ledled y wlad. Mae'r canolfannau hyn, ynghyd â thechnolegau newydd, hefyd yn cynnig amryw gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
132. Ar wahân i'r gefnogaeth amlwg i ddysgwyr gan fudiad Merched y Wawr, nid yw'r berthynas â mudiadau eraill a allai helpu'r Canolfannau i gyfoethogi'r ddarpariaeth anffurfiol bob amser yn un amlwg. Aneglur

yw cyfrifoldebau'r Mentrau Iaith a'r Canolfannau o ran rhyngweithio yn y maes hwn, a byddid yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi arweiniad ar hyn. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd gan y Grŵp Adolygu, mae rhai Mentrau a Chanolfannau yn cydweithio. Ond mewn achosion eraill, mae'r Mentrau ar y naill law yn ansicr o'r hyn ddylent ei wneud ac a yw eu cylch gorchwyl yn cwmpasu dysgwyr, ac mae'r Canolfannau ar y llaw arall yn datgan nad oes cyllid ganddynt i ariannu gweithgareddau ar y cyd. Ar yr un pryd, mae'n amlwg fod posibiladau mawr yn y maes hwn ac y dylid manteisio arnynt. Er enghraifft dylid edrych ar ffynonellau fel arian Loteri a Chymunedau yn Gyntaf i hyrwyddo a chynnal agweddau ar y maes. Mae angen cryfhau rôl mudiadau, cymdeithasau a chlybiau eraill megis y Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r capeli hefyd o ran cefnogi dysgwyr.

133. Ymddengys yn yr oes sydd ohoni, yn enwedig yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011, bod angen edrych ar arferion da rhyngwladol, yn benodol yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia lle mae seilwaith cryf yn ei le i sicrhau bod siaradwyr yn cefnogi dysgwyr.
134. Mae angen ystyried hefyd y math o strwythur a gweithgarwch a sefydlwyd gan fudiad fel CYD. Trosglwyddwyd cyllid CYD i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion ac mae grwpiau siarad ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn dal i gael eu trefnu drwy'r Canolfannau. Cydnabyddir bod llawer o arferion da yn hyn o beth. Ar yr un pryd, daethom at groesffordd dyngedfennol yn hanes Cymru a'r Gymraeg yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad. Teimlir bod yn rhaid i siaradwyr Cymraeg dderbyn cyfrifoldeb am feithrin perthynas â dysgwyr er mwyn eu hannog i ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith. Dylid ystyried datblygu rhwydwaith gyswllt drwy Gymru gyfan i wneud defnydd o'r cannoedd o filoedd o siaradwyr Cymraeg cynhenid. Nid cyfrifoldeb dysgwyr Cymraeg yn unig yw adfer yr iaith yn uniongyrchol, ond mae'n her i bawb. Drwy hynny gellid cadw drwy adennill, a gellid cymryd safbwynt holistaidd ar Gymraeg i Oedolion a phontio rhwng y dosbarth a'r gweithgareddau cymunedol. Yn ogystal ag ymgyrchu cryf o'r canol, gellid rhoi blaenoriaeth a thargedau pendant i sefydlu, rhedeg a mesur effeithiolrwydd grwpiau o'r fath. Crisialwyd y math hwn o feddylfryd yn y wasg yn ddiweddar pan awgrymwyd y gallai Cymry Cymraeg 'fabwysiadu' dysgwr. Gellid hefyd ddefnyddio dulliau creadigol o hwyluso hyn, er enghraifft drwy fideos ar YouTube yn dangos sgysiau gwahanol rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
135. Rydym, fel Grŵp Adolygu, wedi rhoi pwyslais mawr yn y Rhan hon o'r adroddiad ar y rôl bwysig sydd gan siaradwyr Cymraeg. Er bod enghreifftiau o arfer da, mae angen mwy o gefnogaeth ar y dysgwyr a hynny drwy berthynas agosach â siaradwyr Cymraeg. Nid oes angen cyfyngu hyn i'r dulliau traddodiadol. Yn hytrach, mae angen manteisio ar gyfleoedd modern a chyfoes a rhwydweithiau eang.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

136. Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw gŵyl flaenaf Cymru, gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymreig a Chymraeg yn greiddiol iddi. Mae'n ŵyl i bawb ac yn uchafbwynt dwy flynedd a mwy o weithgarwch cymunedol mewn ardal. Ystyrir bod gan yr Eisteddfod rôl bwysig mewn perthynas â Chymraeg i Oedolion.
137. Caiff Swyddog y Dysgwyr ei benodi gan yr Eisteddfod ac ariennir y swydd drwy grant yr Eisteddfod Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae Swyddog y Dysgwyr, gyda chefnogaeth pwyllgor lleol, yn hybu gweithgareddau i ddysgwyr yn ardal yr Eisteddfod ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Ond caiff y gwaith hwnnw ei wneud am gyfnod penodol yn unig cyn bod yr Eisteddfod yn symud ymlaen i ardal arall. Mae hyn yn peri problem o ran dilyniant gan nad oes sicrwydd y bydd y sylfaen sydd wedi'i chreu gan Swyddogion yr Eisteddfod a'r pwyllgorau lleol yn parhau yn yr ardaloedd dan sylw. Mae lle i awgrymu bod angen mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau lleol yr Eisteddfod a phartneriaid eraill er mwyn datblygu'r sylfaen hon yn dilyn y digwyddiad.
138. Cefnogir Swyddog y Dysgwyr gan Banel Sefydlog y Dysgwyr (sy'n cynnwys 10-12 o bobl sy'n aelodau am dair blynedd) a phwyllgor lleol o wirfoddolwyr. Mae Panel Sefydlog yn cynnig arweiniad i'r pwyllgor lleol drwy Swyddog y Dysgwyr ac mae hefyd yn edrych ar destunau ar gyfer cystadlaethau'r dysgwyr. Mae'n debyg bod cydweithio effeithiol rhwng y Canolfannau a'r Eisteddfod hefyd.
139. Maes D yw canolbwynt y bwrlwm ar gyfer dysgwyr ar faes yr Eisteddfod. Ceir yno amrywiaeth o wybodaeth a gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ddysgu mwy ac ymarfer yr iaith mewn awyrgylch anffurfiol. Ymddengys fod y rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n mynd yno yn gwerthfawrogi'r rhaglenni o weithgareddau a geir yno. Mae'n lle lle gallant deimlo'n gartrefol ac mae hyn i'w ganmol yn fawr, ond credir hefyd bod angen i'r Eisteddfod ystyried sut y gellir gwneud mwy i gymhathu'r dysgwyr â bywyd a gweithgareddau'r maes cyfan.
140. Erbyn hyn, mae cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn wedi hen ennill ei phlwyf, er y byddai'n dda gweld cynnydd yn nifer y cystadleuwyr o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n agored i ddysgwyr yng Nghymru a thu hwnt ac yn fodd i amlygu llwyddiant dysgwyr a'u cyfraniad gwerthfawr i gymunedau Cymraeg. Awgrymir y gallai enillwyr y gystadleuaeth lysgenhadu ar draws Cymru yn dilyn y gystadleuaeth a hefyd cydnabod y rheiny sydd wedi chwarae rhan allweddol yn eu llwyddiant.
141. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn un o'r digwyddiadau nodedig ar lefel Cymru gyfan sy'n gyfle i hybu'r Gymraeg. Ers blyneddau bellach, mae dysgwyr wedi bod yn ganolog i weithgarwch yr Eisteddfod ac mae angen i hyn barhau yn y dyfodol. Beth bynnag fydd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi'i sefydlu i drafod datblygiad yr Eisteddfod, mae'n hanfodol bod anghenion dysgwyr ym mhob rhan o Gymru yn cael eu hystyried a bod dyfodiad yr Eisteddfod i ardal yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i recriwtio dysgwyr newydd.

Y cyfryngau

142. Nid oes amheuaeth bod y cyfryngau yn ddylanwad mawr ar fywydau pobl Cymru ac ni ellir fforddio anwybyddu'r cyfraniad sydd ganddynt i'w wneud i faes Cymraeg i Oedolion o ran denu dysgwyr newydd, cefnogi dysgwyr presennol a chysylltu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg.
143. Mae'r Grŵp Adolygu yn croesawu darpariaeth S4C ar gyfer dysgwyr, sy'n cynnwys dwy gyfres o raglenni penodol a gwersi ac adnoddau cysylltiedig y gellir eu lawrlwytho o'r we. Eglurwyd mai Cyw yw un o frandiau cryfaf S4C ac fe lansiwyd @TiFiaCyw yn 2012, sef ymgais i annog rhieni di-Gymraeg i ddysgu'r iaith wrth fwynhau rhaglenni Cyw gyda'u plant. Cyfeiriwyd at y gwasanaeth is-deitlo hefyd. Awgrymwyd y dylid normaleiddio'r Gymraeg a hyrwyddo'r ddarpariaeth bresennol ymhlith dysgwyr. Mae S4C wrthi'n datblygu strategaeth benodol ar gyfer dysgwyr, sydd i'w groesawu'n fawr, ac mae'n bwysig bod S4C yn parhau i adeiladu ar y berthynas rhyngddynt â'r maes Cymraeg i Oedolion er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas ar gyfer dysgwyr ac yn bodloni eu gofynion.
144. Mae BBC Cymru yn darparu gwasanaethau ar dri llwyfan; ar y teledu, ar y radio ac ar y we. O fis Ebrill 2013, bydd BBC Cymru yn ariannu 91% o weithgareddau S4C (£76.4 miliwn). Nodwyd bod mwy o gydweithio rhwng y ddau gorff ar rannu costau, datblygu talent a syniadau er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ac mae cysylltiadau comisiynu agos iawn rhyngddynt. Er mai cyfrifoldeb cyhoeddus creiddiol y BBC yw addysgu ar gyfer bob oed, mae cytundeb clir gydag S4C mai nhw sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth i ddysgwyr. Bu'n rhaid dod â chyfresi fel Yr Wythnos a Saith ar y Sul i ben oherwydd nifer isel o wylwyr.
145. Gwrandawyr a gwylwyr BBC Wales yw'r gynulleidfa amlwg i'w denu i ddysgu Cymraeg ond ni chlywyd sôn bod BBC Wales yn hyrwyddo manteision y Gymraeg na dysgu Cymraeg ar hyn o bryd nac yn darparu gwasanaeth i gefnogi dysgwyr. Nid oes strategaeth i gefnogi dysgwyr drwy gyfrwng Radio Cymru chwaith. Mae Radio Cymru yn rhyddhau podlediad wythnosol i ddysgwyr ar lefel uwch, sy'n adnodd da ar gyfer clywed Cymraeg a rhoi her i'r dysgwyr. Mae dysgwyr, yn anffodus, rhwng y ddwy sianel. Nid yw BBC Wales na Radio Wales yn cynnig unrhyw wasanaeth i ddysgwyr, tra bod y gwasanaeth a gynigir gan Radio Cymru ar gyfer dysgwyr lefel uchel. Mae angen i'r ddwy sianel ystyried eu rôl mewn perthynas â darpar ddysgwyr a dysgwyr ar bob lefel. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o 'Sgwrs' Radio Cymru a bod hyn yn esgor ar drafodaethau pellach o fewn BBC Cymru Wales.
146. Dywedodd y BBC fod adnoddau addysgol yn gweithio'n well ar y we nag ar y radio ac mae gwefan BBC Cymru Wales (www.bbc.co.uk/cymru) yn cynnwys adnoddau Cymraeg ac adnoddau i ddysgwyr, ond mae'n llwyr ddibynnol ar gyllideb. O ystyried y toriadau arfaethedig, eglurwyd nad oes modd i'r BBC wneud popeth.

147. Mae gan y BBC hanes eithriadol o hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru a siomwyd y Grŵp Adolygu gan eu diffyg strategaeth ar gyfer dysgwyr. Mae'r Grŵp yn gobeithio y bydd BBC Cymru Wales yn manteisio ar y cyfle i gydweithio ag S4C ar strategaeth i ddysgwyr, yn wyneb y sefyllfa ariannu newydd. Mae'n gobeithio y bydd y BBC ac S4C yn llwyr sylweddoli bod dysgwyr Cymraeg a'r rheiny a hoffai ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach a magu hyder yn yr iaith yn rhan bwysig o'u cynulleidfa a bod gan y cyfryngau gyfrifoldeb i'w cefnogi bob cam o'r ffordd. Gobeithir hefyd y bydd y BBC ac S4C yn cydweithio â'i gilydd a gyda phartneriaid eraill i sicrhau bod llwybr clir i ddarparu ddysgwyr a dysgwyr ei ddilyn wrth ddefnyddio'r cyfryngau er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio rhwng dwy stôl. Yn ogystal, gobeithir y bydd y cyfryngau hefyd yn ystyried eu cyfrifoldeb i ddatblygu'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Dysgwyr y tu allan i Gymru

148. Nid yw dysgu'r Gymraeg yn rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i Gymru'n unig. Mae'n weithgaredd y tu allan i Gymru hefyd - yng Ngogledd America, yr Ariannin a Lloegr. Yn ystod yr adolygiad cafwyd tystiolaeth fod hanner dysgwyr Cymraeg y Brifysgol Agored a thraean o ddysgwyr www.saysomethinginwelsh.com yn byw yn Lloegr. Clywyd hefyd am ddysgwyr o ddinasoedd dros y ffin yn mynychu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i Oedolion yn ardal Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent. Ceir dosbarthiadau yng Nghanolfan Cymry Llundain ac mewn dinasoedd eraill yn Lloegr ac mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Gymraeg ym Mhatagonia hefyd a cheir cyrsiau Cymraeg rheolaidd yn yr Unol Daleithiau.
149. Gan fod cyfrifiad 2011 yn Lloegr yn nodi bod tua hanner miliwn o breswylwyr y wlad wedi eu geni yng Nghymru, nid yw'n afresymol dod i'r casgliad bod tua 20% ohonynt (hy tua 100,000) yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhain bellach wedi'u gwasgaru drwy bob rhan o'r wlad ac nid wedi'u crynhoi o gwmpas y cymunedau Cymreig mwyaf yn Llundain, Lerpwl a Glannau Merswy, Manceinion, Bryste a Birmingham, fel yn y gorffennol.
150. Mae potensial mawr felly i gynnal a chynyddu'r siaradwyr Cymraeg yn Lloegr, a gall datblygiadau yn y maes yng Nghymru gefnogi hyn drwy ddarparu adnoddau o bob math, rhoi cefnogaeth i ddysgwyr, darparu gwybodaeth am gyfleoedd cymdeithasol/dysgu anffurfiol, rhoi mynediad at arholiadau a chymwysterau i diwtoriaid a chreu cymunedau newydd o ddysgwyr gan ddefnyddio'r we. Mae'r posibilïadau'n niferus ac, ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw un yng Nghymru wybodaeth a dealltwriaeth o'r maes dysgu Cymraeg yn Lloegr.

Rhan 4: Strwythur ac adnoddau

Y chwe Chanolfan a'r is-ddarparwyr

151. Mae strwythur Cymraeg i Oedolion wedi datblygu ac esblygu dros y blynyddoedd. Sefydlwyd y Canolfannau yn 2006 ac roedd cychwyn y trefniadau newydd hyn yn gam pwysig ymlaen. Roedd goblygiadau pellgyrhaeddol i'r strwythur newydd a grëwyd, a oedd yn cynnwys lleihau nifer y darparwyr, sefydlu contractau gydag is-ddarparwyr, a throsglwyddo tiwtoriaid, ymhlith nifer o bethau eraill.
152. Er mwyn rhoi amser i'r chwe Chanolfan ymsefydlu, cytunwyd y byddai blwyddyn gan y Canolfannau i sefydlu strwythurau staffio, sefydlu gweithdrefnau cynllunio a gweithio gyda'r is-ddarparwyr i gynllunio'r ddarpariaeth yn strategol. O ganlyniad, ni ddyrannwyd y cyllid rheolaidd i'r Canolfannau hyd fis Awst 2007.
153. Ers 2006, mae'r Canolfannau i gyd wedi mynd ati, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i lunio cynlluniau strategol, sy'n cael eu cymeradwyo a'u monitro gan swyddogion y Llywodraeth. Yn gyffredinol, roedd y cynlluniau hynny yn cynnig cyfle i'r Canolfannau gynllunio mewn dull sy'n ymateb i flaenoriaethau ac yn targedu cynulleidfaoedd penodol. Ar yr un pryd, nodwyd sawl gwaith yn y sesiynau tystiolaeth gyda'r is-ddarparwyr nad oedd y cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio yn y rhanbarthau fel dogfennau byw.
154. Sefydlwyd pump o'r chwe Chanolfan mewn sefydliadau Addysg Uwch, a'r chweched mewn coleg Addysg Bellach. Roedd cryfderau a gwendidau i'r ddau fodel, ee roedd mwy o arbenigedd cwricwlaidd a thiwtoriaid llawn-amser i ddarparu cyrsiau dwys yn y sefydliadau Addysg Uwch er bod gweithdrefnau ansawdd a data'r coleg Addysg Bellach yn gallu cefnogi'r ddarpariaeth yn well.
155. O fewn y chwe sefydliad, penderfynwyd gosod y Canolfannau mewn adrannau amrywiol, o Ysgol y Gymraeg mewn un sefydliad i Adrannau Addysg Barhaus i Oedolion mewn sefydliadau eraill. Dros amser, bu newidiadau yn hyn o beth, ac yn y sesiynau tystiolaeth gyda'r Canolfannau nodwyd bod y gefnogaeth i'r maes o fewn y sefydliadau yn amrywio.
156. Mae tair haen i gyfundrefn bresennol Cymraeg i Oedolion - y Llywodraeth, y chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion a 21 o is-ddarparwyr eraill. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth wedi'u nodi'n glir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ac mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau blynyddol sy'n mynd i'r Canolfannau. Nid oes cysondeb i'r modd y caiff y blaenoriaethau strategol yma eu gweithredu ar lawr gwlad, gan olygu nad oes trefn genedlaethol effeithiol o rannu a datblygu, ac mae'r cysylltiadau ar brydiau yn aneffeithiol.

157. Mae strwythur pob Canolfan ychydig yn wahanol. Gofynnwyd i bob Canolfan sicrhau bod y swyddogaethau canlynol yn cael eu gweithredu, a mater i bob Canolfan oedd penderfynu sut i fynd ati i strwythuro staff er mwyn cyflawni'r swyddogaethau:
- cyfarwyddwr Canolfan;
 - gweinyddiaeth;
 - ansawdd;
 - hyfforddiant;
 - rheoli data;
 - datblygiad strategol;
 - marchnata a thechnoleg gwybodaeth;
 - dysgu anffurfiol.
- Mater i'r sefydliadau yw'r strwythurau hyn ac felly nid yw'r Grŵp wedi ystyried y sefyllfa mewn manylder.
158. O safbwynt perthynas y Canolfannau â'r is-ddarparwyr, mae gan bob Canolfan o leiaf un is-ddarparwr, ac ar y mwyaf mae chwech o is-ddarparwyr gan Ganolfan y Gogledd (gweler Tabl 13). Mae nifer yr is-ddarparwyr wedi lleihau ers sefydlu'r Canolfannau wrth i golegau addysg bellach uno, neu wrth i'r Canolfannau ail-drefnu'r ddarpariaeth am resymau megis ansawdd. Canmola rhai is-ddarparwyr y Canolfannau a'r gefnogaeth a dderbyniant, er bod eraill yn feirniadol o'r trefniadau ansawdd a'r dull o drafod a chynllunio'r ddarpariaeth.
159. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr adolygiad gwelwyd bod tri math o is-ddarparwyr:
- darparwyr sy'n cynnig Cymraeg i Oedolion fel rhan o'u darpariaeth gymunedol ehangach, sy'n cyflogi staff rhan-amser ac yn werthfawrogi o'r hyfforddiant gan eu Canolfan leol gan nad oes ganddynt arbenigedd yn fewnol;
 - darparwyr sy'n gweld gwerth strategol i'r ddarpariaeth a lle mae partneriaeth gref â'u Canolfan leol. Mae'r bartneriaeth hefyd yn datblygu mewn amrywiol ffyrdd;
 - darparwyr profiadol â staff llawn-amser a rhan-amser. Mae ganddynt yr arbenigedd a'r hyder i fod yn fwy annibynnol. Maent yn ddyfeisgar, yn rhagweithiol ac yn gweld eu perthynas â'r Canolfan yn llawer mwy cydradd na'r ddau gategori arall.
160. Mae'r Grŵp Adolygu wedi gweld manteision i'r drefn bresennol o gymharu â'r sefyllfa cyn sefydlu'r chwe Chanolfan ond nid yw'r model o is-ddarparwyr yn llwyddiant ym mhob rhan o Gymru. Er bod cydweithio da mewn rhannau o Gymru, nid oes dealltwriaeth dda o'r maes ymhlith rhai is-ddarparwyr ac mae tensiynau ymhlith rhai is-ddarparwyr mwy profiadol. Mae'r amrywiaethau uchod yn her i'r Canolfannau ac er bod gan rai o'r Canolfannau berthynas dda â'r is-ddarparwyr, mewn ardaloedd eraill, nodwyd bod y model yn creu gwrthdaro.
161. Er mwyn hwyluso cydweithio a thrafod datblygiadau mewn meysydd penodol, sefydlwyd gweithgorau yn cynnwys cynrychiolydd o bob Canolfan Cymraeg i Oedolion a chynrychiolydd o'r Llywodraeth a chyrrff eraill mewn rhai achosion. Arweinir y gweithgorau canlynol gan

Ganolfannau gwahanol ac ymddengys fod effeithiolrwydd y gweithgorau yn amrywio:

- Gweithgor Ansawdd (Canolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd);
- Gweithgor Dysgu Anffurfiol (Canolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth);
- Gweithgor Ymchwil (Canolfan Cymraeg i Oedolion y De-orllewin);
- Gweithgor Cymraeg i'r Teulu (Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg);
- Gweithgor y Gweithle (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent);
- Gweithgor Hyfforddiant (Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg)

162. Roedd y dystiolaeth am lwyddiant y model yma braidd yn anghyson. Clywyd bod y gweithgor Cymraeg i'r Teulu yn enghraifft o sut y gall gweithgor o'r fath weithio ar ei orau gan hyrwyddo cydweithio â phartneriaid allanol yn ogystal â rhwng Canolfannau. Datblygwyd y Cynllun Cymraeg i'r Teulu cenedlaethol tair blynedd ac, ymhlith prosiectau eraill, cydweithiwyd ar ddatblygu a marchnata'r cwrs Cymraeg i'r Teulu newydd ar lefel Mynediad a'r cwrs Cymraeg o'r Crud i rieni â babanod. Cynhaliwyd hefyd benwythnosau Cymraeg i'r Teulu yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Ni ellir rhestru deilliannau mor benodol ar gyfer pob gweithgor, fodd bynnag. Clywyd tystiolaeth nad oedd awdurdod gan y swyddogion oedd yn mynychu'r gweithgorau, ar y cyfan, i fod yn trafod ar lefel strategol. O ganlyniad, roedd natur trafodaethau'r gweithgorau yn ymwneud yn bennaf â rhannu arfer da. Nid ymddengys, felly, bod y model hwn yn gweithio.
163. Yn gyffredinol, cymerodd pob Canolfan gamau dros y chwe blynedd diwethaf i gynnal a datblygu'r maes a lleihau dyblygu yn y ddarpariaeth, ac i ddatblygu darpariaeth newydd a chynyddu darpariaeth ddwys. Mae'r strwythur a'r ddarpariaeth yn llawer mwy effeithiol na'r drefn cyn 2006 ac mae'r Grŵp Adolygu yn canmol y gwelliannau sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, mae meysydd gwan hefyd wedi dod i sylw'r Grŵp Adolygu yn ystod yr adolygiad a thrafodir y rhain ymhellach yn Rhan 5 yr adroddiad.

Arweiniad, rheolaeth a llywodraethiant

164. Llywodraeth Cymru, drwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, rhan o'r Adran Addysg a Sgiliau, sy'n gyfrifol am lunio polisi a rhoi arweiniad i'r maes Cymraeg i Oedolion drwy'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Canllawiau Grant blynyddol. At hynny, datblygwyd nifer o brosiectau gwerthfawr i hybu'r maes a chafwyd tystiolaeth o gyfathrebu cyson ar faterion cynllunio, cyllido a datblygu. Mynycha staff yr Uned nifer o gyfarfodydd gyda'r Canolfannau ac mae'r disgwyliadau ar y staff hyn yn uchel o gymharu â meysydd eraill o waith yr Adran. Roedd y Canolfannau yn gwerthfawrogi'r berthynas a'r gefnogaeth, ond nid oedd unrhyw gyswllt amlwg rhwng yr Uned a'r is-ddarparwyr. Er bod lefel staffio'r Uned wedi ei haneru ers sefydlu'r Canolfannau roedd y disgwyliadau a'r gofynion yn ymddangos fel pe baent yn cynyddu. Cred

y Grŵp Adolygu fod angen ystyried rôl pwy yw rhoi'r arweiniad cenedlaethol i'r maes yn y dyfodol.

165. Cyfeirir maes o law at y pwyslais ar rôl y tiwtoriaid a'r hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer ond nid oedd yn ymddangos fod yr un flaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi hyfforddiant i reolwyr o fewn y Canolfannau. Yn ein tystiolaeth, clywyd canmoliaeth i rai rheolwyr am eu harweiniad a'u gweledigaeth ac am eu cefnogaeth i ddysgwyr a staff. Ymdreiddia eu dylanwad hefyd i'r is-ddarparwyr a phartneriaid eraill. Roedd y goreuon o'r rheolwyr hefyd yn ddadansoddol, yn ymwybodol o'r materion oedd angen sylw ac yn gyfathrebwyr effeithiol. Fel y tystia Estyn fodd bynnag, nid yw'r nodweddion hyn mor gryf ym mhob rhan o'r maes.
166. O'r holl ddarparwyr yn y maes dim ond dau (Nant Gwrtheyrn a Popeth Cymraeg) sydd â'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn ganolog i'w bodolaeth. Unedau yw'r gweddill o fewn sefydliadau llawer mwy. O ganlyniad, roedd gan y Grŵp Adolygu ddiddordeb yn llywodraethiant y Canolfannau i ddeall a oedd trefniadau ar gyfer craffu ar y gwaith ac a oedd trefn atebolrwydd. Roedd un Ganolfan wedi sefydlu Bwrdd Rheoli annibynnol ac un arall yn defnyddio Bwrdd yr Ysgol at ddibenion llywodraethu'r Ganolfan. Adroddai penaethiaid Canolfannau eraill i Uwch Reolwr e.e. Deon neu Ddirprwy Bennaeth. Gellir casglu felly fod angen cryfhau a chysoni'r llywodraethiant yn y dyfodol gan ddod â llais dysgwyr, cyflogwyr, gwirfoddolwyr, staff a phartneriaid lleol i drafod cynllunio, ansawdd, cyllid, partneriaethau ac yn y blaen. Byddai trefn o'r fath ar ffurf Pwyllgor Ymgynghorol Lleol, a heb fod yn fiwrocrataidd, yn gwella craffu ac atebolrwydd y darparwyr yn y dyfodol.

Staff a hyfforddiant

167. Adnodd pwysicaf maes Cymraeg i Oedolion yw'r tiwtoriaid, sy'n annog a chynorthwyo dysgwyr ac yn agor drws newydd iddynt i'r Gymraeg. Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld camau pwysig i gefnogi'r staff gyda buddsoddiad mewn datblygu staff, cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd â chreu cymhwyster penodol ar gyfer tiwtoriaid. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael eu croesawu gan staff y Canolfannau a'r tiwtoriaid ac maent wedi bod yn hwb i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae swyddog hyfforddiant gan bob Canolfan yn gyfrifol am lunio a darparu rhaglen o gyrsiau bob blwyddyn, yn seiliedig ar anghenion sy'n cael eu hadnabod drwy weithdrefnau ansawdd ac mewn ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol. Cyflwynir cynlluniau hyfforddiant gan bob Canolfan yn flynyddol i'r Llywodraeth fel rhan o'u Cynllun Strategol.
168. Ceir gwybodaeth am broffil y tiwtoriaid yn Atodiad 8. Pan gasglwyd yr wybodaeth roedd 587 o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn gweithio i'r Canolfannau neu i'r is-ddarparwyr drwy Gymru. Dengys yr wybodaeth bod canran uchel o'r tiwtoriaid yn gweithio llai na 6 awr yr wythnos a bod chwarter ohonynt dros 60 oed. Nid oes amheuaeth felly, er gwaetha'r datblygiadau clodwiw ym maes hyfforddi tiwtoriaid, nad yw bod yn diwtor yn yrfa sy'n apelio at y mwyafrif.

169. Gwerthfawroga'r tiwtoriaid y ffaith fod cymhwyster addas ar eu cyfer sy'n cydymffurfio â rheoliadau 2002⁹ ar gyfer tiwtoriaid a darlithwyr addysg bellach. Ariannwyd Prifysgol Caerdydd trwy dendr i ddatblygu cymhwyster cenedlaethol ar gyfer tiwtoriaid yn y maes yn 2006. Mae'r cymhwyster wedi cael ei ddarparu trwy'r chwe Chanolfan ers 2008 ac erbyn hyn datblygwyd cwrs cyfunol gyda hanner y cwrs yn cael ei wneud ar-lein. Rydym yn cydnabod arweiniad Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i sicrhau hyn a'r effaith gadarnhaol a gafodd o fewn y sector a dylid parhau gyda'r ddarpariaeth hon.
170. Er yr ymdrech sylweddol a fu ym maes hyfforddiant i diwtoriaid, mae angen sicrhau bod y rhaglen o hyfforddiant a ddarperir i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn gydlynus ac yn galluogi tiwtoriaid i ddatblygu gyrfa yn y maes. Mae angen datblygu fframwaith Datblygu Proffesiynol Parhaus cenedlaethol ar gyfer y maes, a lle bo hynny'n bosib, datblygu modiwlau pellach y gellid eu hachredu er mwyn i'r tiwtoriaid allu cael credydau am yr hyfforddiant y gellid eu casglu i ennill cymhwyster.
171. Cyfyd sefyllfa gymhleth o ran cyflogi tiwtoriaid oherwydd eu bod yn cael eu cyflogi gan un o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion neu un o'r 21 o is-ddarparwyr, neu'n aml gan fwy nag un ohonynt. Mae'r sefydliadau i gyd yn pennu eu cyflogau a'u hamodau gwaith eu hunain a gwelwyd rhywfaint o anniddigrwydd ymhlith rhai ynghylch hyn.
172. Er bod camau wedi eu cymryd gan rai o'r darparwyr i wella'r sefyllfa yn ddiweddar, mae nifer uchel iawn o diwtoriaid rhan-amser yn dysgu yn y maes. O ganlyniad, mae pwysau gweinyddol ychwanegol ar y staff llawn-amser. Nid yw maint contract rhai darparwyr yn caniatáu i staff llawn-amser gael eu penodi. Gan fod nifer o gyrsiau darnynol yn cael eu cynnal ar yr un amser ac yn yr un lleoliad, mae angen nifer helaeth o diwtoriaid mewn rhai ardaloedd a'r rheiny'n diwtoriaid rhan-amser.
173. Cyflogir tiwtoriaid yn y maes gan 27 o ddarparwyr gyda nifer helaeth o'r rhain yn cyflogi tiwtoriaid rhan-amser yn unig. Clywsom am amrywiaeth mawr mewn tâl yn ôl yr awr ac enghreifftiau o diwtoriaid yn gweithio rhai oriau i un darparwr ac yn cael hanner y tâl yr awr y byddent yn ei dderbyn wrth weithio i ddarparwr cyfagos arall i gynnal yr un cwrs. Yn achos rhai darparwyr, nid oedd gan y rheolwyr/gweinyddwyr a fu'n rhoi tystiolaeth unrhyw ddealltwriaeth o'r broses o addysgu iaith ac roedd y ddarpariaeth yn cael ei gweld fel unrhyw bwnc arall yn eu darpariaeth gymunedol.
174. Mae Cymraeg i Oedolion yn faes sydd wedi'i ddatblygu ar fodel addysg bellach ac addysg i oedolion a'r disgwyl oedd y byddai cyflogau swyddogion a thiwtoriaid yn cymharu â chyflogau staff y sectorau hynny. Fodd bynnag, nid dyna yw'r sefyllfa, gyda rhai ar gytundebau llywodraeth leol ac eraill ar gyflogau mwy hael addysg uwch. Gellir dadlau bod y sefyllfa felly yn annheg oherwydd diffyg cysondeb. Mae'r maes hefyd wedi manteisio yn helaeth ar lafur cariad nifer o unigolion dros y blynyddoedd a mawr yw ein gwerthfawrogiad o diwtoriaid

⁹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2002/1663/contents/made>

ymroddedig. Fodd bynnag, rhaid i'r maes drawsnewid fel ei fod yn faes lle gellir datblygu gyrfâ ac nid fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd. Heb newidiadau o'r fath bydd arbenigedd y staff presennol yn cael ei golli wrth iddynt ymddeol o'u cyfrifoldebau yn y blynyddoedd nesaf.

175. Nid lle'r adolygiad hwn yw rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr ond roedd hi'n bwysig tynnu sylw at rai sefyllfaoedd. Deuir i'r casgliad nad yw'r strwythur presennol yn gynaliadwy a bwriedir i nifer o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad yma fod yn fanteisiol i staff yn y maes. Bydd cynyddu cyllidebau rhai darparwyr unigol yn newid natur y ddarpariaeth a dylai nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad yma wella eu sefyllfa.

Cyllid

176. Fel yr amlinellwyd yn Rhan 1 yr adroddiad, mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy ddwy ffrwd ar wahân:

- cyllid rheolaidd ar gyfer y ddarpariaeth drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol; a
- cyllid grant datblygu trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, yn unol â mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt.

Mae'r Canolfannau hefyd yn derbyn incwm trwy ddwy ffrwd benodol arall sef y gronfa ariannol wrth gefn (sy'n cefnogi dysgwyr) a thrwy incwm ffioedd. Yn ystod 2011/12, derbyniodd y chwe Chanolfan gyllid o £13.358 miliwn o'r pedair ffynhonnell fel a ganlyn:

Tabl 9: Incwm y Canolfannau Cymraeg i Oedolion 2011/12

Cyllid rheolaidd drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol	£10.29m
Grant datblygu	£2.20m
Cronfa ariannol wrth gefn (i gefnogi dysgwyr)	£0.05m
Cyllid arall ee ffioedd	£0.80m

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

177. Yn ogystal â'r cyllid rheolaidd a'r cyllid grant, mae'r Llywodraeth hefyd yn ariannu prosiectau cenedlaethol i gefnogi'r maes. Yn ystod 2012-13 clustnodwyd oddeutu £500 mil i ariannu gweithgareddau cenedlaethol, a cheir gwybodaeth am hyn yn Nhabl 10. Mae'r Grŵp Adolygu o'r farn bod angen parhau i gefnogi gweithgareddau ar lefel genedlaethol, gan fod hyn yn lleihau dyblygu gwaith ac yn sicrhau cysondeb ac arweiniad, a bod cyfleoedd i gefnogi mwy o ddatblygu ar lefel genedlaethol yn y dyfodol.

Tabl 10: Gwariant Llywodraeth Cymru ar brosiectau cenedlaethol 2011/12

Gweithgaredd	Cyllideb 2011-12
Cymhorthdal ar gyfer arholiadau CBAC	£213,000
Swyddog y Dysgwyr, yr Eisteddfod Genedlaethol	£50,000
Grantiau Dysgu Anffurfiol	£30,000
Cymhwyster Cenedlaethol i Diwtoriaid	£124,000
Adnoddau	£50,000
Marchnata Cenedlaethol	£40,000
Cyfanswm	£507,000

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

178. Mae gweddill y rhan hon o'r adroddiad yn trafod:

- y cyllid grant;
- y cyllid rheolaidd;
- y drefn o frigdorri'r ddwy ffrwd o gyllid;
- ffioedd.

Cyllid Grant

179. Mae'r cyllid grant wedi cael ei ddefnyddio gan y Canolfannau i:

- benodi cyfarwyddwr Canolfannau i ymgymryd â swyddogaethau cynllunio strategol a gweithredol ar gyfer y rhanbarth a rheoli'r rhwydwaith o is-ddarparwyr Cymraeg i Oedolion yn y rhanbarth;
- penodi swyddogion Cymraeg yn y Gweithle a Chymraeg i'r Teulu er mwyn datblygu darpariaeth newydd;
- darparu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid;
- datblygu rhaglen o weithgareddau dysgu anffurfiol ar gyfer dysgwyr;
- datblygu'r defnydd o e-ddysgu;
- sicrhau bod data addas a systemau ansawdd yn eu lle.

Mae'r arian grant, ar y cyfan, yn cael ei gadw gan y Canolfannau i ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth ar draws yr holl ranbarth.

180. Mae Tabl 11 isod yn dangos yn fras sut y gwnaeth y Canolfannau wario'u cyllideb grant yn 2011/12. Mae'n amlwg o'r tabl bod rhai gweithgareddau megis hyfforddiant, marchnata a phrosiectau yn denu cryn dipyn o wariant gan y Canolfannau, gyda'r holl wariant yn y meysydd hyn yn cefnogi datblygiad y maes, ond mae cyfran helaeth y grant yn mynd ar gostau cyflogi swyddogion a rheolwyr.

Tabl 11: Gwariant cyllideb grant y Canolfannau Cymraeg i Oedolion 2011/12

Cyflogau (£)	1,915,451
Costau Eraill	
Hyfforddiant	131,990
Marchnata	123,842
Dysgu Anffurfiol	54,254
Cyfarpar / Adnoddau i Diwtoriaid ac E-ddysgu	40,768
Teithio a Chynhaliaeth	30,788
Arall (e.e. data, lleoliadau, lletygarwch a gorbenion)	79,299
CYFANSWM Y GWARIANT (£)	2,376,392

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

Cyllid Rheolaidd

181. Mae'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn ddull cyllido rheolaidd, dysgwr-ganolog, ar gyfer yr holl ddarpariaeth ôl-16 yn Nghymru ac eithrio addysg uwch. Mae'r cyllid rheolaidd ar gyfer darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi ei glustnodi ac yn talu am gostau cyflogi tiwtoriaid; lleoliadau dysgu; datblygiadau cwricwlaidd; marchnata; asesu/achredu; hyfforddi tiwtoriaid; gweithdrefnau safoni ac ati.
182. Yn ystod blwyddyn 2011/12 trosglwyddodd y Canolfannau £3.892 miliwn o'r cyllid rheolaidd a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol i'r is-ddarparwyr, sy'n cyfateb i 37.8% o'r cyllid rheolaidd. Gwelir isod ddyraniad y ffrwd gyllid hon i'r chwe Chanolfan yn 2011/12 a hefyd y canran i'r is-ddarparwyr:

Tabl 12: Cyllid a ddyrannwyd i'r is-ddarparwyr 2011/12

Canolfan	Cyllid Rheolaidd	Cyfanswm y cyllid ar gyfer darpariaeth uniongyrchol y Ganolfan	Cyfanswm y cyllid a frig-dorrwyd ar gyllid yr is-ddarparwyr	Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i is-ddarparwyr (nifer)	Canran y cyllid a ddyrannwyd i is-ddarparwyr
Caerdydd	£1,533,036	£1,074,091	£58,947	£399,998 (3)	26%
Canolbarth	£1,267,251	£844,332	£33,834	£389,085 (4)	31%
De-orllewin	£2,061,397	£1,032,385	£63,019	£965,993 (5)	47%
Gogledd	£3,035,162	£1,431,625	£121,406	£1,482,131 (6)	49%
Gwent	£1,280,451	£599,638	£102,122	£578,691 (6)	45%
Morgannwg	£1,111,200	£1,026,652	£7,686	£76,862 (1)	7%
Cyfanswm	£10,288,497	£6,008,723	£387,014	£3,892,760	37.8%

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

Dylid nodi bod rhai is-ddarparwyr yn gwasanaethu mwy nag un Ganolfan; bod nifer darparwyr Canolfan Gwent wedi lleihau i 5 ar gyfer 2012/13; ac y bydd uniad arfaethedig Coleg Iâl a Choleg Glannau

Dyfrdwy i ffurfio Coleg Cambria yn lleihau nifer is-ddarparwyr y Gogledd i 5 o fis Medi 2013. Gwelir bod canran y gyllideb sy'n cael ei ddyrannu i'r is-ddarparwyr yn amrywio o 7% ym Morgannwg gydag un is-ddarparwr i 49% o gyllid i'r chwe is-ddarparwr yn y Gogledd.

183. Yn 2011, penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau rewi'r dull cyllido rheolaidd ar gyfer addysg ôl-16 a chynnal adolygiad ohono. Mae darparwyr wedi derbyn dyraniadau dangosol tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2013/14.
184. Mae'r adolygiad cyllido yn argymhell symud at gynllunio a chyllido fesul rhaglen. Byddai cynllunio a chyllido ar lefel rhaglenni ar gyfer dysgwyr yn:
- annog darparwyr i newid y ffocws o gynllunio cymwysterau i gynllunio rhaglenni mewn modd sy'n canolbwyntio ar anghenion y dysgwr a'r cyflogwr;
 - sicrhau bod mwy o ffocws ar ddeilliannau a chynnydd;
 - cynnig darlun mwy cyflawn o'r modd y cyfranna addysg a hyfforddiant at gynnydd myfyrwyr;
 - symleiddio'r broses gynllunio, y gofynion data a'r dulliau o reoli data;
 - safoni'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth ar draws amrywiaeth o ddarparwyr;
 - hwyluso dealltwriaeth o sut y cyfrifir y cyllid a sut y'i defnyddir.
185. Mae'r Grŵp Adolygu wedi cael cyfle i ystyried a oes angen dull rheolaidd o gyllido Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol, ac wedi dod i'r casgliad bod angen i gyrsiau Cymraeg i Oedolion gael eu cyllido mewn modd sy'n gydnaws â'r ddarpariaeth addysg ôl-16, ond y dylai'r egwyddorion canlynol fod yn greiddiol i'r drefn newydd:
- yr angen i briflifo'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol, hy Cymraeg i'r gweithle, Cymraeg i'r Teulu, e-ddysgu ayyb, er mwyn lleihau dibyniaeth ar gyllid grant;
 - yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hariannu mewn modd sydd er lles y dysgwyr;
 - yr angen i ystyried sut mae modd ariannu dysgu lled-ffurfiol;
 - yr angen i sicrhau bod cyrsiau dwys, cyrsiau preswyl a chyrsiau cyfunol yn cael eu hariannu'n deg;
 - yr angen i sicrhau gwerth am arian.
- Ceir enghraifft o sut gallai rhaglenni Cymraeg i Oedolion edrych yn Atodiad 10.

Brigdorri

186. Mae'r Grŵp Adolygu wedi casglu data am lefel y cyllid y mae'r sefydliadau yn ei brigdorri ar y cyllid grant a'r cyllid rheolaidd er mwyn talu am wasanaethau canolog, megis ystadau, adnoddau dynol ac ati. O safbwynt brigdorri'r cyllid grant, mae'r sefyllfa yn amrywio. Nid yw un sefydliad yn brigdorri grant y Ganolfan o gwbl, ac mae sefydliad arall yn brigdorri 25% o grant y Ganolfan.

187. Mae dau fath o frigidorri yn bodoli mewn perthynas â'r cyllid rheolaidd ac mae'r sefyllfa eto yn amrywio:
- mae'r sefydliad yn brigdorri hyd at 15% o'r cyllid rheolaidd a gedwir gan y Ganolfan i ddarparu cyrsiau fel cyfraniad at wasanaethau canolog;
 - mae'r Canolfannau yn brigdorri hyd at 15% ar y cyllid rheolaidd a ddyrennir i'r is-ddarparwyr fel cyfraniad at wasanaethau datblygu a rheoli sy'n cefnogi'r maes.
188. Er na chafwyd gwybodaeth am unrhyw un o'r is-ddarparwyr yn brigdorri cyn cyflwyno'r ddarpariaeth, gan fod yr is-ddarparwyr yn gweithredu cytundebau sy'n seiliedig ar gyrraedd targedau, mae'n bosib bod cyllid ar ôl gan yr is-ddarparwyr ar ddiwedd blwyddyn a fyddai'n cael ei gadw'n ganolog gan y sefydliad.
189. Heb archwilio'r cyllidebau'n fanwl, ac ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, gellir rhagdybio bod tua 15% o'r cyllid rheolaidd, sef £1.543 miliwn, a tua 10% o'r cyllid grant, sef £0.222 miliwn, yn cael ei dynnu'n ôl i dalu costau canolog. Wrth gydnabod bod angen i sefydliadau gael cyfraniad tuag at gostau ystadau, adnoddau dynol, offer a lluo o wasanaethau amrywiol sy'n cefnogi'r Canolfannau o fewn eu sefydliadau, barn y Grŵp Adolygu yw bod angen sicrhau gwerth am arian, cysondeb a thryloywder. Felly, wrth ddyfarnu contractau yn y dyfodol dylid nodi lefel y brigdorri sy'n dderbyniol/cael ei chaniatáu. Mae'r Grŵp yn croesawu'r camau mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd i gryfhau'r amodau cyllido ar gyfer 2013/14.

Ffioedd

190. Nid oes polisi cenedlaethol yn bodoli ar gyfer codi ffioedd ym maes Cymraeg i Oedolion, nac ychwaith ym maes dysgu oedolion yn y gymuned. Serch hynny, mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi cymryd camau dros y blynyddoedd diwethaf i gysoni ffioedd o fewn eu rhanbarthau er mwyn osgoi cystadleuaeth rhwng darparwyr, ac mae'r datblygiad hwn i'w groesawu. Mae rhai dysgwyr, o dan amgylchiadau penodol, yn derbyn ffi ostyngol, ac mae'r gronfa wrth gefn ar gael i ddysgwyr eraill sydd angen cymorth gyda'r costau. Barn rhai dysgwyr yn y grwpiau ffocws oedd eu bod yn cael gwerth am arian. Mae'r Grŵp Adolygu o'r farn, fodd bynnag, bod angen parhau ag ymdrechion i gysoni ffioedd ar draws Cymru er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr ac mewn cyfnod lle mae'r esgid yn gwasgu, mae angen cadw'r ffi mor isel â phosibl.

Y sector preifat, addysg bellach ac addysg uwch

191. Darpara sefydliadau a chwmnïau eraill hyfforddiant iaith Gymraeg i oedolion yng Nghymru, ac yn ystod yr adolygiad, derbyniwyd gwybodaeth am gyrsiau www.saysomethinginwelsh.com, Cwmni Iaith, y Brifysgol Agored, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a darpariaeth iaith ar Waith mewn colegau addysg bellach. Mae'r cyrsiau a gynigir

gan y sefydliadau a'r cwmnïau hyn naill ai yn gyrsiau ar-lein neu yn gyrsiau byr, a rhai wedi'u teilwra'n benodol at anghenion gweithleoedd.

192. Croesawa'r Grŵp Adolygu y ffaith bod sefydliadau a chwmnïau wedi nodi bylchau yn y farchnad i ddatblygu cyrsiau amgen, ac mae'n falch bod rhai ohonynt yn gweithio gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Bu rhai datblygiadau arloesol a chyffrous i gyrraedd dysgwyr newydd, yn aml iawn dysgwyr rhyngwladol, ac i gefnogi dysgwyr presennol.
193. Serch hynny, mae'r Grŵp Adolygu yn gweld cyfleoedd i wella'r cydweithio er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith yn ddianghenraid, yn enwedig pan fo'r cyrsiau yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus. Mae rhai sefydliadau addysg uwch yn creu darpariaeth debyg i'r hyn a gynigir drwy'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, er bod y ddarpariaeth hon ar gyfer cynulleidfya benodol, sef myfyrwyr addysg uwch. Yn ogystal â hynny, mae potensial i ystyried y cysylltiad rhwng modiwlau Iaith ar Waith, a ddarperir mewn colegau addysg bellach i barhau i ddatblygu sgiliau iaith myfyrwyr ôl-16, a chysiau Cymraeg yn y Gweithle.
194. Wrth ddatblygu i'r dyfodol, rhaid sicrhau bod yr holl adnoddau yn y maes yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu rhannu er mwyn osgoi dyblygu gwaith a chystadleuaeth ddianghenraid.

Rhan 5: Y dyfodol

Yr angen am newid

195. Mae angen i faes pwysig Cymraeg i Oedolion fod yn un hyblyg, modern ac ystwyth, sy'n cael ei arwain yn bwrpasol. Mae angen sicrhau cynllunio cydlynus, osgoi dyblygu gwaith a biwrocratiaeth, a rhyddhau buddsoddiad ar gyfer talu costau addysgu ac i wella'r gwasanaeth i ddysgwyr. Mae angen sicrhau ei fod yn addas i ymateb i sefyllfa Cymru yn y dyfodol ac i ddylanwadu ar y dyfodol hwnnw.
196. Amlinellwyd sefyllfa gyfredol y maes Cymraeg i Oedolion yn Rhan 3 a 4 yr adroddiad hwn a thrafodwyd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Grŵp Adolygu gan bwysu a mesur cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol a rhai newidiadau posibl. Mae aelodau'r Grŵp Adolygu yn unfryd eu barn fod y maes wedi datblygu a phroffesiynoli o dan gyfundrefn y chwe Chanolfan, ac mae ymroddiad ac ewyllys da nifer o bobl i'w canmol. Mae hyn yn ategu'r farn a fynegwyd yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r maes yn 2010. Serch hynny, mae angen edrych i'r dyfodol ac ystyried sut i ddatblygu ar waith y chwe Chanolfan er mwyn cryfhau'r maes ymhellach.
197. Gwnaeth nifer o gryfderau'r maes argraff ar y Grŵp Adolygu, gan gynnwys:
- hyfforddiant a datblygiad y Cymhwyster Cenedlaethol i diwtoriaid;
 - datblygiad darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, ee Cymraeg i'r Teulu;
 - arferion da penodol o ran sicrhau ansawdd, cefnogi dysgwyr a rhoi cyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr.
198. Gwelwyd rhai gwendidau hefyd, gan gynnwys:
- methiant i gynyddu nifer y dysgwyr yn sylweddol;
 - arafwch o ran cymryd mantais ar bosibiliadau'r dechnoleg ddiweddaraf;
 - diffyg strategaeth Cymraeg yn y Gweithle;
 - diffyg momentwm cenedlaethol o ran dysgu anffurfiol a'r berthynas rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg;
 - amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth;
 - dim digon o bwyslais ar ddysgu dwys;
 - dyblygu gwaith wrth ddatblygu cwricwlwm ac adnoddau;
 - diffyg data cyson;
 - diffyg cydweithio effeithiol.
199. Mae'r chwe Chanolfan yn fach o ran eu maint o'u cymharu â'r colegau addysg bellach sy'n rheoli a gweinyddu'r un gweithdrefnau. Golyga hyn fod y chwe Chanolfan yn wynebu costau cymharol uchel o gymharu â maint eu darpariaeth ac mae'r cyllid grant ychwanegol yn adlewyrchu hyn.

200. Cafwyd tystiolaeth o ddyblygu ac ychydig iawn o arbedion a wnaed drwy gydweithio rhwng Canolfannau â'i gilydd a gyda'r is-ddarparwyr. Prin yw'r rhesymoli sydd wedi digwydd ac eithrio pan yw'r colegau addysg bellach sy'n is-ddarparwyr yn uno, ac felly yn lleihau nifer y contractau lleol. Mae Tabl 13 yn dangos cyllideb yr is-ddarparwyr. Mae'r Grŵp Adolygu o'r farn bod gan nifer o'r is-ddarparwyr contractau sydd mor fach ar gyfer y maes hwn o gymharu â gweddill eu cyllideb fel y'u cyfyngir mewn nifer o ffyrdd, ac yn enwedig o ran cydbwysedd rhwng staff llawn-amser a rhan-amser.

Tabl 13: Rhestr o'r is-ddarparwyr a'u cyllidebau ar gyfer darpariaeth 2011/2012 fesul Canolfan Cymraeg i Oedolion

Canolfan Cymraeg i Oedolion	Is-ddarparwr	Cyllideb darpariaeth 2011/2012
Caerdydd a'r Fro	Cyngor Caerdydd	£263,309
Caerdydd a'r Fro	Coleg Caerdydd a'r Fro	£36,396
Caerdydd a'r Fro	Cyngor Bro Morgannwg	£100,293
Canolbarth	Cyngor Sir Ceredigion	£262,246
Canolbarth	Grŵp Llandrillo Menai*	£57,963
Canolbarth	Coleg Harlech / CAG*	£65,256
Canolbarth	Popeth Cymraeg*	£3,220
De-orllewin	Cyngor Sir Penfro	£253,271
De-orllewin	Cyngor Sir Caerfyrddin	£288,432
De-orllewin	Coleg Castell-nedd Port Talbot	£192,972
De-orllewin	Coleg Gŵyr Abertawe	£149,379
De-orllewin	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	£81,939
Gogledd	Popeth Cymraeg*	£411,018
Gogledd	Grŵp Llandrillo Menai*	£346,752
Gogledd	Coleg Glannau Dyfrdwy	£294,310
Gogledd	Coleg Harlech / CAG*	£195,356
Gogledd	Coleg Iâl, Wrecsam	£124,454
Gogledd	Nant Gwrtheyrn	£110,241
Gwent	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£81,736
Gwent	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£111,543
Gwent	Cyngor Sir Fynwy	£102,170
Gwent	Cyngor Dinas Casnewydd	£102,170
Gwent	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	£103,431
Gwent	Y Coleg Ystrad Mynach**	£77,641
Morgannwg	Coleg Penybont	£76,862

Ffynhonnell – Canolfannau Cymraeg i Oedolion

* Sylwer bod yr is-ddarparwyr hyn yn derbyn cyllid gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru a Chanolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth.

** Nid yw Coleg Ystrad Mynach yn ddarparwr yn 2012/2013.

201. I grynhoi, mae llawer o gryfderau yn y maes y gellir eu datblygu ymhellach a hyderir bod yr ymroddiad a'r ewyllys yn y maes i wneud hyn. Mae ansawdd y dysgu wedi gwella ac mae'r tiwtoriaid yn derbyn hyfforddiant amrywiol o safon a gwelir twf o ran rhywfaint o'r ddarpariaeth, er enghraifft Cymraeg i'r Teulu. Fodd bynnag, mae diffyg cyfundrefn genedlaethol ynghyd â'r gwendidau a restrwyd uchod yn golygu bod angen newid ac addasu'r strwythur i ddiwallu anghenion y dyfodol a sicrhau ei fod yn gynaliadwy.
202. Yn ychwanegol at y meini prawf ym mharagraff 32, mae'r Grŵp Adolygu o'r farn bod angen i faes Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol fod yn llawer mwy uchelgeisiol i wynebu'r her o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae gwir angen i'r maes arloesi ym mhob agwedd ar y gwasanaeth yn y dyfodol er mwyn:
- cyrraedd mwy o ddysgwyr gan ddiwallu anghenion pobl sy'n awyddus i ddysgu trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys ar adegau gwahanol o'r flwyddyn;
 - galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio mwy o'u Cymraeg trwy roi mwy o gefnogaeth a chyfleoedd iddynt;
 - creu profiad dysgu cyfoes a hyblyg;
 - manteisio ar botensial y byd digidol a'i ddefnyddio'n greadigol a gyda brwdfrydedd;
 - cynnig profiadau gwerthfawr ac unigryw i ddysgwyr drwy greu partneriaethau llawer cryfach â chymunedau a chymdeithasau Cymraeg; a
 - chreu partneriaethau newydd a gwahanol i ddenu cyllid ychwanegol.

Mae dilyn y cyfeiriad hwn yn golygu trawsnewid y drefn bresennol, arallgyfeirio'r adnoddau a sicrhau arweinyddiaeth gadarn.

Newid strwythurol

203. O ystyried y dystiolaeth a dderbyniodd y Grŵp Adolygu, ni fyddai parhau â'r un strwythur ar gyfer y maes yn galluogi'r newid angenrheidiol o ran sicrhau arweiniad cenedlaethol, dileu biwrocratiaeth a dyblygu, a rhyddhau adnoddau i wella gwasanaeth i ddysgwyr a denu mwy o bobl i ddysgu Cymraeg. Credir felly bod gwneud newidiadau strwythurol i'r maes yn anochel.
204. Wrth drafod newidiadau strwythurol, roedd yr ystyriaethau canlynol yn ganolog i drafodaeth y Grŵp Adolygu:
- dylai'r strwythur newydd fod yn ddysgwr ganolog er mwyn gwella'r gwasanaeth ar eu cyfer;
 - dylai'r strwythur newydd gael endid sy'n rhoi arweiniad cenedlaethol ac sy'n gweithredu datblygiadau ar lefel genedlaethol;
 - dylid edrych am batrymau sy'n lleihau yn sylweddol ar nifer yr is-gontractau ac yn dileu haen o reoli a gweinyddu;


- dylai'r darparwyr newydd gael cytundeb sy'n rhoi digon o gyllideb iddynt gyflwyno'r ddarpariaeth yn llawn ac i gyflogi digon o staff llawn-amser;
 - dylai'r darparwyr newydd weithredu o fewn ffiniau mwy perthnasol a chyfoes na'r gyfundrefn bresennol;
 - dylai unrhyw newid fod yn broses dryloyw;
 - dylai'r newid greu cyfundrefn a fydd yn parhau am flynyddoedd; a
 - dylai cydweithio effeithiol fod yn elfen ganolog o'r drefn newydd.
205. Bu'r Grŵp Adolygu yn trafod y ffordd ymlaen yn helaeth ac ystyriwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer newid fel a ganlyn:
- dychwelyd i'r drefn a oedd yn bodoli cyn 2006;
 - parhau gyda'r *status quo*;
 - sefydlu un darparwr cenedlaethol; neu
 - sefydlu darparwyr ar gyfer dwy, neu bedair rhanbarth yn unol â newidiadau eraill yn y byd addysg.
206. Daeth y Grŵp Adolygu i'r casgliad bod angen dechrau unrhyw newid ar lefel genedlaethol trwy sefydlu un Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am arwain Darparwyr y dyfodol. Golyga hyn y byddai'r Canolfannau yn eu ffurf presennol yn diflannu ac y byddai trefn newydd o ddarparwyr yn cael ei sefydlu.
207. Trafodwyd statws, ffurf a chyfrifoldebau'r Endid Cenedlaethol a fyddai'n rhoi arweiniad strategol i'r maes. Ystyriwyd a ddylai'r Endid fod yn rhan o Lywodraeth Cymru gyda chysylltiad â gweithgareddau addysg eraill a strategaethau'n ymwneud â'r Gymraeg. Byddai corff "hyd braich" yn fodel derbyniol hefyd a thrafodwyd enghreifftiau o lwyddiant a diffygion y model hwn. Ystyriwyd hefyd drosglwyddo'r gwaith i gorff cyhoeddus arall; i'r sector gwirfoddol, fel menter gymdeithasol; ac i'r sector preifat. Ni wneir argymhelliad ynghylch ffurf yr Endid gan fod angen ystyried yn llawn faterion contractiol, caffael a chyfreithiol eraill cyn dod i benderfyniad.
208. Mae Tabl 14 yn amlinellu cyfrifoldebau posibl yr Endid Cenedlaethol a hefyd gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Darparwyr mewn perthynas â gwahanol themâu. Nid proses o ganoli dyletswyddau mewn un lleoliad daearyddol a ragwelir ond sefydlu tîm cenedlaethol i roi arweiniad mewn nifer o ffyrdd i'r maes. Nid yw'r Grŵp Adolygu yn ffafrio sefydlu Endid a fyddai'n gyfrifol am yr holl waith neu a fyddai'n is-gontractio â darparwyr eraill, gan y byddai rhai o wendidau'r drefn bresennol yn perthyn i Endid o'r fath a byddai'n ychwanegu haen arall at y gyfundrefn.
209. Mae llun 2 isod yn dangos y berthynas rhwng y Llywodraeth, yr Endid a'r Darparwyr. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am osod y polisi ac am gyllido'r Endid a'r Darparwyr; bydd yr Endid yn gyfrifol am roi arweiniad strategol i'r Darparwyr mewn ymateb i bolisiâu'r Llywodraeth; a bydd y Darparwyr yn gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth yn unol ag arweiniad a chytundeb yr Endid, ac yn cael eu cyllido'n uniongyrchol gan y Llywodraeth.

Tabl 14: Amlinelliad o gyfrifoldebau posibl Llywodraeth Cymru, yr Endid Cenedlaethol a'r Darparwyr

THEMA	CYFRIFOLDEBAU		
	Llywodraeth Cymru	Endid Cenedlaethol	Y Darparwyr
Pennu gweledigaeth a rhoi arweiniad	Pennu gweledigaeth a chytuno ar raglen waith yr Endid Cenedlaethol.	Rhoi arweiniad cenedlaethol i'r maes yn cynnwys blaenoriaethau, ee Cymraeg i'r Teulu a Cymraeg yn y Gweithle.	Gwireddu'r weledigaeth genedlaethol ar lefel leol.
Llunio a gweithredu strategaeth	Llunio strategaeth trosfwaol a deddfu yn ôl yr angen.	Llunio strategaeth genedlaethol a'i gweithredu mewn partneriaeth â'r Darparwyr. Cynnal ymchwil a defnyddio tystiolaeth i arloesi a datblygu a nodi arfer da a'i rannu.	Bwydo gwybodaeth a chyfrannu at y strategaeth genedlaethol a chydweithio i'w gweithredu.
Cynllunio darpariaeth	Cymeradwyo cynlluniau'r Endid Cenedlaethol.	Cynnal ymchwil i'r farchnad genedlaethol a lleol. Cytuno ar gynlluniau darpariaeth y Darparwyr a'u cyflwyno i'r Llywodraeth i'w cyllido.	Llunio cynllun darpariaeth amrywiol yn seiliedig ar wybodaeth leol.
Cyllido datblygiadau a darpariaeth	Cyllido'r Endid Cenedlaethol a'r Darparwyr yn seiliedig ar gynlluniau cymeradwy.	Gweithredu cynlluniau cenedlaethol.	Cefnogi a chynnal rhaglen o ddarpariaeth amrywiol.
Hyfforddi a datblygu gweithlu proffesiynol	Rhoi arweiniad a gosod polisi cenedlaethol.	Datblygu a chynnal rhaglen o hyfforddiant i diwtoriaid a rheolwyr fel rhan o gynllun datblygu proffesiynol parhaus.	Darparu cefnogaeth a hyfforddiant lleol.
Sicrhau Ansawdd	Gosod polisi cenedlaethol.	Sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cenedlaethol.	Cydweithio i weithredu trefniadau sicrhau ansawdd.

Marchnata a chyfathrebu	Rhoi arweiniad a sicrhau bod ymgyrchoedd Cymraeg i Oedolion yn cyd-fynd ag ymgyrchoedd eraill.	Gweithredu cynlluniau marchnata a chyfathrebu cenedlaethol.	Recriwtio dysgwyr i'r cyrsiau ar lefel leol.
Cwricwlwm, adnoddau ac asesu	Polisi a chyfeiriad a throsolwg ar y datblygiadau.	Datblygu cwricwlwm ac adnoddau ar lefel genedlaethol a rhannu arfer da. Gosod disgwyliadau ar Gyrff Dyfarnu ac arwain ar sefydlu trefniadau asesu.	Bwydo anghenion o ran y cwricwlwm ac adnoddau i'r Endid. Defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu i gefnogi'r dysgwyr.
Dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol	Sicrhau bod y cyllid rheolaidd yn cynnwys ariannu dysgu lled-ffurfiol. Sicrhau bod y berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn rhan o ddatblygiad polisi'r Llywodraeth ar y Gymraeg.	Arwain yn genedlaethol ar ganllawiau a rhannu arfer da o ran dysgu lled-ffurfiol. Gosod blaenoriaethau cenedlaethol er mwyn datblygu'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.	Darparu cyfleoedd dysgu lled-ffurfiol fel rhan o'r cyrsiau a chydweithio â phartneriaid lleol i ddatblygu'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Trefnu cyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ar lefelau Mynediad a Sylfaen.
Gweithio â phartneriaid	Gweithredu ac integreiddio polisiâu a rhannu arfer da ar draws y Llywodraeth.	Sefydlu a datblygu partneriaethau cenedlaethol, ee S4C, BBC, yr Eisteddfod ayyb.	Cydweithio â phartneriaid lleol i sicrhau cyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ar lefelau Canolradd ac Uwch.
Adolygu, monitro a gwerthuso a sicrhau gwerth am arian	Monitro gwaith yr Endid a'r Darparwyr trwy ddefnydd effeithiol o ddata a mesurau perfformiad.	Cyflwyno adroddiadau monitro i'r Llywodraeth. Monitro'r Darparwyr.	Cyflwyno adroddiadau monitro i'r Endid Cenedlaethol i gynnwys data ansoddol a meintiol. Cyflwyno data i'r Llywodraeth.
Atebolrwydd	Atebolrwydd i Weinidogion Cymru.	Atebolrwydd i'r Llywodraeth.	Atebolrwydd i'r Endid Cenedlaethol.

Llun 2: Perthynas y Llywodraeth, yr Endid Cenedlaethol a'r Darparwyr



210. Gwelwyd cryn ddawn a phrofiad yn y maes a gobeithir y byddai cyfundrefn newydd fel hon yn harneisio'r doniau a'r profiad hynny ac y byddai'n creu cyfleoedd newydd i weithwyr yn y maes weithio'n greadigol a datblygu eu gyrfaedd. Gobeithir y byddai ad-drefnu fel hyn dros y blynyddoedd nesaf yn fodd o ddenu gwaed newydd wrth i'r maes gael ei adfywio. Byddai agweddau ar waith yr Endid yn cael eu gwneud drwy gcontract â chyrff eraill a byddai secondiadau o'r maes yn sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio arbenigedd sy'n bodoli eisoes

Gweithredu'r newid

211. Bwriad y Grŵp Adolygu yw y bydd cyfundrefn newydd fel hon yn dod i fodolaeth mewn modd didrafferth a byddai angen paratoi ar gyfer y newid yn unol ag amserlen benodol. Nid dyletswydd y Grŵp Adolygu yw pennu'r amserlen ar gyfer proses o'r fath na gwneud y penderfyniadau fyddai eu hangen yn y cyfnod trosiannol.
212. Y flaenoriaeth gyntaf i Lywodraeth Cymru fyddai sefydlu'r Endid Cenedlaethol gan gytuno ar gyfrifoldebau a chyllid. Byddai rhai o gyfrifoldebau presennol y Canolfannau yn cael eu trosglwyddo i'r Endid a byddai cyfrifoldebau eraill yn cael eu gweithredu ar y cyd â'r Darparwyr. Byddai hyn yn golygu addasu'r dyraniadau cyllid. Mae'n bosib y bydd y maes yn cael ei effeithio gan y pwysau ar wariant cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf a byddai'n rhaid sicrhau bod unrhyw gynlluniau yn parhau'n gost-effeithiol.
213. Yn dilyn sefydlu'r Endid, byddai angen ystyried sut i ad-drefnu gweddill y maes. Cyfeiriwyd eisoes at wendidau'r drefn o ddefnyddio is-ddarparwyr ac wrth fwrw ati â'r gwaith hwn awgrymir y:
- dylai'r ad-drefnu leihau'n sylweddol nifer y Canolfannau ac is-ddarparwyr i rhwng 10 ac 14 o Ddarparwr dros gyfnod o amser;

- byddai'r Darparwyr yn gyfrifol am y maes mewn rhanbarth ddaearyddol neu'n arbenigo mewn math arbennig o ddarpariaeth;
 - byddai'r Darparwyr yn cael eu cyllido drwy'r Llywodraeth a mater i'w drafod fyddai parhau i ddefnyddio'r term 'Canolfan' yn y dyfodol ar gyfer y Darparwyr; a
 - byddai gan y Darparwyr record ansawdd gref a chyllideb ddigonol fel y cyflogir mwy o staff llawn-amser yn y maes.
214. O ran y broses i leihau nifer y Darparwyr i rhwng 10 ac 14 , disgwylir y byddai'r Darparwyr presennol yn trafod ac, os yn bosib, yn cytuno ar broses o resymoli. Gallai rhai Darparwyr drosglwyddo'r ddarpariaeth i eraill gan sicrhau tegwch i staff mewn sefyllfa o'r fath. Gallai Darparwyr eraill ymuno â'i gilydd i gryfhau eu sefyllfa. Gwelir y drefn lle cydweithiodd colegau addysg bellach Cymru â'i gilydd i leihau eu nifer o 25 coleg dair blynedd yn ôl i 14 erbyn haf 2013 fel dull effeithiol a rhesymol i ddod â nifer y Darparwyr yn y maes hwn i lawr i rhwng 10 ac 14. Mater i'r Llywodraeth fyddai rhesymoli ymhellach os na fyddai hyn yn digwydd yn ddidrafferth ym mhob ardal.
215. Yn ystod y cyfnod trosiannol hwn, mae'n bosib y byddai rhai Canolfannau a rhai is-ddarparwyr am drafod rhesymoli yn y rhanbarthau presennol. Dylai'r broses hon fod yn un aeddfed a theg, a dylid cynnal trafodaeth ar y lefel addas o ran rheolwyr y cyrff. Nid diben yr adroddiad hwn yw egluro'r hyn a ragwelir fel trefn o resymoli yn ei manylder. Byddai angen i Lywodraeth Cymru osod canllawiau a chael trosolwg gan sicrhau bod uwch-reolwyr Prifysgolion, Colegau Addysg Bellach, Awdurdodau Lleol a chyrff eraill yn cefnogi unrhyw broses resymoli gan gymryd i ystyriaeth y dysgwyr, staff ac adnoddau. Fodd bynnag, yn nhermau meini prawf ar gyfer rhesymoli, mae'r Grŵp Adolygu yn awgrymu y dylid ystyried, ymhlith materion eraill, y pwyntiau isod:
- effaith y newid ar ddysgwyr a'r ddarpariaeth;
 - record y Ganolfan a'r is-ddarparwr o ran ansawdd;
 - maint cyllideb is-ddarparwyr a'r arbedion a geir drwy resymoli;
 - y profiad o ddefnyddio systemau gwybodaeth a thrin data;
 - y gefnogaeth i staff a'r potensial i greu mwy o staff llawn-amser;
 - trosglwyddo staff, arbenigedd ac adnoddau eraill o bob math; a
 - chytundeb ffurfiol ar yr holl broses newid yn dilyn ymgynghoriad lleol.
- Disgwylir hefyd y byddai cyfathrebu clir er mwyn osgoi unrhyw densiynau a phryderon dianghenraid.
216. Er mwyn gallu cyflawni argymhellion yr adolygiad, bydd angen sefydlu trefn glir rhwng y Llywodraeth, yr Endid a'r Darparwyr ar gyfer cynllunio a chyllido darpariaeth. Mae Tabl 14 uchod yn amlinellu'u cyfrifoldebau, ond bydd sicrhau cydberthynas rhyngddynt yn greiddiol i lwyddiant y maes. Mae'r Grŵp Adolygu yn rhagweld y bydd y Llywodraeth yn cyllido'r Endid Cenedlaethol i ymgymryd â dyletswyddau sy'n rhoi arweiniad strategol i'r Darparwyr ar lefel genedlaethol. Rôl yr Endid

fydd cydweithio â'r Darparwyr i gynllunio'r ddarpariaeth er mwyn osgoi dyblygu, a bydd y Darparwyr yn atebol i'r Endid o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y Llywodraeth yn ariannu'r Darparwyr yn uniongyrchol gan fod y gweithdrefnau eisoes yn bodoli o fewn y Llywodraeth i wneud hynny. Yn yr un modd, bydd y Darparwyr yn dychwelyd data yn uniongyrchol i'r Llywodraeth drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) neu drwy'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

217. Byddai angen i'r Llywodraeth fod yn ofalus i sicrhau proses dryloyw a theg. Byddai angen i'r Llywodraeth hefyd gydweithio â'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'r is-ddarparwyr i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn parhau ac na fyddai dysgwyr ar eu colled yn ystod y cyfnod interim.
218. Rydym yn argyhoeddedig y byddai'r ad-drefnu hwn yn creu cyfundrefn fwy cydweithredol sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, sy'n gosteffeithiol ac yn sicrhau bod ansawdd yn gwella. Byddai'n rhaid cael newid o'r fath i weithredu nifer helaeth o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Rydym yn rhagweld y gellid gweld manteision mawr yn sgil ad-drefnu fel hyn, gan gynnwys cysoni'r ansawdd a'r arferion da a welir trwy Gymru ac osgoi dyblygu wrth ddatblygu cwricwlwm ac adnoddau.

Newid pwyslais a chyrraedd dysgwyr newydd

219. Er mwyn cyrraedd dysgwyr newydd a sicrhau bod profiad dysgwyr y dyfodol yn gyfoes a phwrpasol, mae angen datblygu sawl agwedd ar y maes y tu hwnt i edrych ar y strwythur.
220. Gwelir nifer o dablau sy'n rhoi braslun o broffil y dysgwyr presennol yn Rhan 3. Dengys Tabl 6 ble mae'r dysgwyr presennol yn byw a gwelir bod 3.9% o boblogaeth Gwynedd nad yw'n siarad Cymraeg (1 o bob 26) yn dysgu Cymraeg yn ystod 2010/11. Mae hyn yn fwy nag unrhyw sir arall ac mae angen deall y patrymau. Oes modd priodoli hyn i bolisi iaith y sir a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Ngwynedd ac/neu i'r ffaith bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n helaeth ac i'w gweld a'i chlywed? O ddeall y patrymau, byddai modd i'r Endid a'r Darparwyr dargedu darpar-ddysgwyr yn well trwy weithio â phartneriaid lleol i gynllunio'n bwrpasol. Hawdd yw sylwi ar niferoedd uchel y di-Gymraeg nad ydynt yn dysgu Cymraeg ac felly, y cyfle i ddenu dysgwyr newydd.
221. Mae angen sicrhau parhad i'r datblygiadau llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf ym maes Cymraeg i Oedolion a datblygu'r pethau hyn ymhellach. Er enghraifft, mae'n bwysig bod hyfforddiant tiwtoriaid a'r Cymhwyster Cenedlaethol i Diwtoriaid yn parhau; mae'n bwysig datblygu Cymraeg i'r Teulu ymhellach gan gydweithio ag ysgolion ac ystyried anghenion gofal plant; ac mae angen rhannu'r enghreifftiau o ansawdd uchel ac arferion da a welwyd yn y maes.

222. Ar yr un pryd, mae angen mynd i'r afael â gwendidau'r maes gan sicrhau defnydd helaeth a chyffrous o dechnoleg ac e-ddysgu a'i gwneud hi'n arferol i ddysgwyr ddysgu Cymraeg ar gyrsiau dwys iawn. Mae angen sicrhau cyfleoedd dysgu lled-ffurfiol ac anffurfiol difyr a chymryd camau breision i ddod â siaradwyr Cymraeg at ei gilydd i siarad Cymraeg. Mae angen defnyddio siaradwyr Cymraeg a dysgwyr presennol i farchnata a recriwtio hefyd a sicrhau bod y recriwtio yn digwydd mewn ffyrdd arloesol a fydd yn codi'r niferoedd yn sylweddol.
223. Un o brif wendidau'r gyfundrefn bresennol yw diffyg strategaeth ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle. Mae'r Grŵp Adolygu yn gryf o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r maes hwn, yn yr un modd ag y datblygwyd darpariaeth Cymraeg i'r Teulu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfle euraidd gan faes Cymraeg i Oedolion i gefnogi Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 trwy ddarparu hyfforddiant iaith bwrpasol i weithleoedd. O weithredu'r argymhellion a nodir ar gyfer y maes hwn, dylai cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle fod yn rhan greiddiol o ddarpariaeth nifer o Ddarparwr Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol. Byddai angen i'r Endid osod targedau penodol ar gyfer datblygu'r maes hwn, a dylai'r Llywodraeth ystyried clustnodi rhan o'r gyllideb yn benodol ar gyfer darparu hyfforddiant iaith mewn gweithleoedd.
224. Mae gan faes Cymraeg i Oedolion gyfraniad allweddol i'w wneud i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod o weld yr iaith yn ffynnu. Credir bod gan y maes y doniau a'r profiad i ymgymryd â'r her ac i weithredu'r newidiadau a argymhellir. Byddai modd creu strwythur cadarn, datblygu creadigrwydd a sicrhau cydweithio agos â phartneriaid allweddol i godi statws y maes a denu dysgwyr newydd.

Rhan 6: Codi golygon: casgliadau ac argymhellion

225. Yn y rhan hon o'r adroddiad, nodir yr argymhellion sy'n codi o'n hystyriaeth o'r maes ac sydd wedi eu trafod yn rhannau blaenorol o'r adroddiad hwn. Bwriad yr argymhellion yw bodloni'r meini prawf (paragraff 32) sydd wedi bod yn ganolog i'r holl waith, a chyflawni'r cylch gorchwyl. O weithredu'r rhain yn y blynyddoedd sydd i ddod, hyderwn y bydd maes Cymraeg i Oedolion yn datblygu ymhellach ac yn rhoi cyfle i lawer mwy o bobl ddod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg. Fe'n hargyhoeddir y bydd hyn, ynghyd â chamau eraill i gynnal ac adfer yr iaith, yn atal y gostyngiad diweddar yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac yn dechrau ar y dasg allweddol o gynyddu'i niferoedd.
226. Mae'r argymhellion isod ar gyfer Llywodraeth Cymru, yr Endid Cenedlaethol, Darparwyr a phartneriaid.

Argymhelliad 1

Llywodraeth Cymru i osod polisi clir ar gyfer y maes Cymraeg i Oedolion a:

- sefydlu Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am roi arweiniad strategol i'r Darparwyr ac i ymgymryd â dyletswyddau datblygol ar lefel genedlaethol o ran y cwricwlwm, hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu ymhlith pethau eraill; a
- sefydlu proses glir ac effeithiol ar gyfer symud cyfrifoldebau a chyllid i'r Endid Cenedlaethol newydd er mwyn cyllido datblygiadau ar lefel genedlaethol a fydd yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau arweiniad cryf a chadarn a chysondeb i'r maes.

Argymhelliad 2

Llywodraeth Cymru i:

- weithio gyda'r Endid Cenedlaethol a'r darparwyr cyfredol i resymoli, gan anelu at leihau nifer y Darparwyr o 27 presennol i 10-14; a
- chyllido'r Darparwyr.

Argymhelliad 3

Yr Endid Cenedlaethol a'r Darparwyr i gynllunio darpariaeth gyda'r nod o gynyddu niferoedd a diwallu anghenion dysgwyr gan:

- ddefnyddio a mireinio prosesau casglu a dadansoddi data Cymraeg i Oedolion i fesur a thracio dilyniant dysgwyr o un lefel / blwyddyn i'r llall;
- defnyddio ymchwil i'r farchnad i ddeall pam nad yw 2.1 miliwn o'r boblogaeth ôl-16 nad yw'n siarad Cymraeg yn dewis dysgu Cymraeg, er mwyn adnabod a thargedu darpar ddysgwyr;
- defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2011 i dargedu dysgwyr newydd;
- ymateb i anghenion dysgwyr a datblygu darpariaeth hyblyg; a

- chynyddu'r ddarpariaeth o gyrsiau dwys drwy ddatblygu rhaglen o ddysgu dwys a'i threialu i ddechrau mewn nifer bach o leoliadau ar draws Cymru.

Argymhelliad 4

Yr Endid Cenedlaethol i gydweithio â'r Darparwyr i ddatblygu a gweithredu cynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr, newydd a chyffrous sy'n seiliedig ar ddata, ymchwil i'r farchnad a phrofiad ymgyrchoedd blaenorol, a defnyddio dulliau effeithiol gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol i hyrwyddo'r maes.

Argymhelliad 5

Yr Endid Cenedlaethol i gydweithio â'r Darparwyr i ddatblygu gwasanaeth hygyrch i ddysgwyr a darpar ddysgwyr er mwyn darparu gwybodaeth gyflawn am y ddarpariaeth ar draws Cymru, a sicrhau gwybodaeth a throsolwg o ddarpariaeth ddysgu Cymraeg y tu hwnt i Gymru, gan gynnig arweiniad a chefnogaeth yn ôl yr angen.

Argymhelliad 6

Yr Endid Cenedlaethol i gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaeth Cymraeg yn y Gweithle a fydd:

- yn seiliedig ar ymchwil drwyadl a pharhaus i anghenion gwahanol sectorau o ran Cymraeg yn y Gweithle;
- yn cydnabod ac yn efelychu arfer da ar lefel ryngwladol, cenedlaethol a lleol;
- yn sicrhau bod modelau darparu ac asesu ac adnoddau addas a hyblyg, sydd wedi'u teilwra, yn cael eu datblygu;
- yn galluogi cydweithio ar lefel genedlaethol a lleol; ac
- yn datblygu darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle i fod yn frand cryf sy'n cael ei gydnabod gan gyflogwyr.

Argymhelliad 7

Llywodraeth Cymru i gydweithio â'r Comisiynydd Iaith i:

- sicrhau bod y Safonau arfaethedig yn pwysleisio cyfraniad hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn adlewyrchu'r angen am hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle dwys a phwrpasol;
- galluogi sefydliadau ymbarél a chyflogwyr blaengar i rwydweithio a rhannu arfer da o ran Cymraeg yn y Gweithle; a
- galluogi cyflogwyr a sefydliadau sydd â dylanwad dros gyflogwyr i gymryd cyfrifoldeb strategol am ddatblygu sgiliau Cymraeg eu staff a datblygu a hybu Cymraeg yn y gweithle.

Argymhelliad 8

Llywodraeth Cymru a'r Endid Cenedlaethol i hybu Cymraeg i'r Teulu mewn partneriaeth â'r Darparwyr a sefydliadau eraill drwy:

- adeiladu ar y cynllun Cymraeg i'r Teulu a datblygu a chynyddu'r ddarpariaeth hon;
- annog awdurdodau lleol ac ysgolion i gydweithio â Darparwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn cefnogi rhieni i ddysgu Cymraeg; a
- sicrhau bod Cymraeg i'r Teulu yn rhan o gynlluniau a pholisïau ehangach yn ymwneud â phlant a theuluoedd a dysgu teuluol.

Argymhelliad 9

Yr Endid Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth e-ddysgu arloesol a fydd yn sicrhau bod e-ddysgu yn rhan allweddol o brofiad y dysgwr ar bob lefel ac yn ganolog i'r holl faes. Bydd angen i'r strategaeth:

- fod yn seiliedig ar ymchwil drwyadl i ddatblygu dealltwriaeth o anghenion technegol dysgwyr a thiwtoriaid;
- ystyried agweddau pedagogaid e-ddysgu ar gyfer Cymraeg i Oedolion;
- fod yn seiliedig ar ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf; ac
- arwain at ddatblygu un safle rhithiol sy'n hygyrch ar wahanol blatfformau.

Argymhelliad 10

Llywodraeth Cymru a'r Endid Cenedlaethol i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu fframwaith cwricwlwm ar gyfer diffinio a mesur sgiliau iaith Gymraeg a chynnal trafodaeth genedlaethol ar ddiffinio rhuglder fel rhan o'r fframwaith.

Argymhelliad 11

Yr Endid Cenedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru i wireddu argymhellion ymchwil Prifysgol Caerdydd ar fethodoleg Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys:

- datblygu cwricwlwm cenedlaethol gan sicrhau fersiwn electronig y gall tiwtoriaid ei addasu;
- trafod datblygu corpws geirfa mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd Iaith ac adrannau Cymraeg y Prifysgolion;
- sicrhau bod gweithgareddau dysgu lled-ffurfiol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cyrsiau;
- ailedrych ar nifer yr oriau disgwyledig ar lwybr dysgu Cymraeg ac ail-ddiffinio'r oriau a'r lefelau yn ôl yr angen; ac
- ystyried modelau amgen ar gyfer dysgu dwys.

Argymhelliad 12

Yr Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm yn ganolog a sicrhau bod adnoddau'n cael eu paratoi i gyd-fynd â'r cwricwlwm sydd :

- yn ddeniadol, yn arloesol ac yn amrywiol er mwyn denu gwahanol fathau o ddysgwyr ac annog y dysgwyr i ymarfer gwahanol sgiliau; ac
- yn cael eu hawduro gan dîm profiadol sy'n cael hyfforddiant, cefnogaeth a chydabyddiaeth.

Argymhelliad 13

Yr Endid Cenedlaethol a'r Darparwyr i ymgynghori â sefydliadau eraill i adolygu'r ddarpariaeth ar lefel Hyfedredd gyda'r nod o sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i thargedu'n briodol.

Argymhelliad 14

Yr Endid Cenedlaethol i gydweithio â darparwyr cyrsiau iaith Gymraeg yn y sector addysg bellach ac addysg uwch, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i osgoi dyblygu a sicrhau gwerth am arian cyhoeddus, ac i sefydlu fforwm gyda chwmnïau preifat sy'n darparu cyrsiau iaith Gymraeg a'u cynnwys mewn trafodaethau cenedlaethol.

Argymhelliad 15

Llywodraeth Cymru a'r Endid Cenedlaethol i ailedrych ar gymwysterau Gymraeg i Oedolion gan:

- symud y pwyslais oddi ar achredu ac i asesu ar gyfer dysgu a sicrhau bod trefniadau cenedlaethol yn eu lle i gymedroli'r asesu, er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol;
- darparu hyfforddiant i diwtoriaid ar asesu ar gyfer dysgu;
- lleihau nifer yr arholiadau er mwyn rhoi statws i'r cymwysterau a sicrhau gwerth am arian; ac
- ymgynghori â chyrff dyfarnu fel y bo'n briodol.

Argymhelliad 16

Yr Endid Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Darparwyr i ddatblygu strategaeth hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid a fydd yn cynnwys:

- datblygu fframwaith Datblygu Proffesiynol Parhaus;
- darparu hyfforddiant mewn swydd i fodloni anghenion datblygu tiwtoriaid; a
- darparu'r Cymhwyster Cenedlaethol i diwtoriaid newydd neu'r rheiny sydd heb gymhwyster.

Argymhelliad 17

Darparwyr Cymraeg i Oedolion i:

- wella ansawdd gan sicrhau eu bod yn rhannu ac yn gweithredu arfer da er mwyn cysoni ansawdd er lles dysgwyr;
- gynllunio gweithlu'r dyfodol gan wneud pob ymdrech i sicrhau mwy o swyddi llawn-amser a chyfleoedd i diwtoriaid ddatblygu gyrfa yn y maes.

Argymhelliad 18

Llywodraeth Cymru i glustnodi cyllid rheolaidd Cymraeg i Oedolion yn y gyllideb ar gyfer addysg ôl-16 gan sicrhau:

- bod y dull cyllido rheolaidd newydd yn gydnaws â'r egwyddorion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn;

- bod cyllido dysgu lled-ffurfiol yn cael ei brif ffrydio er mwyn sicrhau ei fod yn rhan annatod o unrhyw gyrsiau; a
- bod y lefelau brigdorri ym maes Cymraeg i Oedolion yn gyson, yn deg ac yn dryloyw ac yn sicrhau gwerth am arian ar draws Cymru.

Argymhelliad 19

Yr Endid Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Darparwyr i:

- greu model o drefn lywodraethu cryf a chyson; a
- pharhau ag ymdrechion i gysoni ffioedd ar draws Cymru er mwyn sicrhau'r ffi isaf posibl a thegwch i ddysgwyr.

Argymhelliad 20

Yr Endid Cenedlaethol ynghyd â'r Darparwyr Cymraeg i Oedolion i ddatblygu dulliau amrywiol o ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ynghyd, gan gynnwys:

- trefnu gweithgareddau dysgu anffurfiol difyr a rheolaidd ar draws Cymru;
- adeiladu rhwydwaith genedlaethol o wirfoddolwyr;
- cydweithio'n agos â'r Mentrau Iaith a chymdeithasau a chlybiau o bob math i'w helpu i groesawu dysgwyr;
- defnyddio technoleg fodern i'r eithaf;
- rhannu arfer da;
- ystyried manteision bathodynau i adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr; a
- chydweithio â phwyllgorau lleol yr Eisteddfod Genedlaethol i sicrhau bod parhad i'r bwrwm ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol adael yr ardal.

Argymhelliad 21

Partneriaid allweddol fel y Mentrau Iaith a'r papurau bro i ymestyn y gefnogaeth i ddysgwyr mewn ffyrdd creadigol a difyr.

Argymhelliad 22

Yr Eisteddfod Genedlaethol i gydweithio â'r Endid Cenedlaethol i sicrhau rôl hyrwyddo i Ddysgwr y Flwyddyn a chydabod llwyddiant siaradwyr Cymraeg sy'n helpu dysgwyr.

Argymhelliad 23

S4C a BBC Cymru Wales i gydweithio'n agos â'r Endid Cenedlaethol a dysgwyr i ddatblygu a gweithredu strategaeth a fydd yn sicrhau bod eu darpariaeth yn denu dysgwyr Cymraeg newydd, yn cefnogi dysgwyr presennol ac yn helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Argymhelliaid 24

Siaradwyr Cymraeg i ymfalchïo yn eu hiaith a chydabod rôl allweddol dysgwyr yn y Gymru fodern gan gymryd eu cyfrifoldeb am groesawu a chefnogi'r dysgwyr o ddifrif, yn unigol ac mewn cymdeithasau a chlybiau.

227. I grynhoi, bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn cryfhau'r maes mewn nifer o ffyrdd gan sicrhau:
- arweiniad strategol clir ar faterion allweddol;
 - strwythur effeithiol, gyda llai o ddarparwyr, er mwyn sicrhau cydweithio a dileu dyblygu;
 - datblygiad cwricwlwm ac adnoddau pellach, gan gynnwys e-ddysgu;
 - marchnata a hyrwyddo mwy effeithiol;
 - blaenoriaeth i ddysgwyr yn y gweithle;
 - mwy o gyfle i staff Cymraeg i Oedolion ddatblygu gyrfa;
 - lle amlwg i bartneriaid allweddol a gwirfoddolwyr;
 - cyfle i ddatblygu perthynas agosach rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg;
 - buddsoddiad yn y maes a'i wneud yn gost effeithiol.
228. O weithredu'r argymhellion hyn, rhagwelir hefyd y bydd cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion o'r lefel bresennol o oddeutu 18,000 o ddysgwyr y flwyddyn. Ni ellir rhagweld union faint a natur y twf gan fod ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar nifer y darpar ddysgwyr, ond gwelir bod angen i'r Darparwyr a'r partneriaid dargedu cymunedau a chyflogwyr penodol. Rhaid i'r maes fod yn uchelgeisiol a chynyddu nifer y dysgwyr fel bod pwysau ar gapasiti yn golygu bod yn rhaid cynyddu'r cyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn gweld y bydd y niferoedd o fewn y sefyllfa wirfoddol o ddysgu Cymraeg i Oedolion yn cyrraedd uchafbwynt.
229. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi tua'r un pryd â'r Gynhadledd Fawr yng Ngorffennaf 2013, sy'n drafodaeth genedlaethol yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Bydd nifer o argymhellion a wneir yno yn hwb pellach i'r broses o greu dysgwyr. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd Adolygiadau eraill gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn adrodd nôl yn y misoedd nesaf, hefyd yn dylanwadu ar faes Cymraeg i Oedolion. Yn ogystal, gallai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a gyhoeddir ddiwedd Mehefin, effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac o bosibl yr adnoddau ar gyfer Cymraeg i Oedolion. Roedd ansicrwydd ynghylch y pethau hyn pan gyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.
230. Gobaith y Grŵp Adolygu yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt ac yn gwneud hynny mewn dull cyfannol. Yn rhy aml ceir diffyg rhwng polisi a gweithredu. Rhaid felly sicrhau bod y maes hwn yn rhan annatod o holl waith y Llywodraeth mewn perthynas â'r Gymraeg a bod monitro parhaus yn digwydd.

231. Wrth fynd drwy'r broses adolygu, gwelwyd bod angen gwella'r cydweithio a'r cydlynau ar bob lefel – yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol – ac wrth gwrs rhwng y lefelau. Yn aml tueddir i weld yr ateb a'r cyfrifoldeb yn rhywle arall. Mae'r argymhellion yn delio'n uniongyrchol â hyn, a nodir barn ar bwy sy'n y sefyllfa orau i wneud beth a sut y dylai gwahanol elfennau'r gyfundrefn newydd ryngweithio â'i gilydd i ddatblygu'r ddarpariaeth, yr adnoddau a'r cyfleoedd. Mae llwyddiant y maes hollbwysig hwn, sy'n arf allweddol i greu siaradwyr rhugl yn y Gymraeg, yn ddibynnol ar weithgaredd llw o unigolion yn eu cymunedau a'u gwaith. Daeth yr amser felly i *godï golygon* gan gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg er mwyn i'r Gymraeg ffynnu.

Atodiad 1: Cylch gorchwyl Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

1. Amcan

Adolygu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion o ran cyrhaeddiad dysgwyr, cynnwys y cwricwlwm, strwythurau darparu a gwerth am arian.

2. Cylch gwaith

Gofynnir i'r Grŵp Adolygu ystyried y cwestiynau canlynol:

- beth fyddai'r ffordd orau o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y dysgwyr er mwyn iddynt allu defnyddio'r iaith yn y gweithle, yn y gymuned a chyda'u teuluoedd, gan gynnwys:
 - o a yw'r cwricwlwm presennol yn addas?
